
# Adroddiad Blynyddol y Cynllun Corfforaethol
## 1 Ebrill 2020 tan 31 Mawrth 2021



Neath Port Talbot County Borough
Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

**RHAGAIR**

Yn ystod 2020/2021 fe fuon ni'n wynebu rhai o'r heriau mwyaf y gallem ni eu dychmygu. Ym mis Mawrth 2020, symudodd y Cyngor i fodd ymateb brys er mwyn delio ag effaith pandemig y Coronafeirws. Rwy'n eithriadol falch o sut bu gweithlu'r Cyngor, yr aelodau etholedig a'n cymuned yn addasu i'r cyfyngiadau llym a roddwyd ar bawb ohonom.

Ym mis Mehefin 2020, bu swyddogion y Cyngor yn rhan o ymateb amlasiantaeth i ddigwyddiad mawr ym Mlaendulais, a achoswyd wrth i silindr nwy propen ffrwydro. Bu'r partneriaid yn cefnogi'r trigolion ar adeg y digwyddiad, ac wedyn yn ogystal, gan fod angen gwaith adfer ar nifer o eiddo er mwyn gallu dychwelyd iddynt yn ddiogel. Roedd y gefnogaeth gan y gymuned yn wirioneddol ryfeddol, a hoffwn dalu teyrnged i'r ysbryd cymunedol hwnnw, sydd mor nodweddiadol o bobl ein bwrdeistref sirol, a ddaeth i'r amlwg ar hyd y cyfnod.

Ym mis Ionawr 2021, symudodd y Cyngor i fodd ymateb brys unwaith yn rhagor, ochr yn ochr â phartneriaid amlasiantaeth, i ddelio ag effaith y "gollyngiad" ym Mharc Gosen, Sgiwen, a achosodd lifogydd helaeth yn yr ardal o amgylch. Sicrhaodd ymateb y bartneriaeth fod y trigolion dan sylw yn cael eu diogelu, ac eto hoffwn ddiolch i bawb a fu'n gweithio'n ddiflino i ddelio â'r digwyddiad ofnadwy hwn.

Ochr yn ochr â delio â'r argyfyngau hynny, daliodd y Cyngor ati i weithio – gan gyflwyno gwasanaethau a gwneud cynnydd tuag at amcanion llesiant y Cyngor a'r blaenoriaethau gwelliant cysylltiedig a nodwyd gennym yng Nghynllun Corfforaethol 2019/2022.

Yn yr Adroddiad Blynyddol hwn cewch ragor o wybodaeth am y gwaith hwnnw, a'r gwahaniaeth a wnaethom, gan gynnwys darparu Chromebooks i 9,500 o ddisgyblion i gefnogi eu dysgu gartref, y gwaith adfywio a barhaodd ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys adnewyddu Canol Tref Castell-nedd a Sinema'r Plaza, rhoi cefnogaeth fusnes i 67 o gwmnïau yn y cymoedd a sicrhau llety parhaol ar gyfer 258 o unigolion neu aelwydydd digartref. Ar ben hynny, roedd gwaith yn parhau i baratoi cais cynllunio ar gyfer prosiect £150 miliwn Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) ym mhen uchaf Cwm Dulais a De Powys, a chymeradwywyd cynllunio amodol ym mis Gorffennaf 2021. Bydd y prosiect hwn yn creu swyddi o ansawdd uchel gyda chyflogaeth ychwanegol ar ffurf contractau sylweddol yn y cyfnod adeiladu.

Ar gyfer 2021/2022, prif flaenoriaeth y Cyngor hwn yw arwain Castell-nedd Port Talbot allan o’r pandemig trwy adeiladu Castell-nedd Port Talbot yn ôl yn well. Ar adeg ysgrifennu’r Adroddiad Blynyddol hwn rydym ni’n canolbwyntio ar ddatblygiad Cynllun Adferiad Corfforaethol y Cyngor, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn 2022. Bydd y Cynllun hwnnw’n cyflwyno gweledigaeth ddiwygiedig a chyfres o amcanion a blaenoriaethau llesiant wedi’u diweddaru, i’w cyflwyno yn ystod y pum mlynedd nesaf. Bydd y rhain wedi’u ffurfio gan Ymgyrch Dewch i Sgwrsio’r Cyngor, sy’n gyfle i bobl sy’n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot osod yr agenda a dylanwadu ar yr hyn y byddwn ni’n ei wneud fel Cyngor wrth symud ymlaen.

**Y Cynghorydd Edward Latham, Arweinydd y Cyngor**

Mae’r Adroddiad hwn ar gael yn Saesneg  ac ar ein gwefan.

## Cynnwys


*1. Cyflwyniad* **5**

*2. Crynodeb o'r Cynnydd a'r Perfformiad yn ystod 2020/2021* **5**

*3. COVID-19 – Ein hymateb (o ganol mis Mawrth 2020 tan ddiwedd Mawrth 2021)* **11**

*4. Amcan Llesiant 1 – Cynnydd yn 2020/21* **18**

*5. Amcan Llesiant 2 – Cynnydd yn 2020/21* **49**

*6. Amcan Llesiant 3 – Cynnydd yn 2020/21* **81**

*7. Sicrhau Llywodraethu Da a Gwelliant Parhaus:* **109**

*8. Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi* **122**

## 1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn adrodd am y cynnydd a wnaed yn erbyn y tri amcan llesiant, y blaenoriaethau gwelliant a'r camau a nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 2019/2022 ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021.

Oherwydd dyfodiad pandemig COVID-19 nid oedd yn ymarferol cyhoeddi Cynllun Corfforaethol manwl, wedi'i adnewyddu ar gyfer 2020/21. Ar gyfer 2020/21, felly, cadwyd at yr un amcanion llesiant a blaenoriaethau gwelliant a nodwyd yng Nghynllun 2019/22.

Wrth baratoi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar gyfer 2020/2021, mae gofyn bod y Cyngor yn ystyried a yw'r amcanion llesiant presennol yn dal yn berthnasol neu a ddylid ystyried newidiadau i'r amcanion hynny. Mae'r gwaith hwnnw'n mynd rhagddo ar hyn o bryd fel rhan o'r broses o baratoi Cynllun Adferiad Corfforaethol y Cyngor, a gyhoeddir yn 2022.

Yn haf 2021 lansiodd y Cyngor yr ymgyrch 'Dewch i sgwrsio', sy'n gyfle i drigolion a rhanddeiliaid osod yr agenda a mynegi barn, pryderon a syniadau i helpu i lunio gwaith y Cyngor yn y dyfodol. Bydd yr adborth yn helpu i lunio'r Cynllun Adferiad Corfforaethol uchod o 2022/23 ymlaen.

## 2. Crynodeb o'r Cynnydd a'r Perfformiad yn ystod 2020/2021

### Cynnydd:

**Amcanion Llesiant a Blaenoriaethau Gwelliant** – Nid oedd y cynnydd o ran cyflawni ein hamcanion llesiant cystal â'r cynnydd a wnaed yn ystod y ddwy flynedd ariannol flaenorol. Y rheswm am hynny oedd effeithiau pandemig COVID-19 a'r ffocws ar ymateb iddo.

O dan bob amcan llesiant mae blaenoriaethau gwelliant a chamau gweithredu. Mae'r blaenoriaethau gwelliant yn nodi'r gwelliant cyffredinol rydym ni'n gobeithio ei gyflawni ac mae'r camau'n nodi'r hyn y bydd yn rhaid i ni ei wneud er mwyn cyflawni'r gwelliant hwnnw.

Ar draws y tri amcan llesiant, mae 65% (54 o 83) o'n 'camau', h.y. y camau gweithredu strategol rydym ni'n eu pennu ar gyfer cyflawni ein blaenoriaethau gwelliant yn cyrraedd y nod, mae 24 o'r camau yn 'agos at' gyrraedd y nod, ac mae 5 heb gyrraedd y nod. Ar gyfer 2019/20 adroddwyd bod 83% (68 o 83) o'n 'camau' yn cyrraedd y nod, 13 yn 'agos ati' a 2 heb gyrraedd y nod.

Ceir crynodeb o'r cynnydd a wnaed at gyflawni pob amcan llesiant isod:

## Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc

Cyflwynwyd 27 cam i'n helpu i gyflawni'r 7 blaenoriaeth gwelliant o dan **Amcan Llesiant 1**.

Yn achos 2020/21, roedd 15 (56%) o'r 27 cam yn cyrraedd y nod, 9 yn agos ati a 3 heb gyrraedd y nod. Mae hyn yn cymharu â 23 (85%) yn cyrraedd y nod, 2 yn agos ati a 2 heb gyrraedd y nod yn 2019/20.

Roedd 5 o'r 7 blaenoriaeth gwelliant yn agos at gyrraedd y nod a 2 yn cyrraedd y nod.

**Yr asesiad cyffredinol o gynnydd yn ystod 2020/21 ar gyfer Amcan Llesiant 1 yw ei fod yn agos at gyrraedd y nod**.

Y prif reswm am hyn yw effaith pandemig COVID-19, y cyfyngiadau cenedlaethol a'r effaith ddilynol ar lefelau cyswllt ac ymgysylltiad â phlant a phobl ifanc, yn arbennig yn y Gwasanaeth Ieuenctid.

Fodd bynnag, rhoddwyd cefnogaeth sylweddol i ddisgyblion, gan gynnwys £3.9miliwn o daliadau prydau ysgol am ddim, a darparwyd 9,500 o Chromebooks a 300 o liniaduron ar gyfer disgyblion i gefnogi eu dysgu. Daliwyd ati hefyd â'n

Rhaglen Strategol o Wella Ysgolion, oedd yn cynnwys parhau â chyfnod 1 o'r cartref newydd gwerth £27 miliwn ar gyfer Ysgol Gyfun Cefn Saeson. Ar ben hynny, gweinyddwyd nifer o grantiau cefnogi oddi wrth Lywodraeth Cymru gan y Cyngor i gefnogi'r sector gofal plant, a'n ffigur N.E.E.T (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) o 2.1% oedd yr isaf (y gorau) erioed ar gyfer y cyngor hwn. Mae canlyniadau Diogelwch Ffyrdd yn parhau i wella o flwyddyn i flwyddyn, ac mae mwyafrif o'r camau Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn dal i gyrraedd y nod.

## Amcan Llesiant 2 – Gwella llesiant pob oedolyn sy'n byw yn y fwrdeistref sirol

Cyflwynwyd 31 cam i'n helpu i gyflawni'r 6 blaenoriaeth gwelliant ar gyfer **Amcan Llesiant 2.** Yn achos 2020/21, roedd 20 (65%) o'r camau'n cyrraedd y nod, 10 yn agos ati a 1 heb gyrraedd y nod. Mae hyn yn cymharu â 26 (84%) yn cyrraedd y nod, 5 yn agos ati a dim heb gyrraedd y nod yn 2019/20.

Roedd 4 o'r 6 blaenoriaeth gwelliant yn cyrraedd y nod a 2 yn agos iawn ati.

**Yr asesiad cyffredinol o gynnydd ar gyfer Amcan Llesiant 2 yn 2020/21 yw ei fod yn cyrraedd y nod.**

Cafodd pandemig COVID-19 a'r cyfyngiadau cenedlaethol effaith sylweddol ar nifer o wasanaethau sy'n cyflwyno'r camau ar gyfer Amcan Llesiant 2, megis gwaith Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach a chwblhau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Mae modd cysylltu effeithiau'r pandemig hefyd â pheth o'n gwaith Diogelwch Cymunedol sy'n ymwneud â cham-drin domestig, camddefnyddio sylweddau a chynnydd mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein trefi. Fodd bynnag, darparodd y Cyngor gefnogaeth sylweddol i fusnesau ac unigolion yn ystod y pandemig, a chefnogaeth sylweddol a gwell canlyniadau i'n pobl ddigartref, a daliwyd ati i gefnogi defnyddwyr gwasanaeth ar draws y Gwasanaethau Oedolion.

## Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl

Cyflwynwyd 25 cam i'n helpu i gyflawni'r 8 blaenoriaeth gwelliant ar gyfer **Amcan Llesiant 3**. Yn achos 2020/21, roedd 19 (76%) o'r camau'n cyrraedd y nod, roedd 5 yn agos iawn ati, ac roedd 1 heb gyrraedd y nod. Mae hyn yr un fath yn fras ag yn 2019/20 pan oedd 19 (76%) yn cyrraedd y nod, 6 yn agos iawn ati, a dim heb gyrraedd y nod.

Roedd 6 o'r 8 blaenoriaeth gwelliant yn cyrraedd y nod a 2 heb gyrraedd o ryw fymryn.

**Yr asesiad cyffredinol o gynnydd Amcan Llesiant 3 yn ystod 2020/21 yw ei fod yn cyrraedd y nod.**

Cafodd pandemig COVID-19 a chyfyngiadau cenedlaethol effaith sylweddol ar nifer o wasanaethau sy'n cyflawni'r camau ar gyfer amcan llesiant 3, megis gwasanaethau hamdden, theatrau, llyfrgelloedd a thwristiaeth. Fodd bynnag, er gwaethaf yr effaith hon, llwyddwyd i gyflawni'r rhan fwyaf o'r hyn roeddem ni wedi bwriadu ei wneud o dan yr amcan llesiant hwn. Cyflawnwyd y targed ailgylchu statudol. Parhaodd y gwaith adfywio ar draws y fwrdeistref sirol, gan gynnwys Canol Tref Castell-nedd, adnewyddu Sinema'r Plaza, a rhoddwyd caniatâd cynllunio amodol ym mis Gorffennaf 2021 ar gyfer Canolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer y Rheilffyrdd (GRCE) ym mhen uchaf Cwm Dulais a De Powys. Fe wnaethom ni welliannau i'n parciau a'n mannau gwyrdd, cynyddu llwybrau beicio hygyrch 6.6km (yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf) a gwella cyflwr ein ffyrdd.

## Perfformiad – Sut rydym ni'n cymharu

Mae dyletswydd ar y Cyngor o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (a fydd yn dod i ben ar 31 Hydref 2021) i gymharu ein perfformiad â'n perfformiad mewn blynyddoedd ariannol blaenorol a hefyd â pherfformiad cynghorau eraill yng Nghymru. Er mwyn asesu ein perfformiad o ran cyflawni ein hamcanion llesiant, rydym ni'n defnyddio 55 o ddangosyddion

perfformiad (Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) y Cynllun Corfforaethol). Defnyddiwyd yr un gyfres o ddangosyddion i asesu perfformiad ag yn ystod 2019/20.

Mae'r crynodeb isod yn dangos gwelliant o ran cyflawni targedau a bennwyd, ond gostyngiad yn ein perfformiad wrth gymharu 2020/21 â 2019/20.

*Dylid bod yn wyliadwrus wrth wneud cymhariaeth o'r fath, gan fod llai o ddangosyddion perfformiad sydd â data cymaradwy, ac mae pandemig COVID-19 wedi effeithio ar berfformiad rhai mesurau.

- I grynhoi, yn ystod 2020/21, o'r dangosyddion perfformiad oedd â thargedau cymaradwy, cyrhaeddodd 61% (23 o 38) y targed, roedd 18% (7 o 38) o fewn 5% o gyrraedd y targed, ac roedd 21% (8 o 38) 5% neu fwy o dan y targed.

  Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â 2019/20 lle cyrhaeddodd ychydig dros hanner (54%), 26 o 48, y targed, roedd 21% (10 o 48) o fewn 5% i'r targed ac roedd 25% (12 o 48) 5% neu fwy o dan y targed a bennwyd.

- Yn 2020/21, cafodd perfformiad ei wella neu ei gynnal yn achos 57% (24 o 42), bu dirywiad bychan, o fewn 5%, yn achos 24% (10 o 42), a bu dirywiad o 5% neu fwy yn achos 19% (8 o 42).

  Mae hyn yn cymharu'n llai ffafriol â 2019/20 lle cafodd perfformiad ei wella neu ei gynnal yn achos 63% (32 o 51), bu dirywiad bychan yn achos 14% (7 o 51), a bu dirywiad o 5% neu fwy yn achos 23% (12 o 51).

- Ymhlith yr enghreifftiau o berfformiad da yn 2020/21 mae cynnydd yn ein cyfradd ailgylchu, gwelliant yng nghyflwr ffyrdd A, B ac C, atal mwy o bobl rhag bod yn ddigartref, gostyngiad mewn cyfraddau salwch ar draws y cyngor, a'r ffaith bod bron pob ysgol bellach wedi mabwysiadu'r Rhaglenni Cydberthynas Iach. Ar ben hynny, rydym wedi

cyflawni'n ffigur N.E.E.T. (heb fod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant) isaf erioed, wedi cynyddu nifer y lleoedd gofal plant, a chafodd 470 o swyddi eu creu/diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod.

- Fodd bynnag, mae'r pandemig wedi cael effaith negyddol ar ein perfformiad mewn rhai meysydd – gan gynnwys presenoldeb yn yr ysgol, faint o gysylltiad a gafodd y Gwasanaeth Ieuenctid gyda phlant a phobl ifanc, yr amser a gymerwyd ar gyfartaledd i gwblhau Grant Cyfleusterau i'r Anabl, ac ymweliadau â theatrau, canolfannau hamdden a llyfrgelloedd.

Mae asesiad mwy manwl o'n cynnydd tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant i'w ganfod yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ac yn yr Adroddiad ar Ddangosyddion Perfformiad Allweddol 2020/21.

**Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs)** – Yn flaenorol, rydym wedi cymharu ein perfformiad ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, yn erbyn y gyfres genedlaethol o Fesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAMs).

Fodd bynnag, oherwydd pandemig COVID-19 ni chafodd set ddata PAM 2019/20 ei chasglu a'i chyhoeddi gan Data Cymru. Yn ddiweddar, mae Data Cymru wedi rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn i awdurdodau lleol fedru rhannu eu perfformiad PAM yn ystod 2019/20 a 2020/21 ac rydym ni wedi cytuno i ymuno yn y broses hon. Fodd bynnag, ni fydd pob awdurdod yn darparu data, ni fydd data ar gyfer pob PAM oherwydd y pandemig, ac ni fydd Data Cymru yn cyhoeddi'r data. Defnyddir y data at ddibenion meincnodi yn unig. Er mwyn sicrhau darlun cyflawn, mae ein perfformiad ninnau ar gyfer y PAM hynny sydd â data ar gyfer 2020/21 yn cael ei gynnwys yn ein Hadroddiad ar y Dangosyddion Perfformiad Allweddol.

## 3. COVID-19 – Ein hymateb (o ganol mis Mawrth 2020 tan ddiwedd Mawrth 2021)

Ganol mis Mawrth 2020, aeth y Cyngor ati i weithredu ymateb brys i'r sefyllfa argyfyngus oedd yn datblygu'n genedlaethol yng nghyswllt COVID-19. Gwnaed ymdrech aruthrol i sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn unol â'r penderfyniadau polisi a wnaed gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Ein dull gweithredu ar hyd yr adeg oedd gweithio gyda pholisi'r llywodraeth a'i gefnogi, ac mae hynny'n parhau, gan ymdrechu i ddiogelu a chefnogi ein cymunedau.

Roedd y camau allweddol a gymerwyd yn ystod cyfnod ymateb yr argyfwng yn cynnwys:


- Gwasanaeth cyfathrebu estynedig 7 diwrnod/wythnos er mwyn sicrhau bod negeseuon iechyd cyhoeddus yn cael eu hyrwyddo'n barhaus ar draws yr holl sianeli oedd yn eiddo i'r Cyngor neu'n cael eu comisiynu ganddo; a bod gwybodaeth gywir a phrydlon yn cael ei darparu am newidiadau i gyflwyno gwasanaethau, gan gynnwys sefydlu gwasanaethau newydd i gefnogi pobl mewn sefyllfa fregus;
- Cau rhai o wasanaethau'r cyngor er mwyn helpu i atal yr haint rhag ymledu, yn ogystal â sicrhau bod ein gwasanaethau rheoliadol yn canolbwyntio ar sicrhau bod busnesau lleol, sefydliadau eraill a phobl leol yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau newydd;
- Newid rhai gwasanaethau fel bod gwasanaethau critigol yn gallu gweithredu'n ddiogel yn ystod y cyfnod. Er enghraifft, cefnogi dilyniant dysgu trwy ddefnyddio technolegau mynediad o bell i greu cysylltiad rhwng dysgwyr a'u hathrawon; arloesi ar draws gwasanaethau diogelu i gyflawni ein cyfrifoldebau diogelu statudol trwy ddefnyddio platfformau digidol, a hefyd ddefnyddio dulliau creadigol o gyflawni gwaith allgymorth; cefnogi darparwyr gofal i leiafu'r risgiau cysylltiedig â darparu gofal personol ar draws lleoliadau cymunedol a phreswyl; rhoi blaenoriaeth o'r newydd i wasanaethau strydlun a'u haddasu er mwyn sicrhau bod gwasanaethau sbwriel ac ailgylchu hanfodol yn dal yn weithredol; ac adlunio gwasanaethau mewn amlosgfeydd a mynwentydd, yn unol â chyngor y llywodraeth;
- Hefyd sefydlwyd ymatebion gwasanaeth newydd i gyflawni dyletswyddau a roddwyd i ni gan y llywodraeth. Cyflwynwyd darpariaeth gofal plant trwy rwydwaith o hybiau mewn ysgolion, gan sicrhau bod y dysgwyr mwyaf agored i niwed a phlant y rhai oedd yn gweithio mewn rolau hanfodol wedi cael cefnogaeth dda yn ystod y cyfnod; sefydlwyd gwasanaethau newydd ar-lein i gefnogi gweinyddu cymorth ariannol i fusnesau a grwpiau cymunedol; bu'r Cyngor yn gweithredu fel rheolwr prosiect wrth adeiladu Ysbyty Maes Llandarcy, a chwblhawyd y gwaith

adeiladu o fewn pedair wythnos. Cafodd plant oedd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim hefyd eu cefnogi ar hyd y cyfnod, ar y cychwyn trwy'r cynllun "pecyn casglu" ac yna'n ddiweddarach trwy daliadau i gyfrif banc rhieni cymwys;


- Sefydlwyd Gwasanaeth newydd Iach a Diogel Castell-nedd Port Talbot (CNPT) i gefnogi pobl y dywedwyd wrthynt am warchod eu hunain rhag y feirws (a phobl eraill fregus) â thasgau bywyd beunyddiol. Mae dros 2,600 o drigolion wedi defnyddio'r gwasanaeth ac mae 678 o bobl wedi cofrestru i wirfoddoli. Bu'r Cyngor yn annog ac yn cefnogi'r gweithredu cymunedol gwych a welwyd ar draws y fwrdeistref sirol, gan helpu i roi busnesau lleol mewn cysylltiad â busnesau eraill a chymunedau lleol, a gweithio gyda chyrff trydydd sector lleol a chymdeithasau tai, gan barchu'r hyn y gallai pob asiantaeth a chymuned ei gyfrannu ar yr adeg ryfedd hon;
- Yn haf 2020, trwy gydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Chyngor Abertawe, sefydlwyd Profi, Olrhain, Diogelu. Mae'r gwasanaeth hwn bellach yn rhan annatod o'n system diogelu iechyd, gan helpu i nodi sut mae'r haint yn ymddwyn yn ein cymuned a rhoi mesurau ar waith i gyfyngu ar gyfraddau heintio a'u gostwng;
- Wrth i frechlynnau gael eu trwyddedu, buom ni'n gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i hwyluso brechu ein trigolion lleol. Newidiwyd defnydd Orendy Margam i greu Canolfan Brechu Torfol, a newidiwyd defnydd llyfrgell symudol i greu Imbiwlans, oedd yn mynd â'r brechlyn at grwpiau bregus iawn a phobl oedd yn byw mewn cymunedau mwy pellennig.

Mae'r ffeithlun dros y dudalen yn rhoi crynodeb gweledol o rai o'r gwasanaethau/rywfaint o'r gwaith a gyflwynwyd gan y Cyngor yn ystod y pandemig. Yn dilyn y ffeithlun ceir astudiaeth achos ar y Gwasanaeth Iach a Diogel, a sefydlwyd i gefnogi pobl y dywedwyd wrthyn nhw am warchod eu hunain rhag y feirws (a phobl fregus eraill) â thasgau bywyd beunyddiol.

# Ymateb y Cyngor yn ystod y pandemig



# Ymateb y Cyngor yn ystod y pandemig



***Astudiaeth Achos: Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT***

***Cefndir:*** *Lansiwyd Iach a Diogel CNPT ym mis Mawrth 2020 mewn ymateb i bandemig COVID-19, gyda'r nod o gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed, y rhai hynny a gynghorwyd i warchod eu hunain a'r rhai y gofynnwyd iddyn nhw hunanynysu, trwy ddarparu bwyd, meddyginiaeth a help gyda thasgau bywyd beunyddiol fel siopa.*
*Yn anterth y pandemig, roedd gwasanaeth Iach a Diogel CNPT yn dosbarthu 450+ o flychau bwyd a 400+ o bresgripsiynau meddygol bob wythnos i drigolion bregus oedd yn cysgodi neu'n hunanynysu. Cefnogodd y gwasanaeth gyfanswm o fwy na 2,600 o bobl ar draws y fwrdeistref sirol a gwneud mwy na 6,000 o alwadau lles i wirio oedd angen help ar bobl. Bu'r gwasanaeth yn cydweithio'n agos â nifer o gyrff cymunedol i gyflwyno'r gwasanaeth, a chofrestrodd 698 o wirfoddolwyr i roi o'u hamser i gefnogi trigolion bregus Castell-nedd Port Talbot.*

***Sut mae'r gwaith hwn yn bodloni 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:***

- ***Hirdymor –*** *sefydlwyd Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT fel ymateb brys i'r pandemig, i atal niwed hirdymor i'n dinasyddion mwyaf bregus, ac i ddiogelu llesiant ein cymunedau. O ganlyniad, mae Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT yn cyfrannu at weledigaeth hirdymor amcanion llesiant y cynllun corfforaethol. Esblygodd Iach a Diogel ar hyd y pandemig, gan ddod yn fwy o rwyd ddiogelwch; yn darparu cefnogaeth mewn sefyllfaoedd lle na allai'r gymuned ei hun ymateb. Trwy Iach a Diogel rydyn ni wedi creu darlun helaeth o'r angen yn ein cymunedau a'r adnoddau sydd ar gael. Mae gwaddol y gwasanaeth hwnnw bellach yn fwy hirdymor o ran sut gallwn ni fel cyngor weithio gyda chymunedau a datblygu cyfleoedd i wirfoddoli.*
- ***Integreiddio –*** *sefydlwyd Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT ar fyr rybudd i gyflwyno ymateb dyngarol, a chyflawnwyd hynny trwy ymdrech ar draws adrannau a sefydliadau. Bu staff o bob rhan o'r Cyngor yn gwirfoddoli neu'n cael eu hailgyfeirio i gyflwyno'r ymateb dyngarol. Roedd gan Iach a Diogel lywodraeth ac atebolrwydd clir. Er bod y gwasanaeth hwn wedi'i sefydlu ar fyr rbudd, mae yn cysylltu â dwy o'n blaenoriaethau gwelliant yn y cynllun corfforaethol, sef 1.7 Bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel a 2.3 Bod pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel.*
- ***Cynnwys –*** *sefydlwyd gwasanaeth Iach a Diogel CNPT gan y Cyngor ar fyr rybudd, i ymateb i anghenion pobl y gofynnwyd iddyn nhw warchod eu hunain oherwydd eu bod yn eithriadol o fregus yn feddygol, fodd bynnag, estynnwyd y gwasanaeth i gynnwys trigolion eraill agored i niwed, a chafodd ei ddiweddaru'n barhaus. Roedd yr ymateb dyngarol hwn yn cynnwys sefydliadau eraill oedd hefyd yn rhoi cymorth, e.e. landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (sydd hefyd yn cael eu galw'n gymdeithasau tai). Sefydlwyd partneriaeth iach a diogel i sicrhau bod yr ymateb mor gydlynus â phosibl ar lefel y fwrdeistref, a bod arweinwyr cymunedol yn cael eu penodi ar lefel y ward i gynnwys a gweithio gyda phobl ar lefel leol er mwyn diwallu anghenion pobl ar y rhestr personau oedd i'w gwarchod neu bobl oedd yn fregus am resymau eraill*
- ***Cydweithio –*** *— cyflwynwyd Gwasanaeth Iach a Diogel CNPT mewn cydweithrediad ag ystod o sefydliadau ac unigolion ar draws y fwrdeistref, gan gynnwys CVS, landlordiaid cymdeithasol cofrestredig, Age Connect Castell-nedd a Phort Talbot, busnesau lleol, grwpiau/sefydliadau cymunedol, aelodau etholedig a hyrwyddwyr stryd, yn ogystal ag ar draws cyfarwyddiaethau o fewn y cyngor. Bu gwirfoddolwyr yn chwarae rhan gwbl hanfodol wrth sicrhau ein bod yn diogelu*

*ein trigolion mwyaf bregus. Fel y soniwyd uchod, sefydlwyd y Bartneriaeth Iach a Diogel i hyrwyddo'r dull cydweithredol hwn, ac i gydnabod rôl y sefydliadau dan sylw a sut gallen ni gydweithio'n well i ddiwallu'r anghenion yn ein cymunedau.*

- ***Ataliaeth –*** *sefydlwyd y gwasanaethau dyngarol i ddiogelu'r unigolion hynny oedd yn wynebu'r risg uchaf o niwed yn sgîl y Coronafeirws, a hefyd i leihau trosglwyddiad yn y cymunedau.*

***Canlyniad defnyddiwr gwasanaeth:***
*Ysgrifennodd un preswylydd oedd wedi derbyn cymorth gan y gwasanaeth 'gerdyn diolch' at y Cyngor, ac roedd y neges adborth yn dweud: "Hoffwn i fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i bob un ohonoch chi sydd wedi'n cadw ni i fynd yn ystod y pandemig yma. I'r rhai fu'n trefnu'r bwyd, i'r rhai fu'n ei roi mewn blychau i'w ddosbarthu, i'r rhai a gyfrannodd y cynnyrch, i'r gyrwyr dosbarthu, i bawb a roddodd o'u hamser i helpu mewn unrhyw ffordd gallen nhw, mae pawb ohonoch chi wedi bod yn help aruthrol. Wn i ddim beth bydden ni wedi'i wneud heb eich caredigrwydd chi. Felly unwaith yn rhagor, diolch o waelod calon."*

*Ymhlith y sylwadau eraill cadarnhaol a gafwyd gan aelodau o'r cyhoedd mae:*

- *"Da iawn a diolch yn fawr am eich gwasanaeth o'r radd flaenaf."*
- *"Mae'n wych bod y bobl sy'n gweithio i'r cyngor yn barod i fynd i'r fath drafferth i helpu'r cymunedau mae CBSCNPT yn eu gwasanaethu."*
- *"Hoffwn i ddweud diolch ar ran fy Anti... dyw hi ddim ar y rhyngrwyd. Fe gadwodd y blychau hi i fynd."*

Mae’r tair adran nesaf yn cyflwyno asesiad mwy manwl o’n llwyddiant i gyflawni ein tri amcan llesiant, trwy ddarparu asesiad o’r cynnydd a wnaed yn erbyn pob un o’r camau (y camau gweithredu manwl) a geir o dan bob amcan llesiant.

Mae statws CAG pob cam wedi’i seilio ar yr allwedd ganlynol:

- **Gwyrdd**: ar y cyfan cyflawnwyd yr hyn a gynlluniwyd yn ystod 2020/21
- **Ambr**: Heb gyrraedd y nod o ryw fymryn, rydym heb gyflawni rhywfaint o’r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2020/21 neu effeithiodd y pandemig ar rywfaint o’r gwaith neu achosi oedi iddo
- **Coch**: Heb gyrraedd y nod o ran cyflawni’r hyn a gynlluniwyd yn ystod 2020/21 neu effeithiodd y pandemig ar rywfaint o’r gwaith neu’r cyfan ohono, neu achosi oedi iddo

Ar ddechrau pob adran, ceir gwybodaeth ynghylch sut mae pob un o’r amcanion llesiant yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol.

Ar ddiwedd pob adran ceir gwybodaeth am y dangosyddion perfformiad a nodwyd i fesur cynnydd o ran cyflawni’r amcan llesiant.

Mae statws CAG pob KPI wedi’i seilio ar yr allwedd sy’n dilyn:

- **Gwyrdd**: cyflawnwyd targed 2020/21 /cynnal neu wella perfformiad 2019/20
- **Ambr:** o fewn 5% i gyrraedd y targed / o fewn 5% i berfformiad y flwyddyn flaenorol
- **Coch**: 5% neu fwy o dan y targed / 5% neu fwy o dan berfformiad y flwyddyn flaenorol
- **Amh** – dim data cymaradwy neu dim targed wedi’i bennu

## 4. Amcan Llesiant 1 – Cynnydd yn 2020/21



**Amcan Llesiant 1:** Gwella llesiant plant a phobl ifanc:

*"Bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd, er mwyn iddyn nhw fod y gorau gallan nhw fod"*

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Nod y gyfres o flaenoriaethau a chamau, ar y cyd, yw sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn mynd i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ar ddiwedd addysg amser llawn, yn barod i wneud cyfraniad cymdeithasol ac economaidd. |
| **Cymru iachach** | Mae pob ysgol yn CNPT yn "Ysgol Iach" ac mae gan y fwrdeistref sirol hefyd gyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgaredd corfforol. Ffocws yn y Cynllun hwn yw rhoi mwy o bwyslais ar lesiant emosiynol er mwyn rhoi i blant a phobl ifanc y sgiliau, yr ymddygiad a'r gefnogaeth mae arnyn nhw eu hangen. Ar ben hynny, bydd rhaglenni rhianta yn targedu'r teuluoedd hynny sydd â'r angen mwyaf am gefnogaeth. Mae gan y Cyngor ddata da ar gyfer canfod ble mae gwahaniaethau cyrhaeddiad a chanlyniadau yn achos plant a phobl ifanc o wahanol gefndiroedd, ac mae rhaglenni yn eu lle i roi sylw i anghydraddoldeb ac annhegwch. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae pwyslais cryf ar sicrhau cydraddoldeb a dathlu amrywiaeth ar draws ystod o weithgareddau. Hefyd mae cydnabyddiaeth a gwaith i ymdrin ag anghydraddoldeb yn ei holl ffurfiau, p'un a yw mewn perthynas â dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â phobl â nodweddion gwarchodedig, yn anghydraddoldeb oherwydd gwahaniaethau incwm, neu'n digwydd yn ôl a yw plant a phobl ifanc yn derbyn gofal gan eu teuluoedd eu hunain neu'r cyngor. |

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| | Mae rhaglenni i addysgu plant a phobl ifanc am ddiogelwch personol a chymunedol wedi ennill eu plwyf ers meitin, ond mae'r Cynllun hwn yn cydnabod bod angen adolygu ein rhaglenni'n barhaus i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol. Er enghraifft, mae paratoi plant a phobl ifanc i gadw'n ddiogel ar-lein wedi dod yn faes ffocws allweddol oherwydd bod Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, radicaleiddio ac ymddygiad troseddol arall yn digwydd ar-lein. |
| **Cymru gydnerth** | Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno i bwysigrwydd yr ecosystemau a'n hamgylchedd trwy weithgareddau â ffocws teuluol yn yr amgylchedd naturiol. Dylai manteision cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn gynyddu llesiant a meithrin mwy o werthfawrogiad o rôl yr amgylchedd naturiol yn eu bywydau. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae lleihau anghydraddoldeb ac annhegwch yn thema gref ar draws y blaenoriaethau a ddatblygwyd i gefnogi cyflawni'r amcan hwn. Mae ffocws arbennig ar y plant sy'n wynebu'r risg uchaf o ddioddef profiad niweidiol yn ystod eu plentyndod, gyda'r bwriad o gryfhau gwaith ataliaeth ac ymyrraeth gynnar. Mae ymrwymiad hefyd i adeiladu ar ein gwaith hawliau plant er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael lleisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Mae gan y fwrdeistref sirol gyfraddau cyfranogiad da mewn gweithgaredd corfforol, ac mae ystod eang o gyfleoedd diwylliannol. Mae cynlluniau i gryfhau addysg Gymraeg a dwyieithog mewn lleoliadau addysg cyn-ysgol ac addysg amser llawn. Mae gan y Cyngor Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg sy'n cefnogi amcanion y Cyngor i gynyddu nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg ac sy'n gwneud hynny bob dydd. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Mae'r gwaith a gyflwynir yn yr amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y byd ehangach mewn llawer o ffyrdd. Er enghraifft, bydd y buddsoddiad technolegol trwy ein rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn trawsffurfio sut mae plant a phobl ifanc yn cael mynediad at ddysgu, gan ddod â phrofiadau o bob rhan o'r byd i ystafelloedd dosbarth CNPT, ochr yn ochr â meithrin sgiliau addas ar gyfer marchnadoedd llafur y dyfodol. |

***Astudiaeth Achos:*** *SHEP (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol)*

***Cefndir:*** *Cynllun mewn ysgolion yw SHEP (Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau'r Ysgol) sy'n cael ei drefnu gan Wasanaeth Ieuenctid a Gwasanaeth Arlwyo Cyngor Castell-nedd Port Talbot, ac mae'n darparu prydau iach, addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol a sesiynau cyfoethogi i blant mewn ardaloedd difreintiedig yn ystod gwyliau'r haf.*
*Yn ystod gwyliau haf 2020, bu mwy na 60 o blant yn mynychu SHEP yn Ysgol Gynradd y Cymer, Ysgol Bae Baglan ac Ysgol Gymunedol Llangatwg. Bob dydd, trefnwyd y plant yn grwpiau bach, a chynigiwyd amrywiaeth o weithgareddau, gyda Sgiliau'n darparu ystod o weithgareddau chwaraeon, Gwasanaeth Cerdd y Cyngor yn darparu sesiynau oedd yn cynnwys dawnsio, canu, ysgrifennu a threfnu "gigiau bach", yn ogystal â gweithgareddau eraill gan bartneriaid.*

***Sut mae'r gwaith hwn yn bodloni 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:***

- ***Hirdymor –*** *mae'r prosiect yn cyfrannu at weledigaeth hirdymor* ***amcan llesiant 1*** *y cynllun corfforaethol* ***– gwella llesiant plant a phobl ifanc****. Datblygwyd y prosiect i sicrhau bod pobl ifanc yn cael eu cefnogi'n emosiynol ac yn gymdeithasol yn ystod cyfnod y prosiect, a'i fod yn cyfrannu at ddatblygiad hirdymor y plant o ran datblygiad cymdeithasol a chorfforol. Mae'r prosiect wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer, ac mae'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru.*
- ***Integreiddio –*** *mae'r prosiect yn cysylltu ag* ***amcan llesiant 1*** *y cynllun corfforaethol* ***– gwella llesiant plant a phobl ifanc****, a chynlluniau cyflawni eraill lleol o fewn y sefydliad. Mae gweithgareddau haf eraill a ddatblygir dros gyfnod yr haf yn cymryd rhaglen SHEP i ystyriaeth, er mwyn osgoi dyblygu a darparu ystod eang o weithgareddau i blant a phobl ifanc yn y gymuned.*
- ***Cynnwys –*** *mae ysgolion, uwch-reolwyr, timau gweithgarwch corfforol, timau chwarae a rhianta, y gwasanaeth ieuenctid, y gwasanaeth arlwyo, i gyd yn gweithio mewn diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu. Cynhaliwyd cyfarfodydd er mwyn deall anghenion y prosiect a sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle. Mae Llywodraeth Cymru'n derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd a chanlyniadau.*
- ***Cydweithio –*** *Dull partneriaeth yw model SHEP, ac mae'n cynnwys ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol, ac awdurdodau lleol, gan gynnwys swyddogion Iechyd a Diogelwch a staff chwaraeon cymunedol, ac mae wedi'i seilio ar yr ethos ganlynol – 'Cydweithio i hybu byw'n iach, llesiant cadarnhaol a gwella ymgysylltiad ag addysg a'r ysgol yn ystod gwyliau'r haf' – Llywodraeth Cymru*
- ***Ataliaeth –*** *Mae'r prosiect yn cefnogi sgiliau cymdeithasol a sgiliau motor mân a mawr ar gyfer y plant a'r bobl ifanc. Mae'r prosiect yn cefnogi'r plant yn eu crynswth ac felly'n helpu i atal problemau iechyd meddwl yn y dyfodol. Mae'r prosiect hefyd yn helpu rhieni sy'n gweithio i fedru parhau yn y gweithle dros gyfnod yr haf, yn ogystal â hyrwyddo gwaith partneriaeth sy'n helpu mentrau eraill yn y dyfodol.*

***Canlyniad defnyddiwr gwasanaeth:*** *Rhaglen gwyliau ysgol yn cael ei hystyried yn llwyddiant: Dyma sylw gan riant y bu eu plentyn yn mynychu'r rhaglen:*
*"Hoffwn i ddweud diolch wrth y tîm yr wythnos hon am fwrw ati a darparu'r rhaglen hon yn ystod gwyliau'r ysgol mewn cyfnod na welwyd mo'i debyg.*
*"Mae fy nau blentyn wedi mwynhau'r holl weithgareddau a ddarparwyd yn fawr, ac rwy'n bendant yn meddwl bod hyn wedi helpu eu symbyliad a'u hyder wrth gael eu cyflwyno i addysg gyfun."*

**Amcan Llesiant 1 – Cynnydd yn ystod 2020/21:**

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cam</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td rowspan="2">1.1 Bydd plant yn eu blynyddoedd cynnar yn elwa o raglenni cyn-ysgol integredig ac effeithiol sy’n mwyafu eu llesiant a’u parodrwydd i ddysgu.</td><td>1.1.1</td><td>Cam – Byddwn ni’n gweithredu’r camau a nodwyd o’n cynllun gweithredu Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, gan gynnwys gweithredu rhaglenni Llywodraeth Cymru a defnyddio cyllid perthnasol i gynyddu argaeledd ac ansawdd gofal plant</td><td>Ambr</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynnydd y cam:<br>• Ar ddechrau’r pandemig, sefydlwyd 8 hwb ar draws yr awdurdod lleol, yn darparu gofal ar gyfer hyd at 250 o blant yn feunyddiol.<br>• Ataliwyd Cynnig Gofal Plant Cymru ym mis Ebrill 2020, a chyflwynwyd y Cynllun Cymorth Gofal Plant Coronafeirws (CCAS) dros dro ar gyfer plant bregus a phlant gweithwyr allweddol. Cymeradwywyd 824 o blant yn CNPT ar gyfer CCAS. Ailgychwynnwyd y Cynnig Gofal Plant ym mis Medi 2020, ac roedd 806 o ddefnyddwyr gweithredol erbyn diwedd mis Ebrill 2021.<br>• Darparwyd grantiau gofal plant ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, ar ffurf refeniw a chyfalaf, i gefnogi’r sector yn ystod pandemig COVID-19. Talwyd £234,925 mewn grantiau refeniw i ddarparwyr gofal plant (117 o geisiadau) a £154,323 mewn grantiau cyfalaf (34 o geisiadau).<br>• Parhaodd hyfforddiant ar-lein/rhithwir ar gyfer darparwyr gofal plant ar hyd 2020/21.<br>• Agorwyd lleoliad gofal plant newydd ym mis Ionawr 2021 ar diroedd Ysgol Gynradd Waunceirch, ac fe’i hariannwyd trwy grant cyfalaf gan Gynnig Gofal Plant Cymru. Bydd datblygiadau gofal plant pellach yn parhau yn ystod 2021/22.<br>• Roedd £75,000 o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn fodd i ni ddarparu ystod o sesiynau gofal plant yn ystod haf 2020.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Roedd £46,000 o arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn fodd i ni ddarparu sesiynau cyfoethogi yn yr haf, yn targedu disgyblion blwyddyn 5 a 6 o ardaloedd difreintiedig. Roedd y sesiynau'n cynnwys gweithgaredd corfforol, cerddoriaeth a chwarae a gweithgareddau hamdden.<br>• Darparwyd 2,413 o leoedd gofal plant diwrnod llawn ar draws y fwrdeistref. Er bod hyn yn is na'n targed cyn y pandemig, sef 2,450 ar gyfer 2020/21, mae'n gynnydd o 78 o leoedd ers 2019/20. Mae'r niferoedd cofrestredig wedi amrywio ar hyd y flwyddyn o ganlyniad i COVID-19. | | |
| | 1.1.2 | Cam – Byddwn ni'n adolygu cysylltiadau rhwng darparwyr gofal plant yn y blynyddoedd cynnar ac ysgolion i sicrhau eu bod yn cael eu datblygu i gefnogi plant wrth iddyn nhw bontio i'r ysgol | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Oherwydd COVID- 19, mae pontio wedi digwydd yn uniongyrchol rhwng lleoliadau unigol ac ysgolion. Ar hyd 2021/22 datblygir dull gweithredu clwstwr i gyd-fynd â chyfarfodydd clwstwr ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) sy'n parhau.<br>• Mae'r Swyddog Pontio Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant yn gweithio ar hyn o bryd gyda'r Swyddog Pontio ADY i ddatblygu protocol ar gyfer CNPT. Pan gaiff y Côd ADY ei gyhoeddi ac mae'r protocol yn gyfan, estynnir hyfforddiant i bob lleoliad, a rhoddir cyfarfodydd clwstwr ar waith. | | |
| | 1.1.3 | Cam – Byddwn ni'n cyflwyno rhaglen genedlaethol ac ymyrraeth wedi'i thargedu trwy raglen Bookstart er mwyn cyflwyno llythrennedd a rhifedd i blant ifanc a babanod | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:** | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Oherwydd cyfyngiadau COVID-19 ni fu modd cynnal unrhyw weithgareddau i blant mewn llyfrgelloedd yn ystod 2020/21. O ganlyniad, symudodd y rhaglen lawn ar-lein ac fe'i cyflwynwyd trwy grŵp Facebook penodol a thrwy sianeli WhatsApp. Rhwng y ddau blatfform yma cyflwynwyd cyfres o sesiynau caneuon a rhigymau byw ac wedi'u recordio, a darparu cyngor a chyfarwyddyd ynghylch pecynnau Bookstart, oedd hefyd yn cael eu dosbarthu trwy lyfrgelloedd. Ym mis Awst llwyddon ni i gyflwyno rhai sesiynau awyr agored i oedolion a phlant yng Ngerddi Victoria, Castell-nedd. | | |
| | 1.1.4 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod ni'n targedu cefnogaeth at y plant hynny sydd mewn perygl o ddioddef profiadau niweidiol yn eu plentyndod, yn ystod 1,000 diwrnod cyntaf eu bywydau | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Daliodd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) ati i ddarparu gwybodaeth am wasanaethau i blant a theuluoedd. Yn ystod 2020/21, derbyniodd GGD 1,543 o ymholiadau, gostyngiad o 41% ar 2019/20.<br>• Dechreuodd rhaglen Fraenaru Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar gyflwyno modelau peilot i wella cydlyniad gwasanaethau yn y system blynyddoedd cynnar. Defnyddiwyd £214,000 ar draws rhanbarth CNPT ac Abertawe i gyflwyno prosiectau, gan gynnwys gwella cydlyniad gwasanaethau mewn ardaloedd nad oeddent yn rhai Dechrau'n Deg, prynu adnoddau Wellcomm i gefnogi datblygiad iaith a lleferydd, a datblygu'r gweithlu i gefnogi llythrennedd corfforol yn y blynyddoedd cynnar. Oherwydd oedi wrth ddyfarnu cyllid gan Lywodraeth Cymru (LlC), ni chychwynnodd y rhain tan fis Hydref 2020.<br>• Cyflwynwyd Cronfa newydd Datblygiad Plentyn gan LlC ym mis Hydref i gefnogi plant blynyddoedd cynnar yr oedd COVID-19 wedi cael effaith niweidiol ar eu datblygiad. Dyfarnwyd £158,000, a oedd yn ariannu prosiectau gan gynnwys cymorth iaith a lleferydd i rieni, cyngor ar faeth yn y blynyddoedd cynnar i ymwelwyr iechyd, cyfleoedd | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | chwarae yn yr awyr agored, a chyfarpar ac adnoddau i blant ag ADY. Ymrwymwyd arian ychwanegol hyd at ddiwedd mis Medi 2021. | | |
| 1.2 Bydd teuluoedd sy'n cael trafferth i ddarparu rhianta da ar gyfer eu plant yn cael cefnogaeth wedi'i theilwra | 1.2.1 | Cam – Targedu cefnogaeth ar ffurf ymyrraeth gynnar ac ataliaeth at y teuluoedd sydd angen hynny, gan sicrhau gwell alinio lleol a dull cydlynus o ddarparu cefnogaeth er mwyn ymdrin â phrofiadau niweidiol plentyn | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Ar hyd y cyfnod clo darparwyd taliadau wythnosol o £19.50 i bob plentyn FSM (prydau ysgol am ddim) y mae eu teulu wedi cofrestru ar gyfer y taliadau. Daliwyd ati i wneud taliadau yn ystod gwyliau'r ysgol a hawliodd 5,213 o ddisgyblion brydau ysgol am ddim a £3.9 miliwn mewn taliadau ers y cyfnod clo 1af (hyd at 31 Mawrth 2021)<br>• Derbyniwyd 761 o atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf, gyda 1,793 o unigolion yn cyrchu cefnogaeth. Parhaodd pob elfen o'r rhaglen ar hyd y flwyddyn, gyda darparwyr yn addasu eu cefnogaeth i fod dros y ffôn neu blatfformau o bell. Gwelodd y rhaglen lefel uwch o deuluoedd ddim yn ymgysylltu neu'n 'optio allan' nag mewn blynyddoedd blynyddol, ac rydyn ni'n gweld hynny fel canlyniad y newid i gyflwyno o bell. Mae llawer o deuluoedd wedi nodi y byddan nhw'n aros i waith wyneb yn wyneb ailgychwyn.<br>• Bu'r panel Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth yn parhau i gyfarfod yn ystod 2020/21, gan symud i Teams ar gyfer cyfarfodydd wythnosol. Derbyniwyd 1,363 o atgyfeiriadau a'u trafod gan y panel ar hyd y flwyddyn.<br>• Mae rhaglen Dechrau'n Deg wedi parhau, gan gyflwyno'r rhan fwyaf o elfennau'r rhaglen o bell – Teams, Zoom, What's App, a defnydd cynyddol o gyfryngau cymdeithasol. Roedd rhyw 1,700 o blant o dan 4 oed yn ymwneud ag o leiaf un elfen o'r rhaglen.<br>• Llwyddodd timau rhianta Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf i gyflwyno nifer o gyrsiau rhianta ar-lein, ac roedd rhai rhieni'n dweud y bydden nhw'n ffafrio hynny fel opsiwn i'r dyfodol. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Daliodd Gweithwyr Ieuenctid Teuluoedd yn Gyntaf ati i gefnogi pobl ifanc (gan gynnwys pobl ifanc fregus a gyfeiriwyd at y gwasanaeth) ar hyd y pandemig trwy ystod o ddulliau oedd yn cynnwys sesiynau rhithwir, cwrdd â phobl ifanc yn eu gerddi, sesiynau cerdded a sgwrsio. Roedd y gwaith grŵp yn gyfyngedig iawn oherwydd y pandemig. Cyrchodd 479 o bobl ifanc y gwasanaeth hwn yn ystod 2020/21. | | |
| 1.3 Bydd plant oed ysgol yn fwy diogel, yn iachach ac wedi ymgysylltu â'u dysgu | 1.3.1 | Cam – Byddwn ni'n sicrhau bod cymunedau'n cael eu grymuso i gryfhau eu capasiti eu hunain i wella iechyd a llesiant, a bod pob plentyn a pherson ifanc yn gallu cyfranogi'n llawn mewn ystod o weithgareddau sy'n hybu eu llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol | Coch |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Daliwyd ati i gefnogi 12 Clwb Ieuenctid cymunedol, sy'n darparu mynediad i bobl ifanc 11-18 oed i ystod o weithgareddau addysgiadol, cymdeithasol ac adloniadol. Ar hyd y pandemig, bu'r clybiau ieuenctid cymunedol ar gau. Daliwyd ati i gefnogi'r bobl ifanc trwy agor clybiau ieuenctid rhithwir ar Microsoft Teams. Roedd nifer y bobl ifanc oedd yn ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid yn rhithwir yn isel. Cyrchodd 137 o bobl ifanc ein clybiau ieuenctid rhithwir. Agorwyd Clwb Ieuenctid y Cymer yn beilot ar gyfer ein clybiau ieuenctid, a bu'n llwyddiannus gyda'r bobl ifanc, felly mae cynlluniau ar waith nawr i agor y clybiau ieuenctid yn ystod gwyliau haf 2021. | | |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cam</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td rowspan="3"></td><td colspan="3">

- Mae saith person ifanc o Gastell-nedd Neath Port Talbot wedi cael eu cydnabod am eu gwaith gwirfoddol yn y gymuned yn ystod pandemig COVID-19. Derbyniodd pob un ohonynt ‘Wobr am Gyfraniad Neilltuol’ gan Wasanaeth Ieuenctid Cyngor Castell-nedd Port Talbot, fel rhan o ddiwrnod Rhyngwladol y Plant, 2020.
- Cynhaliwyd rhaglen gwyliau ysgol ar gyfer mwy na 60 o blant.
- Mae gwefan newydd wedi cael ei lansio ar gyfer pobl ifanc sy’n byw yng Nghastell-nedd Port Talbot. www.nptyoungpeople.co.uk
- Roedd 46K o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn fodd i ni ddarparu sesiynau cyfoethogi yn ystod yr haf, yn targedu disgyblion ym mlynyddoedd 5 a 6 o ardaloedd difreintiedig. Roedd y sesiynau’n cynnwys gweithgaredd corfforol, cerddoriaeth, chwarae a chyfleoedd hamdden.
- Defnyddiwyd arian Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru gyfan (139,939 o gyfalaf, £22,951 o refeniw) i wella cyfleoedd ar gyfer chwarae plant. Ariannwyd ugain o brosiectau, gan gynnwys gwelliannau i safleoedd cyfarpar sefydlog a mannau awyr agored, prynu pecynnau chwarae ar gyfer plant ag anableddau, a chyflwyno sesiynau chwarae.
- Canran y plant oedd yn dwlu ar chwaraeon – Nid oedd data o safon ar gael ar gyfer 2020/21 gan fod yr holl raglenni wedi bod ar gau am 9 allan o 12 mis, o ganlyniad i COVID-19.

</td></tr>
<tr><td>1.3.2</td><td>Cam – Byddwn yn parhau ag ad-drefnu ysgolion fel rhan o’n Rhaglen Strategol o wella ysgolion er mwyn darparu cyfleusterau dysgu ac addysgu sy’n addas i’r 21ain ganrif, a bodloni safonau ‘diogel trwy ddyluniad’</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="3">

**Cynnydd y Cam:**

- Aeth gwaith yn ei flaen ar y cartref newydd £27 miliwn i Ysgol Gyfun Cefn Saeson, sydd bellach wedi’i gwblhau (cyfnod un). Symudodd disgyblion i mewn i’r ysgol a adeiladwyd o’r newydd ar 7 Mehefin 2021 – datganiad i’r wasg.

</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | Mae'r prosiect hwn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad (Bandiau A a B) wrth foderneiddio ystâd ysgolion Castell-nedd Port Talbot o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif i £150m.<br>• Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar gynnig ysgolion Cwm Tawe i sefydlu ysgol newydd 3-11 cyfrwng Saesneg rhwng 3 Tachwedd 2020 a 19 Ionawr 2021, a disgwylir penderfyniad terfynol ym mis Medi 2021.<br>• Mae'r gwaith o adeiladu ysgol gynradd newydd Abbey Primary yn cyrraedd y nod, ac mae disgwyl iddi agor yng ngwanwyn 2022.<br>• Ysgol Gymraeg Ystalyfera Bro Dur – mae disgwyl iddi gael ei chwblhau yng ngwanwyn 2022.<br>• Mae disgwyl i'r holl brosiectau grant Cyfalaf cyfrwng Cymraeg gael eu cwblhau yn gynnar yn haf 2021, neu yn hydref 2021. | | |
| | 1.3.3 | Cam – Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein Cynllun Strategol ar gyfer y Gymraeg mewn Addysg (WESP), fel ein bod ni'n cynyddu'r cyfleoedd i fwy o'n plant a'n pobl ifanc gael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, ac fel bod disgyblion yn dod yn fwy rhugl yn y Gymraeg | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae gwaith wedi cychwyn ar lunio'r WESP newydd 10 mlynedd, ac mae disgwyl i'r ymgynghoriad â'r rhanddeiliaid gael ei gynnal yn ystod tymor yr hydref 2021.<br>• Yn dilyn yr amharu a achoswyd gan COVID-19, cyfarfu fforwm WESP ym mis Gorffennaf 2021 a thrafod y trefniadau newydd ar gyfer WESP yng Nghymru, gan ddechrau cynllunio ar gyfer y flwyddyn oedd yn dod.<br>• Canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen – ni chynhaliwyd asesiadau Cyfnod Sylfaen ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 oherwydd COVID-19. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Bu 11.3% o ddisgyblion yn astudio'r Gymraeg fel iaith gyntaf ym mlwyddyn 11 yn ystod blwyddyn academaidd 2012/20, ac mae hynny ychydig o dan y targed o 11.7% a rhyw fymryn yn is na ffigur y flwyddyn academaidd flaenorol, sef 11.4%. | | |
| | 1.3.4 | Cam – Byddwn ni'n peilota model Cymuned Plant yn ward Gorllewin Sandfields | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Sefydlwyd swydd Swyddog Ymgysylltu Blynyddoedd Cynnar a'i llenwi ym mis Hydref 2020, wedi'i hariannu trwy raglen Braenaru Integreiddio'r Blynyddoedd Cynnar. Nod y swydd yw ymgysylltu â theuluoedd anodd eu cyrraedd ac annog eu cyfranogiad yng ngwasanaethau'r blynyddoedd cynnar. Mae cysylltiadau'n cael eu creu ag asiantaethau partner i helpu i symud hyn ymlaen yn 2021/22.<br>• Mae grŵp cyfeirio lleol wedi cael ei sefydlu, yn cynnwys trigolion y gymuned a Chynghorydd lleol, a fydd yn sicrhau ein bod yn dal i ddeall anghenion y gymuned leol. Cynhaliwyd cyfarfodydd o bell ar hyd pandemig COVID-19.<br>• Daeth cyllid i law trwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan i wella ardal yr ardd y tu allan, a fydd yn galluogi'r plant i chwarae mewn amgylchedd hapus, diogel a chyfeillgar, lle gallan nhw ddysgu sgiliau newydd a mwynhau bod yn yr awyr agored. | | |
| | 1.3.5 | Cam – Byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n rhoi dyletswyddau statudol newydd a grewyd gan Lywodraeth Cymru ar waith yn effeithiol, er budd i blant a phobl ifanc sydd ag anghenion dysgu ychwanegol | **Gwyrdd** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Daliodd y gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ati i gyflawni ei swyddogaethau statudol. Roedd swyddogion ADY ar gael ar hyd y pandemig, yn rhoi cyngor ac arweiniad i deuluoedd ac ysgolion ac yn cadw mewn cysylltiad â phartneriaid, ac mae'r gwasanaeth wedi parhau i ddarparu dewis cynhwysfawr o hyfforddiant ar gyfer staff ysgolion a phartneriaid ehangach, ac mae'n darparu cyrsiau hyfforddi wedi'u hachredu ar gyfer staff ysgolion ac ALl.<br>• Mae'r holl Benaethiaid, Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ALNCOs), Cadeiryddion Llywodraethwyr a chyrff llywodraethu wedi derbyn hyfforddiant a gweithdai a gyflwynwyd gan swyddogion yr ALl, i'w paratoi ar gyfer eu dyletswyddau statudol, a rhaglen weithredu ar gyfer diwygio ADY. Rhoddwyd anoddau a Dogfen Gynllunio ar gyfer Gweithredu ADY i'r ysgolion, i gefnogi'r rhaglen drawsffurfio. Cafodd hyn dderbyniad da, a cheir tystiolaeth o hynny trwy werthusiadau.<br>• Defnyddiwyd y Grant Anghenion Cymhleth ADY o £355,051 i dalu am ystod o weithgareddau ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth. Roedd hyn yn cynnwys hwyluso prosiect pontio cynaliadwy rhwng Ysgol Arbennig Maes y Coed a Choleg Castell-nedd Port Talbot, i baratoi ar gyfer ein cyfrifoldebau ychwanegol 16-25 oed ar gyfer dysgwyr ag ADY. Roedd hyn yn golygu bod modd i'r disgyblion gael mynediad i gyfleusterau'r coleg ac ystod ehangach o gymwysterau, datblygu annibyniaeth a sgiliau cymdeithasol y dysgwyr, a hefyd ddarparu rhaglen fwy datblygedig o ran y cwricwlwm a sgiliau, mewn amgylchedd amgen. Roedd hyn hefyd yn datblygu ymhellach arbenigedd staff y coleg, ochr yn ochr â chynorthwyo cynllunio pontio cynnar. Roedd y grant hwn hefyd yn fodd i gynnig darpariaeth synhwyraidd o dan do ac yn yr awyr agored i ddisgyblion ar draws ein hysgolion arbennig a'n darpariaethau arbenigol cysylltiedig ag ysgolion cynradd ac uwchradd prif ffrwd, ynghyd â mewnbwn arbenigol gan Therapi Galwedigaethol, a gomisiynwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol (BILl). | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Darparwyd cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored ar draws lleoliadau arbenigol, gan gynnwys Ysgolion Coedwig ac Ysgolion Arfordir, i gefnogi llesiant meddyliol, cymdeithasol, emosiynol a chorfforol y dysgwyr, a darparu hyfforddiant wedi'i achredu i ysgolion.<br>• Defnyddiwyd cyllid hefyd i wella'r ddarpariaeth ymhellach ar gyfer disgyblion ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig (ASD) ac anghenion eraill cysylltiedig trwy ddatblygiad proffesiynol, datblygu darpariaeth TG arbenigol ymhellach ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu, a phrofiadau awyr agored a synhwyraidd deniadol i'r rhai ag ASD. Roedd y cyllid hwn hefyd yn gyfle i gyflwyno therapïau dieiriau, gan gynnwys Therapi Chwarae, Cerddoriaeth a Seicotherapi Celf. Gwnaed gwaith cychwynnol gyda 45 o ddisgyblion sydd ag anghenion cymhleth, gyda golwg ar ddatblygu'r arbenigedd hwn ar draws lleoliadau arbenigol.<br>• Mae'r Gwasanaeth Cynhwysiad wedi arwain yn rhanbarthol mewn nifer o feysydd, gan sicrhau bod y rhanbarth wedi'i baratoi'n dda ar gyfer diwygio. Mae hyn wedi cynnwys datblygu ac estyn pecyn hyfforddiant Datrysiad Cynnar ac Atal Anghydfod, a rannwyd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.<br>• Mae'r arian Dull Ysgol Gyfan o ymdrin â Llesiant Emosiynol a Meddyliol, £125,694, wedi cael ei ddefnyddio i ddatblygu gwasanaeth therapi plant yn yr ysgolion, gan ddarparu ymyrraeth therapiwtig briodol i blant o flynyddoedd ysgol 1 i 6, gyda 160 o sesiynau cwnsela ychwanegol bob mis. Mae'r sesiynau cwnsela ychwanegol ar gyfer blwyddyn 6 ymlaen wedi golygu bod gostyngiad sylweddol yn yr amserau aros ar gyfer y Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion.<br>• Mae Swyddog Cyswllt Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar wedi cynnal amrywiaeth o weithgareddau i gefnogi cydweithwyr yn ein Huned Blynyddoedd Cynnar i adolygu a diwygio llwybrau a threfniadau ariannu er mwyn sicrhau llwybrau clir ar gyfer cyrchu cefnogaeth a sicrhau modelau ariannu cynaliadwy.<br>• Cyflwynwyd pob un o'r 11 datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) oedd heb eithriadau gan y Cyngor o fewn 26 wythnos. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Ym mis Mai 2020, sefydlwyd llinell gymorth newydd ar gyfer rhieni a gofalwyr plant ag anghenion dysgu ychwanegol, i gynnig cefnogaeth a chyngor ar yr adeg ansicr hon. | | |
| | 1.3.6 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gydag ysgolion i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ymgysylltu â'u dysgu, a bod pob ysgol yn symud tuag at wella'u hunain | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Gan ddefnyddio arian yr awdurdod lleol a chyllid Llywodraeth Cymru darparwyd 9,500 o Chromebooks a 300 o liniaduron i ddisgyblion i hwyluso cefnogi llesiant ac ymgysylltiad â dysgu, a phrynwyd 940 o liniaduron i athrawon er mwyn datblygu arferion dysgu cyfun ac o bell ymhellach, a'u cefnogi i ddarparu sesiynau byw neu wedi'u recordio i'r disgyblion.<br>• Ar ddechrau tymor yr hydref ym mis Medi 2020, darparwyd 45K o fasgiau wyneb i ddisgyblion.<br>• Dyfarnwyd i athrawon a disgyblion Ysgol Hendrefelin Wobr e-Efeillio Cenedlaethol y Cyngor Prydeinig a Gwobr Prosiect y Flwyddyn 2020, camp uchel ei bri.<br>• Datblygwyd cronfa ar-lein o adnoddau a llyfrgell ar amrywiaeth o faterion cysylltiedig â COVID-19, gan gynnwys dysgu gartref, profedigaeth, pryder, llesiant a phontio.<br>• Sefydlwyd gwasanaeth cyngor dros y ffôn i rieni/ofalwyr gan y gwasanaeth cynhwysiad, ac mae wedi cefnogi 25 o deuluoedd ers iddo fynd yn fyw yn gynnar ym mis Mai 2020.<br>• Ein ffocws o ran cefnogaeth i staff mewn ysgolion oedd datblygu eu sgiliau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ymhellach. Dros amser, bu swyddogion yn hyrwyddo pwysigrwydd sesiynau dysgu o bell oedd yn safonol ac yn ystyrlon er mwyn datblygu sgiliau'r disgyblion a sicrhau eu bod yn symud ymlaen yn eu dysgu. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Daliodd ysgolion ati i ddatblygu eu sgiliau er mwyn gallu ymateb i waith disgyblion gan ddefnyddio amrywiol dechnegau megis apiau adborth. Cyfrannodd hyn at ddealltwriaeth gliriach i'r disgyblion a'u teuluoedd o bwysigrwydd ymgysylltu a gwneud cynnydd o ran datblygu eu sgiliau. Cynhaliodd arweinwyr wasanaethau rhithwir i ddathlu gwaith da disgyblion trwy gyflwyno gwobrau a thystysgrifau yn anogaeth bellach ar gyfer lefel uchel o ymgysylltiad.<br>• Bu swyddogion a staff mewn ysgolion yn cefnogi disgyblion yn y Meithrin a'r Derbyn, disgyblion Blwyddyn 6 a'r disgyblion oedd yn sefyll arholiadau trwy gynnig darpariaeth dysgu o bell wedi'i thargedu. Bu swyddogion ac asiantaethau cefnogi arbenigol yn gweithio ar y cyd i gefnogi disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol trwy ddarparu canllawiau penodol ac adnoddau TGCh buddiol oedd yn ymateb orau i'w hanghenion unigol.<br>• Cyflawnodd 57.8% (842 o blith 1456 o ddisgyblion) 5 TGAU gradd A*-C, neu gyfatebol, gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a Mathemateg ym mlwyddyn academaidd 2019/20, ac mae hynny'n sylweddol uwch na'r flwyddyn flaenorol (45.8%).<br>• Roedd y sgôr cap 9 fesul disgybl yng Nghastell-nedd Port Talbot ar gyfer blwyddyn academaidd 2019/20 yn 369, sy'n uwch na'r targed a ffigur y flwyddyn flaenorol, sef 342. Mae'r data ar gyfer y ddau fesur cyrhaeddiad uchod ym mlwyddyn academaidd 2019/20 wedi'u seilio ar ddull gwahanol, h.y. asesiadau athro oherwydd COVID-19.<br>• Effeithiodd y pandemig ar lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac ni chasglwyd y data blwyddyn academaidd ar gyfer 2019/20 a geir yn yr adroddiad hwn ond hyd at 13 Mawrth 2020. Roedd y presenoldeb hyd at y cyfnod hwn yn 93.3% i'r cynradd ac yn 92% i'r uwchradd, sydd yn fras yn 1% o dan y flwyddyn academaidd flaenorol. Cafodd cyfyngiadau'r pandemig effaith sylweddol ar bresenoldeb wedi'r cyfnod hwn. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| 1.4 Bydd plant a phobl ifanc sydd angen amddiffyniad, gofal a chefnogaeth yn cael eu hamddiffyn a'u diogelu, a bydd mwy o'r plant hynny'n gallu tyfu i fyny yng nghyd-destun teulu sefydlog | 1.4.1 | Cam – Byddwn ni'n datblygu integreiddio pellach o ran trefniadau gwaith rhwng Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Ni lwyddwyd i gynnal y lansio ffurfiol a gynlluniwyd ar gyfer yr 'Un Pwynt Cyswllt' i Oedolion a Phlant (SPOC) oherwydd y pandemig, ond cyhoeddwyd y model gwasanaeth newydd a chynyddu ymwybyddiaeth ohono yn ystod cyfnod yr haf 2020, ac mae atgyfeiriadau bellach yn cael eu derbyn trwy'r ffurflen atgyfeirio integredig. Mae galwadau ac e-byst i'r gwasanaeth yn awr yn cael eu cyfeirio i mewn i'r un tîm, yn hytrach na chael eu cyfeirio at Wasanaethau Oedolion a Phlant yn eu tro. Un o ganlyniadau dull mwy integredig o weithio fu cwblhau asesiadau prydlon, cynhwysfawr o'r pwynt atgyfeirio. Pwrpas y gwasanaeth SPOC yw gweithredu fel cyswllt cychwynnol ar gyfer pobl sydd angen gwybodaeth a chyngor ynghylch iechyd a llesiant plant, teuluoedd ac oedolion. Bydd yr SPOC Oedolion a Phlant yn cael ei alinio ymhellach fel rhan o ailfodelu Gofal Cymdeithasol i Oedolion, sydd i fod i gychwyn yn ystod 2021/22.<br>• Cwblhawyd 97.7% o asesiadau plant yn brydlon yn ystod 2020/21, gan ragori ar ein targed o 94%. Rydym ni'n dal yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru Gyfan, sef 88.9% (data diweddaraf 2018-19). | | |
| | 1.4.2 | Cam – Gyda'n partneriaid, byddwn ni'n datblygu ein Strategaeth Cymorth i Deuluoedd ymhellach i sicrhau bod yr amrywiaeth a'r safon cywir o wasanaethau ar gael i ddiwallu'r angen | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:** | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Oherwydd effaith y pandemig yn 2020/21, bu'n rhaid i ni addasu ein ffyrdd o weithio gyda phlant a theuluoedd, i fod yn fwy creadigol ac arloesol. Parhaodd gwaith mewn partneriaeth a chyfathrebu yn ganolog i'r dull gweithredu hwn.<br>• Cynhaliwyd ymarferiad craffu ar y llwythi achosion a'r arferion gweithio yn y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, a datblygwyd ffordd o weithio oedd yn canolbwyntio'n fwy ar dargedau a chanlyniadau, gan ymateb yn well i ofynion y gwasanaeth. Bydd y dull gweithredu hwn yn cael ei roi ar waith yn llawn o 1 Ebrill 2021.<br>• Daliwyd ati i gynnal cyfarfodydd Panel Adnoddau Wythnosol gyda phartneriaid amlasiantaeth er mwyn sicrhau bod y gefnogaeth orau'n cael ei darparu o'r adnoddau mwyaf priodol, ar adeg sy'n addas ar gyfer anghenion plant a theuluoedd.<br>• Mae Gweithgor Rhanbarthol wedi cael ei sefydlu gyda Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd Abertawe, i sicrhau bod dull gweithredu mwy cydlynus ar waith i gefnogi teuluoedd â gwasanaethau priodol o ran amrywiaeth a safon.<br>• Darparwyd amrywiaeth o hyfforddiant amlasiantaeth ar draws y Gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd, i hybu datblygiad unigol a sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael y lefel orau o gefnogaeth.<br>• Daliodd y Gwasanaeth Gweithio ar y Cyd ati i weithio'n agos gyda theuluoedd yn ystod 2020/21 ac yn sgîl hynny, llwyddodd i atal unrhyw blant y bu'r gwasanaeth yn gweithio gyda nhw yn ystod y cyfnod hwn rhag gorfod cael eu derbyn i ofal.<br>• Gan fod y pandemig byd-eang yn dal i effeithio ar bob rhan o fywyd, mae ein Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd (IFSS) wedi parhau i ddarparu dull â ffocws o gyrraedd teuluoedd sydd angen cefnogaeth gyda phryderon am ddefnyddio sylweddau, fel bod y plant yn y teuluoedd hynny'n cael eu magu mewn modd sy'n eu galluogi i ffynnu.<br>• Bydd sicrhau bod gennym ni Strategaeth Cymorth i Deuluoedd sy'n gadarn, yn drylwyr ac yn gyson, i gyflwyno gwasanaethau o safon ac amrywiaeth priodol i ddiwallu anghenion y plant a'r teuluoedd hynny, a'u cefnogi, yn | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | parhau'n flaenoriaeth i'r Gwasanaeth wrth i ni symud i mewn i 2021/22. | | |
| | 1.4.3 | Cam – Byddwn ni'n gwneud gwaith â ffocws gyda phartneriaid er mwyn gwella mynediad at y gefnogaeth gywir i blant a phobl ifanc sydd â llesiant emosiynol/iechyd meddwl gwael | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Cynhelir cyfarfodydd adolygiad cymheiriaid bob pythefnos, yn fforwm trafod iach gydag asiantaethau partner. Trafodir teuluoedd y mae angen iddyn nhw gael mynediad at fwy o gefnogaeth, yn ogystal ag unrhyw anghytundeb ynghylch penderfyniadau, gyda golwg ar sicrhau cytundeb ac ymateb ar y cyd. Mae cynrychiolaeth o'r Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) yn yr adolygiad cymheiriaid yn golygu bod modd i'r drafodaeth ar achosion ystyried unrhyw gefnogaeth iechyd emosiynol a llesiant gan naill ai CAMHS neu'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar ac Ataliaeth (EIP) sy'n gysylltiedig â CAMHS.<br>• Mae gwaith yn digwydd yn rhanbarthol ar hyn o bryd i ddatblygu mwy ar y gwasanaethau cywir i gefnogi llesiant emosiynol a iechyd meddwl.<br>• Mae'r Pandemig wedi cael effaith ar iechyd a llesiant emosiynol ein plant, ein pobl ifanc a'u teuluoedd, ac rydym ni'n debygol o weld effeithiau hynny yn y blynyddoedd sy'n dod, felly mae hyn yn rhywbeth y bydd yn rhaid i ni roi sylw pellach iddo wrth symud i mewn i 2021/22 a'r tu hwnt. | | |
| | 1.4.4 | Cam – Byddwn ni'n datblygu ymhellach ein gwasanaeth maethu mewnol i sicrhau digonolrwydd a sefydlogrwydd lleoliadau, gan gynnwys datblygu trefniadau ar gyfer Gofalwyr Gwarcheidiaeth Arbennig | Ambr |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae gwaith wedi cychwyn yn ystod 2020/21 i fapio'r Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig ar draws y gwasanaeth, ac rydym ni'n ymdrin â hyn ar sail ranbarthol er mwyn darparu cysondeb gydag asesiadau a chynlluniau cefnogi. Mae'r gwaith hwn yn cael ei wneud fel rhan o adolygiad o'r gwasanaethau maethu a'r Strategaeth ehangach ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Fodd bynnag, roedd effaith y Pandemig yn golygu newid ym mlaenoriaethau'r Gwasanaeth, ac o ganlyniad, bydd y gwaith hwn yn awr yn parhau yn ystod 2021/22.<br>• Mae gwaith wedi parhau hefyd ar ddatblygu strategaeth PDG (Plant sy'n Derbyn Gofal) diwygiedig. Mae'r derbyniadau i ofal yn dal i gael eu monitro'n fanwl, ynghyd ag adolygu cynlluniau gofal plant sydd eisoes yn derbyn gofal. Bydd y strategaeth PDG yn cael ei llunio'n derfynol wedi i'r gwasanaeth maethu gael ei adolygu.<br>• Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddyn nhw symud 3 gwaith neu fwy – Caiff yr wybodaeth hon ei phoblogi gan Lywodraeth Cymru o'r Cyfrifiad PDG yn ddiweddarach yn y flwyddyn, felly nid oes data ar gael hyd yma. | | |
| 1.5 Bydd pobl ifanc sy'n gadael addysg amser llawn yn cael cyfle i fynd i gyflogaeth, hyfforddiant neu addysg bellach/uwch | 1.5.1 | Cam – Bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd ar ffurf lleoliadau gwaith, prentisiaethau a chyfnodau dan hyfforddiant i bobl ifanc yn ei weithlu ei hun, gan ddarparu cyfleoedd yn arbennig ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Yn ystod cyfnod 2020/21, cefnogodd y Cyngor 40 o brentisiaid, yr oedd **22** ohonynt yn brentisiaid modern, a chafodd **18** o gyflogeion fynediad at gyllid prentisiaeth i godi lefel eu sgiliau a datblygu. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Ers mis Medi 2020 mae'r Cyngor wedi bod yn rhoi trefniadau ar waith i gyflwyno rhaglen Kickstart y Llywodraeth. Mae'r cynllun hwn yn darparu cyllid i gyflogwyr i greu lleoliad(au) gwaith 6-mis ar gyfer pobl ifanc 16-24 oed sy'n derbyn Credyd Cynhwysol ar hyn o bryd ac sydd mewn perygl o fod yn ddi-waith yn y tymor hir. Bydd y swyddi'n gyfle i bobl ifanc feithrin eu sgiliau yn y gweithlu a chaffael profiad fydd yn gwella'u cyfleoedd o gael hyd i waith tymor hir. Rhoddwyd trefniadau'r Cynllun yn eu lle yn 2020/21, yn barod i'r lleoliadau gychwyn ym mis Mai 2021. Wrth symud ymlaen i 2021/22, bydd y Cyngor yn cynnig mwy na 50 o leoliadau Kickstart i bobl ifanc.<br>• Yn ystod 2020/21, er bod paratoadau yn eu lle i gefnogi cyfleoedd i bobl ifanc, effeithiodd cyfyngiadau COVID-19 ar y trefniadau, ac nid oedd modd darparu lleoliadau gwaith diogel ar gyfer hyfforddeion a chyfleoedd i bobl ifanc Llwybr-16. Wrth i'r cyfyngiadau lacio, byddwn ni'n parhau i gael hyd i gyfleoedd ar gyfer y bobl ifanc hyn.<br>• Mae nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol, cydnabyddedig fesul 1,000 o gyflogeion - 8.06 (40 prentisiaeth) yn 2020/21 yn cymharu â 6.72 (33 o brentisiaethau) yn y Cyngor ar y cynlluniau hyn yn ystod 2019/20. | | |
| | 1.5.2 | Cam – Bydd Gweithwyr Ieuenctid mewn Ysgolion yn cefnogi'r bobl ifanc y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg fwyaf o beidio â bod mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET), i'w helpu i gyflawni cyrchfan cadarnhaol. | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Bu'r Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol yn cefnogi ymadawyr ysgol blwyddyn 11 y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg uchaf o fod yn NEET. Cyrchodd 388 o bobl ifanc wasanaeth Gweithwyr Ieuenctid Gwaddol yn ystod cyfnod 2020/21.<br>• Daliodd timau KIT a Cam Nesa ati i gefnogi pobl ifanc 16-25 oed, ac maen nhw wedi trefnu lleoliadau i'r coleg, i ddarpariaeth dysgu yn y gwaith, a chyflogaeth. Cafodd 201 o bobl ifanc gefnogaeth gan dîm KIT, a chyflawnodd 135 ganlyniad llwyddiannus. Derbyniodd 131 o bobl ifanc Gefnogaeth Cam Nesa. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Y ffigur NEET o 2.1% (y targed yw 3.1%) yw'r ffigur isaf a gawsom erioed, a chyflawnwyd hynny yn ystod y pandemig. Mae staff Gwaddol a Gyrfa Cymru wedi gweithio'n galed i gyflawni'r canlyniad yma, gan gadw mewn cysylltiad â phobl ifanc a'u cefnogi trwy ystod o ymyriadau diogel o safbwynt COVID-19, megis cwrdd â phobl mewn gerddi, cyfarfodydd rhithwir, sesiynau cerdded a sgwrsio etc. | | |
| | 1.5.3 | Cam – Byddwn ni'n adeiladu ar ein gwaith fel Rhieni Corfforaethol i sicrhau bod pob person ifanc yn cael llety a chefnogaeth addas wrth adael gofal y Cyngor | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae'r pandemig wedi effeithio ar y cyfleoedd i ymadawyr gofal. Er bod y gwasanaeth wedi ymdrechu i gynnal a chefnogi ymadawyr gofal yn ystod cyfnod a fu'n anodd i bawb, mae'r cyfleoedd wedi lleihau. Mae hwn yn faes y bydd angen i'r awdurdod lleol roi sylw manwl iddo wrth i ni ddechrau dychwelyd at sefyllfa normal, ac i gyfleoedd pellach ddod ar gael i'n hymadawyr gofal.<br>• Canran yr ymadawyr gofal oedd mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth parhaus 12 mis wedi gadael gofal oedd 44.4%, ac ar ôl 24 mis roedd yn 41.9%. Mae'r ffigurau hyn yn is na'r targed ac yn sylweddol is na chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. | | |
| | 1.5.4 | Cam – Byddwn ni'n adolygu ein Strategaeth Ymgysylltiad Ieuenctid | **Coch** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae'r Fframwaith Ymgysylltiad a Dilyniant Ieuenctid i gael ei adolygu'n genedlaethol, a byddwn ni'n aros i hynny ddigwydd cyn newid ein strategaeth.<br>• Parhaodd Grŵp Amlasiantaeth y Tîm Cefnogi Ieuenctid i gwrdd yn rhithwir ar hyd y pandemig. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Lluniodd ein gwasanaeth ieuenctid gwrs newydd 'sut mae coginio' i ysbrydoli pobl ifanc a'u dysgu sut i goginio yn y cyfnod clo.<br>• Canran y bobl ifanc 11-19 oed oedd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ieuenctid – bu 9.5% (1,395) o bobl ifanc yn ymgysylltu â'r gwasanaeth ieuenctid yn ystod 2020/21, o gymharu â 45.8% (6,754) y flwyddyn flaenorol. Mae nifer y bobl ifanc sy'n ymgysylltu â'r gwasanaeth ieuenctid wedi lleihau'n sylweddol oherwydd y pandemig a chau ysgolion, clybiau ieuenctid a gwaith grwpiau. Mae pobl ifanc wedi cael trafferth ymgysylltu â gweithwyr ieuenctid yn y byd rhithwir, a ffocws ein gwaith oedd cefnogi'r rhai mwyaf bregus. | | |
| 1.6 Bydd pob plentyn a pherson ifanc yn cael eu helpu i leisio barn ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw | 1.6.1 | Cam – Bydd y Cyngor yn adolygu ei ddull o ymdrin â Hawliau Plant, gan sicrhau bod dull gweithredu seiliedig ar hawliau yn cael ei wreiddio ar draws ei holl wasanaethau a swyddogaethau | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Cefnogwyd ysgolion i wreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau. Cyn y pandemig rhoddodd 45 o ysgolion eu henwau i lawr ar gyfer Dyfarniad Ysgolion sy'n Parchu Hawliau UNICEF. Roedd hynny'n cynnwys ein holl ysgolion uwchradd ac ysgolion arbennig, a chyflawnodd 3 ysgol y dyfarniad aur.<br>• Rhoddir sylw i Hawliau Plant yn yr hyfforddiant a gynigir i ysgolion, ac mae hynny'n cael ei wreiddio mewn prosesau ac unrhyw strategaethau newydd sy'n cael eu datblygu. Bu oedi gyda Strategaeth Gyfranogiad y gyfarwyddiaeth oherwydd y pandemig. Mae'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd yn unol â'r canllawiau newydd ar wreiddio dull ysgol gyfan o ymdrin â llesiant emosiynol a meddyliol, ynghyd â'r cwricwlwm newydd a diwygio ADY, y mae hawliau plant yn ganolog i bob un ohonynt. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Cafodd hawliau plant, cyfranogiad a llais plant a phobl ifanc eu gwreiddio ym mhob rhan o'r gefnogaeth a gynigiwyd i blant a phobl ifanc, yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed. | | |
| | 1.6.2 | Cam – Bydd pob plentyn a pherson ifanc sydd angen cael eu hamddiffyn, neu y nodwyd bod angen gofal a chymorth arnynt, yn cael lleisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae holiaduron wedi'u teilwra yn dal i gael eu llunio i gefnogi archwiliadau thematig penodol, a byddant yn cael eu hymgorffori fel rhan o'r broses lle bo hynny'n berthnasol. Er enghraifft, ceisiwyd barn plant a phobl ifanc fel rhan o'r Asesiad Plant sy'n Derbyn Gofal ac Archwiliad Cyswllt Teulu. Lledaenwyd canfyddiadau'r archwiliad hwn i bob tîm a rheolwr, gan gynnwys y Tîm Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Tîm Maethu. Roedd arolwg pellach i gasglu barn Defnyddwyr Gwasanaethau Oedolion ar y gefnogaeth maen nhw'n ei derbyn gan eu gweithiwr penodedig hefyd ar waith ar ddechrau pandemig COVID-19, ac yn anffodus bu'n rhaid ei ohirio. Fodd bynnag, mae cysylltiadau helaeth yn awr yn eu lle rhwng Sicrhau Ansawdd a Thimau Ymgysylltu a Chyfranogiad ac mae Rhaglen Archwilio 2021/22 yn cynnwys nifer o archwiliadau sy'n cynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth, megis ymateb COVID-19 yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion ac Archwilio'r Gwasanaeth Ecsbloetio/Cyfiawnder Ieuenctid.<br>• Byddwn ni'n parhau i adolygu a gwneud gwelliannau i'n dull o gasglu adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth i sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn cael lleisio barn ar benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. | | |
| | 1.6.3 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid Meddwl am y Teulu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu dylanwadu ar ffurf gwasanaethau a'u datblygu | **Coch** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Cafodd ymgysylltu â phlant a theuluoedd oedd yn cyfranogi yng ngwasanaethau Teuluoedd yn Gyntaf ei oedi oherwydd y pandemig. Mae bwriad i ymgysylltu o'r newydd yn 2021/22 er mwyn helpu i lywio cyfeiriad y rhaglen yn y dyfodol.<br>• Anogwyd plant a phobl ifanc ar draws Castell-nedd Port Talbot i gymryd rhan mewn arolwg Cymru gyfan oedd yn casglu eu barn ar bandemig COVID-19. | | |
| | 1.6.4 | Cam – Byddwn ni'n annog pobl ifanc i ymarfer eu hawl i bleidleisio a chyfranogi mewn democratiaeth leol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Ar 6 Mai 2021, am y tro cyntaf, roedd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn gallu pleidleisio yn etholiadau'r Senedd. Fel rhan o'n gwaith o fis Gorffennaf 2020 ymlaen, fe wnaethon ni'r canlynol:<br>➢ Cadw mewn cysylltiad ag ysgolion lleol a Choleg Castell-nedd Port Talbot, gan ddarparu adnoddau etholiad iddyn nhw ar gyfer eu platfformau dysgu ar-lein;<br>➢ Parhau i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Abertawe i annog a hybu cofrestriad myfyrwyr, gan gynnwys gweithgaredd penodol ynghylch cofrestru myfyrwyr tramor cymwysedig;<br>➢ Anfon negeseuon wedi'u targedu yn defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol corfforaethol yr awdurdod a'u gwefan, a hyrwyddo'n lleol ymgyrchoedd Cofrestru Pleidleiswyr Cenedlaethol y Comisiwn Etholiadol a Llywodraeth Cymru, oedd wedi'u trefnu ar gyfer gwanwyn 2021. Roedd hyn yn cynnwys yr ymgyrch 'Croeso i'ch Pleidlais', a gychwynnodd o fis Mawrth 2021 ymlaen, ac Ymgyrch 'Got 5' o fis Ebrill 2021; | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | ➢ Parhau i ymgysylltu â grwpiau Du a Lleiafrifoedd Ethnig (BME) lleol a Rhanddeiliaid Ieuenctid fel bod modd anfon negeseuon 'cofrestru' a 'chroeso i'ch pleidlais' trwy amrywiol sianeli cyfathrebu, gyda chymorth Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Ieuenctid CNPT.<br><br>• Mae 5 aelod o Gyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot wedi ennill etholiad ffug a gynhaliwyd yn rhithwir gan y Senedd ym mis Chwefror 2021 fel rhan o Wythnos Pleidleisio'n 16.<br>• Cafodd Maer Ieuenctid a Dirprwy Faer Ieuenctid newydd eu hethol mewn seremoni rithwir (oherwydd cyfyngiadau COVID-19) ar 10 Rhagfyr 2020. Mae'r Maer Ieuenctid newydd wedi addo hyrwyddo hawliau plant a phobl ifanc. Etholir i'r swyddi hyn bob blwyddyn gan Gyngor Ieuenctid Castell-nedd Port Talbot, er mwyn rhoi llais i bobl ifanc a'u helpu i leisio barn ar faterion lleol. | | |
| 1.7 Bydd plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | 1.7.1 | Cam – Byddwn ni'n cynyddu ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasoedd diogel, cyfartal a iach, a bod ymddygiad camdriniol bob amser yn anghywir (Strategaeth Cydberthynas Iach i greu Cymunedau Cryfach) | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae digwyddiad blynyddol y Criw Croch ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn cynnwys rhaglen addas i gynyddu ymwybyddiaeth o gam-drin domestig. Ni chynhaliwyd y digwyddiad hwn yn ystod 2020/21 oherwydd COVID-19, ond yn ystod 2021/22 rydyn ni wedi datblygu Criw Croch rhithwir sydd wedi cael ei lanlwytho i'r Hwb, fel bod pob ysgol gynradd yn gallu ei gyrchu. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Mae Diogelwch Cymunedol yn cydlynu ac yn cefnogi’r Grŵp Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (RSE), sy’n cael ei gadeirio gan yr Uwch Swyddog Ieuenctid a Chymuned. Y grŵp hwn sy’n uniongyrchol gyfrifol am gyflwyno’r gwersi Cydberthynas Iach yn yr ysgol, ac sydd â throsolwg o’r broses honno.<br>• Mae Ymarferwyr Ieuenctid yn cyflwyno’r Gwersi Addysg Cydberthynas Iach a Rhywioldeb (RSE) i bobl ifanc mewn lleoliadau addysg uwchradd yn CNPT.<br>• Mae Ymarferwyr Ieuenctid (Ymgynghorwyr RADS) yn cynyddu ymwybyddiaeth ac yn cefnogi pobl ifanc â pherthnasoedd iach fel rhan o’r Gwasanaeth Galw Heibio Cyngor ar Berthnasoedd (RADS) ar draws lleoliadau Ieuenctid a choleg CNPT.<br>• Canran yr ysgolion sydd wedi mabwysiadu rhaglenni addas i roi sylw i drais yn erbyn benywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) – Gwirioneddol 98.3%, targed 45%. Mae’r holl ysgolion cynradd a bron yr holl ysgolion uwchradd yn awr yn cyflwyno gwersi Cydberthynas Iach oed-briodol. | | |
| | 1.7.2 | Cam – Byddwn ni’n sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn gwybod sut mae cadw’n ddiogel ar-lein | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae gwybodaeth a hyfforddiant helaeth wedi cael eu darparu i ysgolion a disgyblion ynghylch diogelwch a diogeledd ar-lein.<br>• Mae digwyddiad blynyddol y Criw Croch ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6 yn cynnwys rhaglen addas i gynyddu ymwybyddiaeth o seiber-droseddu a diogelwch ar-lein. Ni chynhaliwyd y digwyddiad hwn yn 2020/21 oherwydd COVID-19. Wrth symud ymlaen, yn ystod 2021/22 rydyn ni wedi datblygu Criw Croch rhithwir sydd wedi cael ei uwchlwytho i’r Hwb i’r holl ysgolion cynradd gael mynediad iddo. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | 1.7.3 | Cam – Byddwn ni’n sicrhau bod holl wasanaethau’r Cyngor yn dilyn arferion diogelu trylwyr a chyson | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae’r holl staff yn awr yn gweithio’n unol â Gweithdrefnau Diogelu newydd Cymru Gyfan, ac mae’r cynnydd o ran eu gweithredu yn cael ei fonitro gan y Bwrdd Diogelu. Mae deunydd hyfforddi wedi cael ei ddatblygu a’i estyn allan gan yr adran hyfforddiant. Bydd arferion diogelu cadarn, trylwyr a chyson yn parhau’n flaenoriaeth i’r gwasanaeth wrth symud i mewn i 2021/22.<br>• Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i sicrhau ymateb cyson i ddiogelu wrth y ‘drws blaen’, gyda Gwasanaethau Plant ac Oedolion yn awr yn gweithredu fel un mewn ymateb i adroddiadau diogelu. Mae Polisi Esgeuluso’r Hunan wedi cael ei gyflwyno ar draws CNPT trwy’r Bwrdd Diogelu, ac mae gwaith pellach yn parhau i sicrhau ymateb cadarn a chyson i’r holl adroddiadau diogelu. Mae offeryn gwneud penderfyniadau yn cael ei dreialu ar draws y Gwasanaethau Oedolion.<br>• Cynhaliwyd rhaglen o Archwiliadau Amlasiantaeth oedd yn deillio o’r Bwrdd Diogelu er mwyn adolygu’r newidiadau a wnaed o ganlyniad i’r gweithdrefnau newydd ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion.<br>• Sicrhawyd Cyllid gan Lywodraeth Cymru er mwyn symud ymlaen gyda chynlluniau i ddatblygu Gwasanaeth Cynadledda Grwpiau Teulu. Sicrhawyd rhagor o gyllid, ac mae’r awdurdod lleol yn awr wedi comisiynu gwasanaeth ac mae bellach yn defnyddio Cynadledda Grwpiau Teulu.<br>• Mae pob math ar ecsbloetio (niwed all-deuluol) yn awr yn cael ei reoli o’r cychwyn gan y Timau Ardal perthnasol, gan gynnwys Cyfarfodydd Strategaeth ar gyfer Ecsbloetio Plant yn Rhywiol, gan greu lle i wreiddio’r dull Diogelu Cyd- | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | destunol ar draws ymarfer. Mae pecyn offer yn cael ei beilota ar hyn o bryd i gefnogi a chryfhau'r ymateb i niwed y tu allan i gartref y teulu.<br>• Mae canran y plant sy'n cael eu hailgofrestru ar gofrestr amddiffyn plant yr awdurdod lleol wedi gostwng o 13.9% yn 2019-20 i 7.4% yn 2020/21. Gallai'r nifer is sy'n cael eu hailgofrestru adlewyrchu cynllunio a chymorth o safon uwch adeg dadgofrestru. | | |
| | 1.7.4 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i roi ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ar waith | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Bu gostyngiadau sylweddol ar draws holl ddangosyddion perfformiad allweddol diogelwch ffyrdd yn ein cynllun corfforaethol o gymharu â thargedau Llywodraeth Cymru yn 2020. Gweler tudalen 4 yn ein hadroddiad ar y gyfres lawn o ddangosyddion perfformiad.<br>• Ym mis Mawrth 2021, cawsom hwb ariannu i ddiogelwch ffyrdd o fwy nag £1 filiwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2021/2022.<br>• Cafodd y pandemig effaith ar gyflwyno hyfforddiant diogelwch ffyrdd ar draws pob grŵp oed, ond er gwaethaf cyfyngiadau'r pandemig, symudodd Tîm Ysgolion Diogelwch Ffyrdd eu hyfforddiant ar-lein, a phan laciwyd y cyfyngiadau yn haf 2020, llwyddwyd i ddarparu ystod o hyfforddiant (ar-lein yn bennaf) gan gynnwys Kerbcraft – Hyfforddiant i Blant 5-7 oed sy'n cerdded i 737 o ddisgyblion, Hyfforddiant Beicio i 81 o ddisgyblion, a chyflwynwyd addysg i 4,186 o blant 3-11 oed a mwy na 100 o ddisgyblion ysgol uwchradd trwy Microsoft Teams, yn ogystal â hyfforddi 11 o yrwyr ifanc newydd gymhwyso. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 1 | Cyf. y Cam | Cam | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Rhaeadrwyd gwybodaeth i'r cyhoedd ac ysgolion trwy'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cadw'r cyhoedd yn ddiogel ac yn wybodus, a defnyddiwyd system HWB yr ysgolion i gyflwyno taflenni gwaith a gwybodaeth yn uniongyrchol i'r disgyblion, rhieni/gofalwyr ac athrawon.<br>• Ar ben hynny, gwobrwywyd gwaith caled ein Rheolwr Diogelwch Ffyrdd ag MBE (datganiad i'r wasg). | | |

Mae gwybodaeth fanylach gyda sylwadau am berfformiad ar gael yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2018/19 Gwirioneddol | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2020/21 Targed | Perfformiad CAG yn erbyn Targed 20/21 | Perfformiad CAG yn erbyn 19/20 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1 Amcan Llesiant 1 – Gwella llesiant plant a phobl ifanc** | | | | | | |
| CP/002 – Nifer y lleoedd gofal plant diwrnod llawn a ddarparwyd | 2228 | 2335 | 2413 | 2450 | Ambr | Gwyrdd |
| CP/003 – Canran y plant oedd yn dwlu ar chwaraeon (ar sail nifer yr achosion o gyfranogiad fesul wythnos = 3) | 50.00 | Data heb ei gasglu | Dim data ar gael oherwydd Covid | | **Amh** | **Amh** |
| CP/005 - PAM/007 – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.14 **BA 17/18** | 94.02 **BA 18/19** | 93.33 **BA 19/20** | 95.50 **BA 19/20** | Ambr | Ambr |
| CP/006 - PAM/008 – Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.48 **BA 17/18** | 93.46 **BA 18/19** | 92.01 **BA 19/20** | 95.00 **BA 19/20** | Ambr | Ambr |
| *Mae'r data a adroddwyd yn 2020/21 ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yn cyfeirio at flwyddyn academaidd 2019/20. Oherwydd COVID 19, adroddir ffigurau blwyddyn academaidd 2019/20 hyd at 13 Mawrth 2020.* | | | | | | |
| CP/007 - PAM/033 – Canran y disgyblion a aseswyd yn Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen | 15.78 **BA 17/18** | 16.63 **BA 18/19** | Ddim ar gael | 15.90 **BA 19/20** | **Amh** | **Amh** |
| CP/008 - PAM/034 – Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio Cymraeg fel iaith gyntaf | 12.85 **BA 17/18** | 11.40 **BA 18/19** | 11.33 **BA 19/20** | 11.70 **BA 19/20** | Ambr | Ambr |
| CP/009 - PAM/029 - Mesur 33 – Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddyn nhw symud 3 gwaith neu fwy | 7.44 | 7.77 | Ar gael ym mis Hydref 21 | 7.50 | **Amh** | **Amh** |
| CP/011 - PAM/028 - Mesur 24 – Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd yn brydlon | 94.93 | 98.76 | 97.71 | 94.00 | Gwyrdd | Ambr |
| CP/013 - PAM/046 – Canran y bobl ifanc sy'n NEET – Ymadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) | 2.90 | 2.15 | 2.12 | 3.10 | Gwyrdd | Gwyrdd |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CP/014 – Canran y bobl ifanc 11-19 oed mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau Ieuenctid | 35.03 | 45.75 | 9.47 | 44.00 | Coch | Coch |
| CP/015 – Canran yr ysgolion sydd wedi mabwysiadu rhaglenni addas i ymdrin â thrais yn erbyn benywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV) | 12.12 | 13.64 | 98.33 | 45.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/018 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Plant a anafwyd (0-15 oed) ***Mae'r data ar gyfer y flwyddyn galendr h.y. mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2020.*** | 1 | 3 | 0 | **Targedau LlC wedi'u cyflawni** | | **Amh** |
| CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol - Beicwyr Pedal a anafwyd (pob oed) ***Mae'r data ar gyfer y flwyddyn galendr h.y. mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2020.*** | 3 | 0 | 1 | **Targedau LlC wedi'u cyflawni** | | **Amh** |
| CP/020 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – Gyrwyr Ifanc (16-24 oed) ***Mae'r data ar gyfer y flwyddyn galendr h.y. mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2020.*** | 3 | 1 | 1 | **Targedau LlC wedi'u cyflawni** | | **Amh** |
| CP/108- PAM/032 – Sgôr cap 9 | 341 | 342 | 369 | 348 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/109 -PAM/044 – Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth ffurfiol cydnabyddedig, fesul 1,000 o gyflogeion | Amh - Newydd | 6.72 | 8.06 | Dim targed wedi'i osod | **Amh** | Gwyrdd |

## 5. Amcan Llesiant 2 – Cynnydd yn 2020/21



**Amcan Llesiant 2:** Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol:

*"Bod pawb yn cyfranogi'n llawn ym mywyd y gymuned – yn gymdeithasol ac yn economaidd"*

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Blaenoriaeth allweddol yw creu/hwyluso cyfleoedd cyflogaeth o safon i bobl leol. P'un a yw hynny trwy fanteisio ar bŵer prynu a dylanwad gweithgareddau uniongyrchol y Cyngor, neu trwy ei rôl creu lleoedd, mae sicrhau twf yn y cyfleoedd cyflogaeth lleol a chefnogi pobl i gael gwaith yn un o brif uchelgeisiau'r Cynllun hwn. |
| **Cymru iachach** | Mae sicrhau tai gweddus, fforddiadwy yn ffocws arall allweddol, ynghyd â gwaith i sicrhau bod mwy yn cael ei wneud i alluogi pobl sy'n dioddef cam-drin domestig, camddefnyddio sylweddau neu sydd mewn perygl o ddioddef ymddygiad troseddol ar-lein i'w hamddiffyn eu hunain. Mae cynlluniau penodol ar gyfer cefnogi pobl sydd ag anghenion iechyd a gofal mwy arwyddocaol, ond mae ffocws ymarfer yn cael ei newid er mwyn rhoi pwyslais ar hybu annibyniaeth. |

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae pwysigrwydd "cymuned" yn cael ei bwysleisio'n arbennig mewn perthynas â sut mae'r Cyngor yn bwriadu diwallu anghenion gofal a chymorth y trigolion mwy bregus. |
| **Cymru gydnerth** | Mae pwyslais cryf ar gynaliadwyedd ar draws nifer o'r meysydd blaenoriaeth, a hynny o ran sut rydym ni'n bwriadu lletya ein poblogaeth a sut rydym ni'n ceisio sicrhau dichonoldeb tymor hir ein cymunedau trwy ofalu bod cyfleoedd cyflogaeth o safon ar gyfer pobl leol. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Mae ffocws clir ar waith i ymdrin ag anghydraddoldeb ar draws pobl o bob math gwahanol o gefndir, ond hefyd mae ymrwymiad pendant i sicrhau dull gweithredu seiliedig ar hawliau, nid o ran sut mae'r Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau addysg a gwasanaethau cymdeithasol statudol yn unig, ond ar draws holl waith y Cyngor. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu** | Nod y blaenoriaethau yw cryfhau a datblygu cyfalaf cymdeithasol cymunedau er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chadernid. Bydd y gwaith hwn hefyd yn sicrhau bod diwylliant unigryw pob cymuned yn cael ei barchu, gan gynnwys gwaith i estyn defnydd beunyddiol o'r Gymraeg a diogelu treftadaeth gyfoethog y fwrdeistref sirol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Bydd gweithgaredd rheoleiddio a chaffael yn rhoi sylw priodol i ddyletswydd y Cyngor i weithredu mewn modd cynaliadwy a chyfrifol. Mae'r Cyngor wedi ymuno â'r Rhaglen Cadwyni Cyflenwi Moesegol. Mae hynny'n golygu ymrwymo i sicrhau bod y Cyngor yn edrych yn ofalus ar ffynhonnell ei nwyddau a'i wasanaethau er mwyn sicrhau bod y trefniadau hynny'n rhai moesegol. |

***Astudiaeth Achos:*** *Gwasanaeth Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) Cyngor Castell-nedd Port Talbot*

***Cefndir:***

*Cafodd y fersiwn wedi'i diweddaru o Strategaeth VAWDASV Cyngor Castell-nedd Port Talbot, 'Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach' ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 25 Mehefin 2020. Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaeth lleol a goroeswyr VAWDASV er mwyn bodloni gofynion Deddf Trais yn erbyn Benywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.*

*Cyflwynwyd y Ddeddf i wella'r trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol; i wella'r trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais a chamdriniaeth o'r fath. Gosododd y Ddeddf ddyletswydd gyffredinol newydd ar awdurdodau lleol, i roi sylw (ynghyd â phob mater arall perthnasol) i'r angen am ddileu neu leiafu unrhyw ffactorau sy'n cynyddu risg trais yn erbyn merched neu fenywod, neu sy'n gwaethygu effaith trais o'r fath ar ddioddefwyr.*

*Mae'r Strategaeth yn defnyddio'r term cenedlaethol "Trais yn erbyn Benywod" sy'n cyfeirio at yr ystod o fathau o droseddau sy'n cael eu profi'n bennaf, er nad yn ddieithriad, gan ferched a benywod. Fodd bynnag, mae'r strategaeth hefyd yn ymdrin ag anghenion pawb arall mae'r agenda hon yn effeithio arnynt, gan gynnwys camdriniaeth sy'n cael ei chyfeirio at fechgyn a dynion neu grwpiau ac unigolion eraill sy'n profi'r mathau hyn o drais.*
*Gall tîm IDVA (Ymgynghorwyr Annibynnol Trais Domestig) Cyngor Castell-nedd Port Talbot helpu dioddefwyr trais domestig gyda chynlluniau diogelwch priodol i leihau'r risg maen nhw'n ei wynebu. Gall hyn gynnwys eu cefnogi trwy brosesau'r llys, cefnogaeth i gael hyd i lety amgen, caledu'r targed (cryfhau diogeledd) yn eu cartref, a'u helpu i gael mynediad i wasanaethau cefnogi eraill.*

*Bu Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cefnogi Diwrnod y Rhuban Gwyn, a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020. Mae'r ymgyrch hon, ar draws y Deyrnas Unedig, yn ceisio cynyddu ymwybyddiaeth o drais gwrywod yn erbyn benywod. Y llynedd, Cyngor Castell-nedd Port Talbot oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru a Lloegr i gyflwyno polisi "absenoldeb diogelwch", sy'n golygu bod gan ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n gweithio i'r Cyngor hawl i gymryd hyd at bum diwrnod o "absenoldeb diogelwch" â thâl i'w galluogi i gael mynediad at gefnogaeth heb orfod aberthu cyflog na gwyliau blynyddol.*

*Yn ystod 2020/21 fe fuon ni'n cefnogi 437 achos atgyfeirio risg uchel i droi at y gwasanaeth IDVA.*

***Sut mae'r gwaith yma'n bodloni 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:***

- ***Hirdymor –*** *Mae'r Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach yn strategaeth tair blynedd sy'n cynnwys cyfuniad o gamau gweithredu tymor byr a thymor hwy. Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar genedlaethau'r dyfodol, a sicrhau ein bod yn gweithio gyda phobl o bob oed a phob cefndir, gan eu cefnogi a'u haddysgu. Mae'r strategaeth yn rhoi sylw i'r darlun newidiol a welir o amgylch pob math ar Drais yn erbyn Benywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, a sut gallwn ni ffurfio gwasanaethau i ymateb yn well i'r galw wrth symud i'r dyfodol.*

- ***Integreiddio** – Mae pob agwedd ar y Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach yn cael eu datblygu a'u cyflwyno mewn partneriaeth, gydag ystod eang o asiantaethau, yn ogystal â thrwy gynnwys goroeswyr camdriniaeth. Mae cynnwys goroeswyr yn gwbl hanfodol wrth lunio gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Nhw sydd yn y sefyllfa orau i ddweud wrthyn ni beth sy'n gweithio'n dda, ble mae bylchau, a sut gallwn ni wella'n barhaus. Mae gan y gwaith hwn gamau penodol yn y cynllun corfforaethol i gyflawni canlyniadau **Amcan Llesiant 1**: Gwella llesiant plant a phobl ifanc ac **Amcan Llesiant 2** : Gwella llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol.*
- ***Cynnwys –** Wrth ddatblygu'r Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach, trefnwyd digwyddiadau rhanddeiliaid ac ymgyngoriadau i sicrhau bod yr holl bobl a gwasanaethau perthnasol yn cael eu cynnwys. Mae hyn yn estyn i'r broses o gyflwyno'r strategaeth, gan sicrhau bod yr holl bartneriaid perthnasol yn rhan o'r gwaith. Mae pawb yn ymwybodol o'u rolau unigol a sut maen nhw'n cyfrannu orau at amrywiol elfennau'r strategaeth a'i gwaith.*
- ***Cydweithio –** Mae'r berthynas ag asiantaethau partner yn ardderchog. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu ymdrech bendant i ddatblygu'r bartneriaeth i'w sefyllfa gref bresennol. Mae pawb sy'n rhan o'r gwaith hwn yn gweithio ar y cyd, ac yn cyfrannu o'u harbenigedd er mwyn cryfhau a gwella ein harferion a/neu ein gwaith ymchwil, gan weithio yn y pen draw i greu gwell gwasanaethau a chanlyniadau i'r rhai mae VAWDASV yn effeithio arnynt.*
- ***Ataliaeth –** Mae'r Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach yn troi'n bennaf o amgylch atal VAWDASV. Rydym ni'n cydnabod bod llawer o'n gwaith yn rhoi'r dioddefwr yn y canol, a bod hynny'n gwbl briodol, ond mae angen i ni wneud mwy i fynd i'r afael ag achos gwaelodol y broblem a galw cyflawnwyr i gyfrif am eu hymddygiad, gan gynnig cyfleoedd iddyn nhw newid a gwneud dewisiadau gwell. Rydyn ni hefyd yn canolbwyntio ar addysg o oed cynnar iawn, a lle bynnag y bo modd yn annog dioddefwyr i geisio cymorth cyn gynted â phosibl, cyn i'r trais a'r cam-drin waethygu.*

***Canlyniadau:***

- *Cafodd y tîm IDVA ei gydnabod am ei waith a allai achub bywydau yng Ngwobrau Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg 2021.*
- *Derbyniodd y tîm IDVA, ynghyd â'u cymheiriaid yng Nghyngor Abertawe ac Uned Cam-drin Domestig Heddlu De Cymru, wobr am eu gwaith partneriaeth yn cefnogi dioddefwyr trais domestig ar hyd y pandemig.*
- *Dywedodd adborth dienw gan rywun oedd wedi goroesi cam-drin domestig: "**diolch am bopeth rydych chi wedi'i wneud i fi, rydych chi wedi bod yn gymaint o help o'r cychwyn. Rwy'n ddiolchgar am hynny ac yn gwerthfawrogi popeth cymaint.**"*

*Dolen i gyrchu gwybodaeth a chefnogaeth: http://www.safernpt.org/1123?lang=cy-gb*

**Cynnydd cyffredinol Amcan Llesiant 2:**

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| 2.1 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i gyflogaeth gynaliadwy, leol, o safon | 2.1.1 | Cam – Cefnogi busnesau hen a newydd i helpu i greu a chynnal cyfleoedd cyflogaeth lleol i bobl leol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae'r tîm datblygu economaidd wedi cael blwyddyn brysur yn ystod y pandemig, gyda lefelau digynsail o ymholiadau. Fe wnaethon ni gynyddu ein cefnogaeth i fusnesau oedd eisoes yn bodoli yn sylweddol, gan ymateb i 2,242 o ymholiadau busnes trwy ddarparu cyngor, gwybodaeth neu gefnogaeth ariannol, ffigur sylweddol uwch na'r 728 yn y flwyddyn flaenorol. Fe wnaethon ni hefyd brosesu 1,520 o geisiadau gan fusnesau bach am arian brys ar ran Llywodraeth Cymru a derbyn 320 o ymholiadau cysylltiedig â Covid gan fusnesau lleol.<br>• Talwyd gwerth £47M o grantiau COVID i fusnesau lleol.<br>• Fe wnaethon ni annog busnesau lleol i ymuno â'n hymgyrch CNPT Prynu'n Lleol, sy'n ceisio rhoi siopwyr mewn cysylltiad â busnesau oddi mewn i'r fwrdeistref sirol. Wrth i gyfyngiadau lleol ddod i rym yn CNPT o bryd i'w gilydd yn ystod y pandemig, ein nod oedd parhau i gefnogi masnachwyr lleol mewn unrhyw fodd posibl. Mae 290 o fusnesau wedi'u rhestru ar y wefan. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Cynorthwywyd 199 o fusnesau newydd i gychwyn yn ystod 2020/21 – er bod hyn yn is na'r targed o 340 cyn y pandemig, roedd hynny i'w ddisgwyl gan nad oedd y sefyllfa economaidd yn ffafrio busnesau newydd, a dyrannwyd adnoddau staff i weinyddu ceisiadau gan fusnesau lleol am daliadau brys trwy amrywiol gynlluniau grantiau Llywodraeth Cymru, a gyflwynwyd i gyd-fynd â'r amrywiol gyfnodau clo. Er gwaethaf hyn, ansicrwydd economaidd y 12 mis diwethaf ac anallu'r tîm i fod mewn cysylltiad wyneb yn wyneb, llwyddwyd o hyd i roi cefnogaeth 'rithwir' i nifer fawr o drigolion lleol oedd yn ystyried cychwyn busnes. Ar ben hynny, bu'r tîm datblygu economaidd yn gweinyddu cronfa gychwynnol Llywodraeth Cymru o £5m ar gyfer busnesau newydd, oedd yn darparu cefnogaeth i helpu busnesau newydd i ddelio ag effaith ddifrifol y coronafeirws.<br>• Cynhaliwyd 9 digwyddiad menter 'rhithwir' yn ystod 2020/21 i gefnogi'r trigolion lleol sy'n ystyried cychwyn eu busnes eu hunain.<br>• Pleidleisiodd busnesau yng Nghastell-nedd yn erbyn adnewyddu Rhanbarth Gwella Busnes (BID) Castell-nedd 'Neath Inspired'. Wrth symud ymlaen gallai hynny effeithio ar fusnesau lleol, gan y gallai fod llai o gefnogaeth i drefnu digwyddiadau fel yr Ŵyl Gerddoriaeth, yr Ŵyl Bwyd a Diod a'r Ŵyl Cwrw go iawn a Seidr, ni fydd gwefan a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol penodol i hyrwyddo'r dref, ei digwyddiadau a'i busnesau bellach, ac ni fydd Rheolwr BID wrth law i ddelio â materion o ddydd i ddydd. Fwy na thebyg, bydd hyn yn golygu bod rhaid i Reolwr Canol Tref y Cyngor a'r Tîm Busnes lenwi'r bwlch a adawyd yn sgîl y penderfyniad yma. | | |
| | 2.1.2 | Cam – Mwyafu'r cyllid strategol sydd ar gael i gyflwyno rhaglenni cyflogadwyedd fel Gweithffyrdd+ a Chymunedau dros Waith, er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n economaidd segur ac yn ddi-waith i gaffael a chynnal cyflogaeth | **Ambr** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Lansiwyd gwasanaeth newydd STU (Diweithdra Tymor Byr) i sicrhau bod pobl sy'n ddi-waith am gyfnod byr yn Ne-orllewin Cymru yn cael y gefnogaeth ymarferol angenrheidiol i sicrhau gwaith. Bellach gall y gwasanaeth gefnogi pobl sydd wedi bod yn ddi-waith am ddiwrnod neu am flynyddoedd, yn sgîl buddsoddiad ychwanegol o £3m o gyllid o'r UE a ddarparwyd trwy Lywodraeth Cymru.<br>• Cynhaliwyd ffair swyddi rithwir a drefnwyd gan y cynllun Cymunedau dros Waith a Mwy ar 4 Mehefin 2020. Cafodd mwy na 30 o bobl oedd yn chwilio am waith gyfle i siarad ag 17 o wahanol sefydliadau oedd yn cynnwys cyfuniad o wasanaethau cefnogi cyflogaeth a busnesau.<br>• Rydym ni'n gweithredu fel cynrychiolydd porth (asiant lleol) ar gyfer rhaglen Kickstart yn y fwrdeistref sirol, sy'n cefnogi pobl ifanc i gael cyflogaeth, a busnesau i recriwtio, gyda chymhelliad ariannol talu'r cyflog am 6 mis.<br>• Yn 2020/21, cafodd 87 o bobl oedd yn rhan o'r cynllun Cymunedau dros Waith eu helpu i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli, a chafodd 258 o bobl a fu'n cyfranogi yn y cynllun Cymunedau dros Waith a mwy eu helpu i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli. Er bod y ddau ffigur yn sylweddol is na'r flwyddyn flaenorol, roedd hynny'n rhannol oherwydd y pandemig ac yn rhannol oherwydd newidiadau yn sut mae Llywodraeth Cymru yn cofnodi gwybodaeth ar gyfer y dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) hyn.<br>• Yn 2020-21, trodd ffocws Gweithffyrdd at gefnogi pobl o bell a sicrhau bod pobl ddi-waith yn cael mynediad i'r gefnogaeth fwyaf priodol. Cafodd 1,298 o bobl eu brysbennu gan Gweithffyrdd, a chafodd 58 o bobl oedd yn rhan o'r cynllun Gweithffyrdd+ eu helpu i symud ymlaen trwy ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli. Er bod hyn o dan y targed o 72 (cyflawnwyd 81%) ac yn is na 2019/20, roedd yr allbwn o 127 yn gyflawniad aruthrol. Effeithiwyd ar y canlyniadau'n benodol gan y pandemig, gan mai cynulleidfa darged Gweithffyrdd yw'r rhai sydd â Chyflyrau Iechyd | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | sy'n Cyfyngu ar Waith, neu Anabledd, felly roedd y cyfnod hwn yn un anodd iawn iddyn nhw ystyried gwaith, oherwydd eu bod yn unigolion mor agored i niwed. | | |
| | 2.1.3 | Cam – Bydd y Cyngor yn ceisio osgoi dileu swyddi gorfodol gymaint ag sy'n bosibl | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Byddwn ni'n parhau â'n hymrwymiad i leiafu dileu swyddi gorfodol a sicrhau dilyniant cyflogaeth i'n cyflogeion trwy ganolbwyntio ar weithgareddau ailgyfeirio, defnyddio'r Cynllun Dileu Swyddi Gwirfoddol, sydd bellach yn gynllun penagored ers 17 Medi 2019, a chyfyngu ar nifer y swyddi sy'n cael eu hysbysebu'n allanol.<br>• Dilewyd 2 swydd yn orfodol yn ystod 2020/21, o gymharu â 9 ym mhob un o'r ddwy flynedd flaenorol. | | |
| | 2.1.4 | Cam – Mwyafu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant i bobl leol trwy fuddion cymunedol a chefnogi buddsoddiadau newydd yn y fwrdeistref sirol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Cwblhawyd 2,026 o wythnosau hyfforddiant ar gyfer prentisiaethau, cyfnodau dan hyfforddiant a phrofiad gwaith yn ystod 2020/21, cynnydd sylweddol ar 771 yn 2019/20.<br>• Er gwaethaf sefyllfa COVID-19, roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol o brysur, gyda 12 prosiect yn symud ymlaen ar wahanol gyfnodau, o gymharu â 4 prosiect y flwyddyn flaenorol. | | |
| | 2.1.5 | Cam – Byddwn ni'n hybu menter gymdeithasol | **Ambr** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Rydym ni'n parhau i gefnogi sefydliadau gwirfoddol y trydydd sector i gynorthwyo, cynghori a llywio'r gwaith o hyrwyddo mentrau cymdeithasol. Gwaetha'r modd, oherwydd pwysau COVID-19, bu oedi yn achos yr amcan hwn. Mae'r gwaith hwn yn hanfodol ar gyfer llwyddiant yr amrywiol fentrau cymunedol parhaus, megis Adeiladu Cymunedau Diogel a Chydnerth, ond, oherwydd COVID-19, bu'n rhaid atal rhaglenni peilot cymunedol dros dro i roi cyfle i ni ganolbwyntio ar ein cyfrifoldebau diogelu. Byddwn yn dychwelyd at hyn yn 2021/22 fel rhan o ddatblygiad parhaus y gefnogaeth Ataliaeth Ymyrraeth Gynnar (EIP) ym maes Gofal Cymdeithasol i Oedolion. Mae ein prosesau caffael hefyd yn cymryd i ystyriaeth hyrwyddo Mentrau Cymdeithasol. | | |
| 2.2 Bydd pobl leol yn gallu cael mynediad i dai fforddiadwy o safon | 2.2.1 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i ddarparu cyflenwad, cyfuniad, math a deiliadaeth digonol o dai i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol, gan gynnwys y gymuned sipsiwn a theithwyr yn y lleoliadau cywir. | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Cymeradwywyd Adroddiad Adolygu'r CDLl (Cynllun Datblygu Lleol) mewn cyfarfod o'r [Cyngor llawn ar 2 Gorffennaf 2020] ac wedi hynny fe'i cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru (LlC). Mae'r Adroddiad Adolygu yn rhan hollbwysig o'r broses adolygu ac yn rhan annatod o'r sylfaen o dystiolaeth. Y cam nesaf yw bod y Cyngor yn paratoi Cytundeb Cyflawni (CC) drafft a fydd, gyda chytundeb LlC, yn nodi'n ffurfiol amserlen yr adolygiad, Cynllun Cynnwys y Gymuned (CIS) a'r adnoddau y bydd y Cyngor yn eu hymrwymo i ddatblygu'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA). Ers i'r Adolygiad gychwyn, mae pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ar symudiad pobl, hygyrchedd adeiladau cyhoeddus, a'r gallu i ymgymryd â digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd, fel bod goblygiadau sylweddol wrth bennu amserlen y CDLlA. Er | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | | bod gwaith i baratoi'r CC Drafft, Cynllun Cynnwys y Gymuned ac amserlen y CDLlA wedi cychwyn, ni ellir creu'r fersiynau terfynol nes bod goblygiadau ehangach y pandemig yn hysbys. Wrth symud ymlaen, bydd y sefyllfa hon yn cael ei hadolygu'n barhaus wrth i'r cyfyngiadau gael eu llacio, ac er y bydd oedi bellach o ran cychwyn ffurfiol proses yr adolygiad, bydd y gwaith ar sylfaen dystiolaeth y CDLl yn parhau i wneud cynnydd yn unol â'r bwriad.<br>• Mae'r cartrefi newydd fforddiadwy a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd blaenorol yn dal yn sylweddol is na tharged y CDLl. Dylanwadwyd ar gyfradd cyflwyno tai fforddiadwy gan lefelau isel y tai marchnad a gyflwynwyd yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac oherwydd anawsterau dichonoldeb. Bydd y materion hyn yn derbyn sylw trwy adolygiad y CDLl. Mae data 2020/21 yn cael ei gasglu a'i asesu ar hyn o bryd i'w gynnwys yn Adroddiad Monitro Blynyddol (AMB) y CDLl, sydd i'w gyhoeddi ym mis Hydref 2021.<br>• Ar hyn o bryd, nid oes angen heb ei ddiwallu am leiniau sipsiwn a theithwyr yn y fwrdeistref sirol. Cwblhawyd yr estyniad i Cae Garw (11 llain preswyl newydd) yn 2016. Canfu Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr 2016 (GTAA) fod nifer digonol o leiniau i ddiwallu anghenion y gymuned yng Nghastell-nedd Port Talbot hyd at 2021. Mae bwriad i gynnal arolwg GTAA newydd i bennu'r angen y tu hwnt i 2021.<br>• Mae ein Tîm Adnewyddu Tai bellach wedi gosod mwy na 60 o systemau gwres canolog am ddim yn sgîl y Gronfa Cartrefi Cynnes. Ers ei lansio, mae'r cynllun a reolir gan Gyngor Castell-nedd Port Talbot wedi ariannu gwerth mwy na £450,000 o osodiadau a mesurau arbed ynni ar draws y fwrdeistref sirol.<br>• Yn ystod 2020/21, ailddechreuwyd defnyddio dau eiddo problematig tymor hir, trwy weithredu uniongyrchol gan y Cyngor. Effeithiodd y pandemig ar y gwaith yma.<br>• Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot wedi cychwyn ar gytundeb dros dro gyda Persimmon Homes Gorllewin Cymru i adeiladu bron 140 o dai ar safle Canolfan Hamdden Lido Afan gynt ar Lan Môr Aberafan.<br>• Ni chasglwyd data ar gyfer canran yr eiddo preifat gwag yr ailddechreuwyd eu defnyddio oherwydd y sefyllfa gyfredol o ran COVID-19. | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | 2.2.2 | Cam – Drwy weithio gyda phartneriaid tai strategol byddwn ni'n parhau i atal digartrefedd | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Llwyddwyd i atal 66.7% (226 o 339) o aelwydydd rhag bod yn ddigartref (targed Dangosydd Perfformiad Allweddol y Cynllun Corfforaethol: 60%), o gymharu â 51.5% yn ystod yr un cyfnod yn 2019/20.<br>• Sicrhawyd llety parhaol ar gyfer 258 o unigolion neu aelwydydd digartref.<br>• Oherwydd newidiadau brys i'r ddeddfwriaeth ddiwedd mis Mawrth 2020, o ganlyniad i COVID-19, mae'r galw am lety dros dro wedi cynyddu 140% o gymharu â'r cyfartaledd arferol, a bu'n rhaid cael hyd i safleoedd llety newydd. Mae hyn yn cynnwys 18 o unedau LCC (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) sydd ar brydles tymor byr i gychwyn, ond sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd yn unol â'r galw.<br>• Mae cyfarfodydd cyswllt rheolaidd yn cael eu cynnal gyda LCCiaid ar lefel weithredol a rheoli i sicrhau cyfathrebu parhaus a bod yr holl brosesau'n adlewyrchu lefel newydd y galw. Mae hyn yn sicrhau bod LCCiaid ac Awdurdodau Lleol yn gweithio yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl wrth weithio tuag at ailgartrefu unigolion bregus.<br>• Oherwydd y gwaharddiad ar droi allan, roedd yr ataliaeth lwyddiannus yn uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, disgwylir cynnydd pellach yn y galw pan ddaw'r gwaharddiad i ben yn haf 2021, a phenderfynir ar offer atal ar gyfer hynny ar y pryd, ochr yn ochr â thrafodaethau gyda LCCiaid i ddileu troi pobl allan gan eu gwneud yn ddigartref. | | |
| | 2.2.3 | Cam – Byddwn ni'n targedu'r cyllid sydd ar gael i ddarparu cymorth tai effeithiol i bobl y nodwyd bod angen help a chymorth ychwanegol arnyn nhw | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:** | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Oherwydd y galw cynyddol o ganlyniad i newidiadau deddfwriaeth COVID, bu gofyn cynyddu'r adnoddau o fewn y gwasanaeth Opsiynau Tai i ymateb i'r galw hwnnw. Mae cynnydd yn y Grant Cefnogi Tai (HSG) wedi galluogi'r gwasanaeth i wneud hynny, mae 13 o swyddi ychwanegol wedi cael eu cymeradwyo, a bydd y recriwtio'n cael ei gwblhau erbyn diwedd haf 2021. Mae hyn yn cynnwys capasiti ychwanegol ar gyfer gwaith ataliaeth a chefnogaeth o fewn y gwasanaeth. Hefyd mae prosiectau newydd yn cael eu hariannu trwy'r HSG, lle bydd y partneriaid yn cyflwyno cymorth arbenigol a fydd yn helpu Opsiynau Tai i gyflawni eu gofynion statudol. | | |
| | 2.2.4 | Cam – Byddwn ni'n parhau i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl oddi mewn i derfynau'r cyllid sydd ar gael i'r Cyngor | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Yn ystod 2020/21 mae pandemig COVID-19 wedi amharu ar gyflawni Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl (DFGs). Cafwyd cyfnodau estynedig o segurdod oherwydd y cyfnodau clo niferus o achos COVID-19, a mae prinder deunyddiau a llafur hefyd wedi achosi oedi sylweddol. Arweiniodd hynny at gymryd mwy o amser i gyflawni DFG, o gyfartaledd o 196 diwrnod yn 2019/20 i 363 yn 2020/21 a gostyngiad yn nifer y DFGs a gwblhawyd, o 212 yn 2019/20 i 97 yn 2020/21. Y targed ar gyfer 2020/21 oedd 230 diwrnod ar gyfartaledd i gwblhau DFG.<br>• Lleihaodd y galw am DFGs hefyd oherwydd bod pobl yn cysgodi ac yn y cyfnod clo, a ddim yn cysylltu â'r awdurdod. Mae disgwyl i'r galw hwn gyrraedd y gwasanaeth yn 2021/2022, ar ben y galw arferol. | | |
| 2.3 Mae pobl yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel | 2.3.1 | Cam – Byddwn ni'n gwneud ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yn flaenoriaeth i leihau nifer y dioddefwyr eildro a lleihau nifer yr achosion risg uchel (Strategaeth Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach) | **Ambr** |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cynnydd Camau 2020/21</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Cynnydd y Cam:<br><br>• Yn dilyn oedi oherwydd COVID-19, cafodd y Strategaeth VAWDASV a ddiweddarwyd, ‘Perthnasoedd Iach i greu Cymunedau Cryfach’ ei chymeradwyo gan y Cabinet ar 25 Mehefin 2020. Datblygwyd y strategaeth mewn partneriaeth â darparwyr gwasanaethau lleol a goroeswyr VAWDASV.<br>• Bu Tîm Diogelwch Cymunedol Cyngor Castell-nedd Port Talbot yn cydlynu ymgyrch Diwrnod y Rhuban Gwyn, a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd 2020. Roedd hyn yn rhithwir i raddau helaeth oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ond yn 2021 rydym yn gobeithio gallu cynnal ymgysylltiad wyneb yn wyneb ag aelodau’r cyhoedd.<br>• Mae tîm IDVA Cyngor Castell-nedd Port Talbot (Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol) wedi cael ei gydnabod am ei waith a allai achub bywydau yng Ngwobrau Uchel Siryf Gorllewin Morgannwg (datganiad i’r wasg).<br>• Yn ystod pandemig COVID-19, bu cynnydd sylweddol yn genedlaethol mewn datgeliadau o gam-drin domestig ar draws pob gwasanaeth, a chafodd hynny ei ragweld yn gyffredinol. Roedd cynnydd o 40% yn yr atgyfeiriadau i wasanaeth yr IDVA (Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol) yn ystod y pandemig. Y gwasanaeth hwnnw sy’n cefnogi’r rhai sy’n wynebu’r risg fwyaf.<br>• Yn ystod 2020/21, roedd 37% o’r achosion o gam-drin domestig risg uchaf yn ddioddefwyr eildro, sy’n uwch na’n targed o 33%, ond yn is nag yn y ddwy flynedd flaenorol. Yn ystod chwe mis cyntaf 2020/21, er gwaethaf gweld cynnydd yn nifer yr achosion i’r gwasanaeth IDVA, nid oedd llawer o’n dioddefwyr eildro mewn cysylltiad. Mae darn o waith i’r gwasanaeth ei wneud er mwyn deall y rhesymau am hyn. Yn ail ran y flwyddyn, cynyddodd nifer y dioddefwyr eildro hysbys oedd yn cael mynediad i’r gwasanaeth.<br>• Ar ben hyn, gweler yr astudiaeth achos ar dudalennau 52 a 53.</td></tr>
<tr><td></td><td>2.3.2</td><td>Cam – Byddwn ni’n cefnogi ac yn amddiffyn pobl sy’n agored i gael eu denu i mewn i frawychiaeth ac eithafiaeth</td><td>Gwyrdd</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Datblygwyd Panel Sianel CNPT i sicrhau bod yr awdurdod yn gallu cefnogi'r rhai y nodwyd y gallent fod yn agored i gael eu radicaleiddio. Mae'r Panel hwn yn cael ei gydlynu a'i gefnogi gan y Tîm Diogelwch Cymunedol, a'i gadeirio gan y Prif Swyddog Diogelu. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn cydweithio'n agos â Heddlu De Cymru a WECTU (Uned Eithafiaeth a Gwrth-frawychiaeth Cymru) i sicrhau bod atgyfeiriadau'n cael eu hasesu'n briodol. Caiff achosion perthnasol lefel isel eu trafod yn Sianel, tra bod achosion risg uwch yn derbyn sylw gan yr Heddlu. Yna cynigir cefnogaeth gan ddarparwr ymyrraeth a achredwyd gan y Swyddfa Gartref i achosion a drafodwyd yn Sianel, lle bo hynny'n briodol, a rhennir diweddariadau cynnydd yn rheolaidd. Mae Panel y Sianel yn atebol i Fwrdd Rhanbarthol CONTEST a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. | | |
| | 2.3.3 | Cam – Byddwn ni'n parhau i fonitro ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws y fwrdeistref sirol, mewn cydweithrediad â'n partneriaid diogelwch cymunedol, ac yn sicrhau ymateb effeithiol yn ôl y galw | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Ychwanegodd y cynllun *Paws on Patrol* 96 at nifer ei aelodau yn ystod 2020/21 a bellach mae 1,100 o aelodau wedi ymuno â'r cynllun. Mae pobl gydwybodol yn eu cymuned sy'n mynd â'r ci am dro yn helpu eu cymdogaeth leol trwy fod yn llygaid a chlustiau i'r gymuned a rhoi gwybod am faterion fel Graffiti, Baw Cŵn, Goleuadau Stryd Diffygiol, Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (YGG) a Gweithgaredd Troseddol. Mae Partneriaeth CNPT Mwy Diogel yn credu bod y 1000oedd o bobl sy'n mynd â'r ci am dro yn y fwrdeistref sirol yn gallu chwarae rhan bwysig wrth gadw cymdogaethau'n fwy diogel ac yn lanach.<br>• Yn ystod y rhan fwyaf o'r cyfnodau clo cyntaf, nid oedd YGG wedi bod yn amlwg, ond roedd pob achos o dorri rheolau | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | COVID-19 yn cael eu dosbarthu fel YGG – felly wedyn ffurfiodd y Tîm Diogelwch Cymunedol ran o'r Tîm Rhanbarthol Gorfodi ar y Cyd â Heddlu De Cymru a Chyngor Abertawe. Pan laciwyd y cyfyngiadau, gwelwyd cynnydd yn yr achosion, yn enwedig yng nghanol ein trefi. Roedd pryder difrifol ynghylch adroddiadau annigonol, gan nad oedd y darlun oedd yn cael ei bortreadu ar y cyfryngau cymdeithasol yn cael ei adlewyrchu yn ystadegau'r heddlu na'r cyngor. Mae'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol yn dal i weithio'n galed i annog rhoi gwybod am achosion i'r asiantaethau cywir.<br>• Sefydlwyd is-grwpiau penodol i ddelio â materion YGG penodol, gan gynnwys Canol Tref Castell-nedd, Canol Tref Port Talbot, a Llansawel. Mae presenoldeb da o blith y partneriaid perthnasol yn y cyfarfodydd hyn, ac maen nhw'n cael eu cefnogi gan Gynghorwyr Wardiau perthnasol ac Aelodau Cabinet. Mae'r grwpiau'n edrych ar gynlluniau gweithredu wedi'u targedu i roi sylw i bryderon, gan gynnyws camau gweithredu mwy strategol i'r tymor hir, lle bo hynny'n berthnasol. | | |
| | 2.3.4 | Cam – Byddwn ni'n gweithio o fewn Partneriaeth y Bwrdd Cynllunio Ardal (BCA) i weithredu'r Strategaeth Gomisiynu ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau, gan roi blaenoriaeth i leihau marwolaethau oherwydd cyffuriau, gwella ymatebion y gwasanaeth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ar yr un pryd; a chefnogi cyflwyno deddfwriaeth newydd isafbris uned. | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Ym mis Chwefror 2020 cytunodd y BCA i gychwyn prosiect trawsffurfio i weithio tuag at weithredu model gwasanaeth iechyd cyhoeddus cwbl integredig ar gyfer camddefnyddio sylweddau. Mae'r tîm BCA hefyd wedi cyflawni rhai adolygiadau gwasanaeth, ac wedi rhoi nifer o newidiadau ar waith i'r ddarpariaeth i lenwi bylchau megis gwasanaeth | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | | newydd pwynt cyswllt cyntaf, cynnydd yn nifer y lleoedd rhagnodi, a chyflwyno gwasanaeth rhagnodi newydd mynediad cyflym.<br>• Rhoi blaenoriaeth i leihau nifer y marwolaethau oherwydd cyffuriau – Bu gostyngiad sylweddol yn y gweithgarwch ar drws y Rhaglen Nodwyddau a Chwistrelli ym Mae'r Gorllewin. Ar hyn o bryd mae'n amhosibl gwybod ai'r pandemig a fu'n gyfrifol am y gostyngiad sylweddol mewn ymgysylltiad. Bydd hyn yn cael ei ddadansoddi a'i werthuso'n fanylach ar hyd 2021/22.<br>• Yn ystod y pandemig gwelwyd y defnydd o gyffuriau rhagnodedig, anghyfreithlon, a chyffuriau newydd tebyg i bensodiasepin, yn cynyddu'n sylweddol i lefelau problematig oedd i'w gweld mewn mwyafrif mawr o'n hachosion gwenwyno cyffuriau angheuol ac eraill.<br>• Gwnaed Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn gyfrifol am arwain datblygiad Strategaeth Cyd-ddigwydd ddiwygiedig. Cychwynnodd y gwaith hwn yn 2019 a sefydlwyd cynllun gweithredu a thasglu i'w symud ymlaen. Fodd bynnag, oherwydd COVID-19, gwnaeth y Bwrdd Iechyd, ynghyd â sefydliadau eraill statudol ac anstatudol, benderfyniad i atal pob prosiect a rhaglen anhanfodol dros dro, er mwyn dargyfeirio adnoddau i'r ymateb i COVID-19.<br>• Cafodd 22 o wasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynwyd gan y BCA eu cynnal yn llwyddiannus yn ystod y flwyddyn (targed 21).<br>• Cynhaliwyd 72 o ymweliadau monitro (llawer ohonynt yn rhithwir oherwydd y pandemig) â gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gomisiynwyd gan BCA.<br>• Defnyddiodd y gwasanaeth 100% o'i gyllideb o 2.9M yn cefnogi dros 3,000 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2020/21, gyda 1,466 ohonynt yn ddefnyddwyr gwasanaeth newydd (mae'r ffigurau ar gyfer Bae'r Gorllewin – Abertawe a CNPT).<br>• Daliodd y Tasglu Gwenwyno â Chyffuriau ati i gwrdd yn ystod y flwyddyn, a dilynwyd 64% o'r achosion gorddos nad oeddent yn angheuol â chyswllt gan y gwasanaethau allgymorth ac ymgysylltu i ddarparu cyngor ac arweiniad ar | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | leihau niwed. Cynhaliodd y tasglu hefyd eu hadolygiadau o achosion angheuol a chyflwyno 5 argymhelliad yn ystod y flwyddyn. Mae nifer yr achosion o wenwyno'n angheuol â chyffuriau ym Mae Abertawe wedi codi o gymharu â 2019.<br>• Mae'r ddeddfwriaeth isafbris uned (MUP) wedi cael ei gweithredu'n llawn gan LlC ledled Cymru. Yn ystod 2020/21 bu'r Arweinydd Lleihau Niwed yn gweithio gyda Safonau Masnach i sicrhau bod masnachwyr lleol yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r bil MUP wrth werthu alcohol yn eu siopau. Gwnaed gwaith hefyd gyda darparwyr gwasanaeth, i sicrhau eu bod nhw'n cael eu gwneud yn ymwybodol o unrhyw newidiadau i gyfraddau atgyfeirio a natur atgyfeiriadau y gallai'r bil eu cael ar eu defnyddwyr gwasanaeth sy'n yfed alcohol.<br><br>Dyma rai o'r cyflawniadau yn ystod y flwyddyn:<br>• Ysbyty Cyffredinol Treforys yw'r ysbyty cyntaf yng Nghymru i ddarparu nalocson i bobl sydd mewn perygl o ddioddef gorddos.<br>• Datblygu Model ar gyfer System Wybodaeth am Gyffuriau Lleol (LDIS) fel bod modd dosbarthu rhybuddion cyffuriau cryno a chywir a negeseuon atal niwed ar draws y rhanbarth.<br>• Dosbarthiad nalocson ym Mae'r Gorllewin – Yn ystod 2020/21 cofnododd Bae'r Gorllewin ostyngiad o 6% yn unig yn nosbarthiad nalocson, sy'n ganlyniad ardderchog o ystyried y pandemig.<br>• Creu gwefan Newid – Mae'r wefan yn bwynt gwybodaeth canolog ynghylch sut mae cael mynediad i wasanaethau. | | |
| | 2.3.5 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i roi ein Strategaeth Diogelwch Ffyrdd ar waith | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:** | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | | • Effeithiwyd ar niferoedd y damweiniau ffyrdd a'r anafiadau a gofnodwyd gan yr Heddlu ar hyd y rhan fwyaf o 2020 gan bandemig COVID-19, a achosodd gyfyngiadau ar sut, ble a pham gallai pobl deithio oddi mewn i Gymru. Arweiniodd y cyfyngiadau'n gyffredinol at lai o draffig ar ffurf pob math o gerbydau modur. Arweiniodd y gostyngiad yn swm y traffig wedyn at ostyngiad yn y damweiniau ffyrdd a'r anafiadau.<br>• Yng Nghastell-nedd Port Talbot gwelwyd gostyngiad o 44% yn y damweiniau ffordd a gofnodwyd gan yr heddlu rhwng 2019 a 2020. Mae dadansoddiad o'r damweiniau a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghastell-nedd Port Talbot (pob difrifoldeb) yn dangos gostyngiad rheolaidd o flwyddyn i flwyddyn ers 2015. Cofnodwyd 216 o ddamweiniau yn 2015 ac 82 yn 2020.<br>• Gostyngodd traffig modur yng Nghymru 23.4% o gymharu â 2019, y gostyngiad mwyaf o blith gwledydd y Deyrnas Unedig.<br>• Pan laciwyd y cyfyngiadau yn ystod 2020, roedd modd i rywfaint o hyfforddiant ailgychwyn am gyfnod byr. Yn ystod y cyfnod hwn, roedd y canlynol ymhlith yr hyfforddiant a gyflwynwyd: 51 o bobl ar gyfer Dragon Rider Cymru (Cynllun Beicio Modur Lefel Uwch), bu 89 o bobl yn mynychu Hyfforddiant Beicio i Oedolion, a rhoddodd 249 eu henwau i lawr ar gyfer y Cynllun Beicio i'r Gwaith yn 2020, sy'n creu cyfanswm o fwy nag 800 o staff ers 2014.<br>• Cynllun Reidio Beic Modur Lefel Uwch yw cynllun Dragon Rider Cymru, a ddatblygwyd gan Dîm Diogelwch Ffyrdd Castell-nedd Port Talbot yn 2010/2011, sy'n cael ei achredu gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru Cerbydau (DVSA) a'i gefnogi'n flynyddol gan grant oddi wrth Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgyrch i leihau anafiadau i feicwyr modur ledled Cymru. Nod y cynllun, a fabwysiadwyd gan awdurdodau lleol eraill ledled Cymru, yw datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder reidiwr. Mae'r adborth gan y rhai a fu'n bresennol yn dangos bod Dragon Rider Cymru yn gynllun y rhoddir gwerth mawr arno, gyda sylwadau rheolaidd fel y canlynol gan ddefnyddwyr: *"Dyma fi'n estyn allan ar ôl mis o reidio, i roi gwybod i chi gymaint rwy wedi elwa o fynychu'r cwrs Dragon Rider. Fe wnes i fwynhau'r diwrnod yn aruthrol, ac rwy'n dal i feithrin fy sgiliau; gan mod i'n reidiwr newydd fe ges i lawer mwy na dim ond reidio i lwyddo yn y prawf. Hoffwn i chi anfon fy* | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | *niolch hefyd i'r arholwyr, oedd yn broffesiynol iawn, ac roedd eu hadborth yn adeiladol ac o gymorth. Fe wnes i fwynhau'r diwrnod cyfan yn aruthrol, a chaffael gwybodaeth werthfawr. Bydda i'n ei argymell i'm holl ffrindiau sy'n feicwyr!"*<br><br>Ar ben hyn, gweler cynnydd Cam **1.7.4** uchod. | | |
| | 2.3.6 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau bod y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth yn cael eu diogelu, gan gryfhau ein trefniadau diogelu ar gyfer oedolion bregus | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Rydym ni'n parhau i weithio tuag at symleiddio'r Llwybr Diogelu Oedolion er mwyn sicrhau cysondeb ar draws Gwasanaethau Plant a Theuluoedd. Mae'r holl Adroddiadau Diogelu a dderbynnir ar achosion sydd wedi cau yn awr yn cael ymateb wrth y drws blaen hyd nes y penderfynir ar yr ymholiadau a126 (gwneir ymholiadau diogelu o dan adran 126 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).<br>• Mae'r Tîm Diogelu Oedolion yn dal i fwrw golwg dros yr holl achosion agored.<br>• Mae'r Grŵp Diogelu Corfforaethol a'r Bwrdd Diogelu yn awr yn tracio'r holl hyfforddiant Diogelu ar draws yr awdurdod lleol. Bydd deunydd hyfforddi pellach yn cael ei ddatblygu yn y man i ymateb i lansio a gweithredu'r Mesurau Diogelu Rhyddid ym mis Mawrth 2022. Mae gweithgor wedi cael ei sefydlu o dan y Grŵp Diogelu i fod â throsolwg ar y gwaith hwn.<br>• Grŵp Strategol Ymarfer o Safon (yr Awdurdod Lleol) a'r Bwrdd Diogelu sy'n bwrw golwg dros Sicrhau Ansawdd i Wasanaethau Oedolion. Amharwyd ar y rhaglen archwilio benodol ar gyfer Oedolion sy'n wynebu Risg (AAR) o ganlyniad i COVID-19, ond mae bellach yn cyrraedd y nod, gydag ymholiadau A126 a chynadleddau achos yn nesaf i'w harchwilio. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | 2.3.7 | Cam – Caiff safleoedd bwyd eu rheoleiddio i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei ddarparu yn addas i'w fwyta gan bobl a bod y safle y caiff ei werthu ohono yn hylan | **Coch** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Dim ond 14% (51 o 367) o'r busnesau risg uchel oedd yn agored i gael archwiliad a raglennwyd a gafodd eu harchwilio ar gyfer Hylendid Bwyd yn ystod 2020/21. Fel arfer ymwelir â 100% o'r safleoedd hyn yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o'r tîm Diogelu Iechyd a Bwyd yn gyfrifol am gefnogi ymdrechion rheoli heintiau ar gyfer Cartrefi Gofal a'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu (TTP) Rhanbarthol, gan adael adnodd wedi'i ddisbyddu'n fawr i ymgymryd ag archwiliadau Hylendid Bwyd, serch hynny, roedd hyn yn cyfateb i ddisgwyliad a addaswyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Cyflawnwyd rhywfaint o ôl-lenwi swyddi â Locymau, ond roedd y galw amdanynt yn llawer mwy na'r nifer oedd ar gael.<br>• Yn 2020/21 roedd 96% (959 o 999) o safleoedd bwyd yn bodloni safonau hylendid bwyd yn y fwrdeistref sirol h.y. yn meddu ar Radd Hylendid 3, 4 neu 5. Ein targed ar gyfer 2020/21 oedd 95%. Yn ystod pandemig COVID-19, ni chafodd pob safle archwiliad fel mater o drefn, ond rhoddwyd blaenoriaeth i unrhyw safle bwyd a ofynnodd am asesiad ail-sgorio statudol, ac mae hynny wedi arwain at gynnydd bychan mewn perfformiad. | | |
| | 2.3.8 | Cam – Byddwn ni'n ymchwilio i achosion o dorri uniondeb y gadwyn fwyd, o'r fferm i'r fforc (porthiant, iechyd anifeiliaid a safonau bwyd) | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Cynhaliwyd 3 o 6 (50%) o'r archwiliadau risg uchel ar gyfer Iechyd Anifeiliaid yn ystod 2020/21 oherwydd cyfnodau clo'r pandemig, cyfyngiadau ac ymlediad yr amrywiad newydd (amrywiad Caint), er y byddai'r cyfan wedi cael eu harchwilio fel arfer. Cyflawnwyd archwiliadau a monitro dros y ffôn a'r rhyngrwyd i ganfod lefelau cydymffurfio, er | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | bod hynny mewn modd cyfyngedig. Bydd yr archwiliadau oedd heb eu cwblhau yn 2020/21 yn cael eu trosglwyddo i'r flwyddyn ariannol newydd. Ailgychwynnodd archwiliadau ar safleoedd o 1 Ebrill 2021.<br>• Cywirwyd 85.4% (35 o 41) o'r achosion a ganfyddwyd o beidio â bodloni safonau iechyd anifeiliaid, porthiant a bwyd (targed y flwyddyn oedd 80%). Er gwaethaf y cyfnod clo, llwyddodd y staff i gyflawni gwaith adweithiol, gan ymateb i gwynion a gwybodaeth a ddaeth i law. Nododd yr ymgynghorydd a benodwyd i lenwi'r bwlch staffio a achoswyd gan salwch ac absenoldeb mamolaeth lawer o achosion lle na fodlonwyd y safonau, a throsglwyddwyd y rhain i staff swyddogion CNPT i ymchwilio iddyn nhw. | | |
| | 2.3.9 | Cam – Gan weithio gyda phartneriaid a diogelu'r cyhoedd, byddwn ni'n ymchwilio i achosion sylweddol o dorri safonau o ran twyllo defnyddwyr, diogelwch cynnyrch a gwerthiant oed-gyfyngedig a ganfyddir yn rhagweithiol neu'n adweithiol | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Cynhaliwyd 8 o 23 (35%) o'r archwiliadau risg uchel i fusnesau yn ystod 2020/21 oherwydd cyfnodau clo'r pandemig, cyfyngiadau ac ymlediad yr amrywiad newydd (amrywiad Caint); fel arfer byddai'r cyfan wedi cael eu harchwilio. Roedd archwiliadau dros y ffôn a'r rhyngrwyd yn cael eu cynnal i ganfod lefelau cydymffurfio, er bod hynny'n fodd gweithredu cyfyngedig. Bydd yr archwiliadau sydd heb eu cyflawni yn 2020/21 yn cael eu trosglwyddo i'r Flwyddyn Newydd. Ailgychwynnodd archwiliadau ar y safle o 1 Ebrill 2021.<br>• Cafwyd diweddglo llwyddiannus i 37% (7 o 19) o'r ymchwiliadau i achosion o dwyllo defnyddwyr. Bu cynnydd yn ddiweddar mewn sgamiau "Bargen Werdd", cynnydd yn y gweithgaredd nwyddau ffug ar y cyfryngau cymdeithasol, a chynnydd hefyd yn yr achosion o dorri'r rheolau gan fasnachwyr diegwyddor. Mae llawer o'r ymchwiliadau hyn yn parhau o hyd. Fe roeson ni gyngor i drigolion fod yn wyliadwrus wrth dderbyn cynigion gan bobl sy'n honni bod yn | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | fusnesau gwaredu gwastraff cyfreithlon ar y cyfryngau cymdeithasol, mae'r cyngor hwn yn arbennig o berthnasol yn ystod cyfyngiadau cyfnodau clo brys COVID-19, pryd gallai llawer o bobl gychwyn prosiectau DIY yn y cartref a'r ardd.<br>• Mae Safonau Masnach Cymru wedi ymuno â'r elusen Crimestoppers i ddarparu gwasanaeth sy'n galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddarparu gwybodaeth werthfawr, yn ddienw, fydd yn helpu i gadw cymunedau'n iach ac yn ddiogel.<br>• Llwyddodd safonau masnach i erlyn nifer o fasnachwyr, gan gynnwys busnes gwella cartrefi a deuwyd â dau ymchwiliad i dwyll cysylltiedig â cheir ail-law i ben yn llwyddiannus, gan sicrhau ad-daliad i'r achwynwyr. | | |
| | 2.3.10 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda'r holl randdeiliaid i gyflwyno amgylchedd adeiledig diogel a chynaliadwy | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Fe wnaethon ni sicrhau bod yr holl waith adeiladu a reolir yn bodloni gofynion y Rheoliadau Adeiladu er mwyn diogelu iechyd a diogelwch pobl mewn adeiladau ac o'u hamgylch.<br>• Oherwydd natur y gwaith, daliwyd ati i roi sicrwydd ar hyd 2020/21 yng nghyswllt strwythurau peryglus, a daliodd ceisiadau rheoliadau adeiladu i weithredu fel arfer.<br>• Oherwydd y pandemig, roedd archwiliadau ar safleoedd wedi'u cyfyngu i hysbysiadau statudol yn unig, ond cyflawnwyd pob archwiliad arall o bell, gan ddefnyddio ffotograffau a thystiolaeth fideo.<br>• Caiff 98.7% o'r ceisiadau 'cynllun llawn' rheoli adeiladu eu gwirio o fewn 15 diwrnod<br>• Cymeradwywyd 94.9% o'r ceisiadau 'cynllun llawn' y tro cyntaf | | |
| 2.4 Gall pobl sy'n methu gweithio fwyafu eu hincwm | 2.4.1 | Cam – Cefnogir pobl i dderbyn y budd-daliadau mae ganddyn nhw hawl i'w cael oddi wrth Lywodraeth y Deyrnas Unedig | **Gwyrdd** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Rydym ni'n parhau i ddiweddaru ein gwefan er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi cyngor perthnasol ynghylch Budd-dal Tai, Cymorth Treth y Cyngor a Thaliadau Tai Disgresiynol. Anogir defnydd o sianeli digidol yn barhaus wrth gysylltu â thrigolion. Caiff argaeledd cefnogaeth ei hyrwyddo hefyd ar bob dogfennaeth berthnasol, yn ogystal â chyfeirio ymlaen at asiantaethau cefnogi.<br>• Derbyniodd 500 o hawlwyr ychwanegol Gymorth Treth y Cyngor yn ystod 2020/21.<br>• Buom ni'n gweinyddu Cynllun Hunanynysu £500 Llywodraeth Cymru ar gyfer COVID-19 a'r Cynllun Bonws Gofal Cymdeithasol o £500.<br>• Mae 99.8% o grantiau budd-dal yn cael eu rhoi'n gywir, ac ar gyfartaledd ar hyd y flwyddyn mae'n cymryd 3.1 diwrnod i asesu hawliadau newydd a newidiadau i amgylchiadau, sydd yn sylweddol is na'n targed o 6 diwrnod. | | |
| | 2.4.2 | Cam – Byddwn ni'n gweithredu Cynllun Llywodraeth Cymru i ysgafnhau'r baich Treth Cyngor ar y rhai sydd â'r incwm isaf | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Darparwyd £19.3M o gymorth Treth Cyngor i 17,552 o aelwydydd (y nifer mwyaf posibl o hawlwyr yn ystod 2020/21).<br>• Yn ogystal, yn dilyn ymgynghoriad cyllideb 2021/22 yn ystod 2020/21, fe fuon ni'n gwrando'n ofalus ar beth oedd gan bobl i'w ddweud, ac roedd yn eglur mai pryderon ariannol ynghylch y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor oedd un o'r prif anawsterau oedd gan bobl o ran ein cynigion. Llwyddwyd i gyrraedd sefyllfa lle gallen ni ostwng y cynnydd arfaethedig yn Nhreth y Cyngor i 2.75%, un o'r isaf yng Nghymru. | | |
| | 2.4.3 | Cam – Byddwn ni'n rhoi'r strwythur cyflogau a graddau newydd ar waith i'r staff, a bydd hynny'n helpu i godi incwm net y rhai sy'n derbyn y tâl isaf | **Gwyrdd** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cwblhawyd y gwaith hwn yn 2019/20 –** Cadarnhaodd Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol (yr NJC) ym mis Ebrill 2018 fod y Cyflogwyr Cenedlaethol ac Ochr Undebau Llafur yr NJC wedi dod i gytundeb ynghylch y cyfraddau tâl oedd yn gymwys o 1 Ebrill 2018 a 1 Ebrill 2019. Cynhaliwyd asesiad effaith llawn ar gydraddoldeb ar y model cyflogau oedd yn cael ei ffafrio (y cytunwyd arno gan yr Undebau Llafur yn lleol), ac anfonwyd hynny at Swyddogion Rhanbarthol yr Undebau Llafur, heb dderbyn unrhyw sylwadau anffafriol. Rhoddwyd colofn gyflog newydd Llywodraeth Leol (LGS) ar waith, a chwblhawyd yr holl brofiad cydraddoldeb erbyn 1 Ebrill 2019. | | |
| | 2.4.4 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda Chwarae Teg i ddeall pam mae gennym ni fwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac i weld beth gallem ni wneud i gau'r bwlch hwnnw | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Ers 2019, mae'r Cyngor wedi gweithio gyda Chwarae Teg, fel aelod o'u Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg. Mae ein Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Rhywedd, sy'n cynnwys camau gweithredu allweddol â ffocws ar fenywod sy'n derbyn tâl isel yn y Cyngor, gan fod cyflawni cydbwysedd rhywedd ymhlith y cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf yn allweddol i ddileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. I gydnabod y gwaith hwn, roedd y Cyngor wrth ei fodd pan gafodd ei enwebu ar gyfer Gwobr Cyflogwr Chwarae Teg yng Ngwobrau Womenspire Chwarae Teg 2020, lle cyrhaeddodd y rhestr derfynol o 6, o blith cannoedd o gynigion.<br>• Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Hyfforddiant Corfforaethol wedi gweithio gyda Chwarae Teg i roi sesiynau Datblygu Gyrfa ar waith ar-lein ar gyfer benywod sydd ar gyflog is, gyda'r nod o gynyddu sgiliau a hyder. Roedd y sesiynau'n cynnwys: Gweithio'n Gallach, nid yn Galetach, Sut mae dweud na yn wych, Codi Llais, Sefyll Allan, Newid eich Meddylfryd, Sicrhau Canlyniadau a Rheoli Ymddygiad Heriol. Cwblhaodd 83 o gyflogeion y cwrs hwn. Cynhaliwyd sesiwn ar-lein i ddynion hefyd, 'Dynion ac Amrywiaeth Rhywedd'. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Mae'n bwysig nodi bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn cau. Yn 2017/18, adroddwyd bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 4.17%.  Yn 2018/19 a 2019/20, adroddwyd bod bwlch cyflog rhwng y rhywiau o 3.93%. Yn 2020/21, adroddwyd bod y bwlch hwnnw wedi lleihau ymhellach i 3.44%. | | |
| | 2.4.5 | Cam – Byddwn ni'n comisiynu gwaith ymchwil i ganfod effaith y mesurau mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn eu cyflwyno i ddiwygio budd-daliadau lles ar bobl leol, ac yn gweithio gyda phartneriaid i ganfod sut gallwn ni liniaru caledi ariannol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Comisiynwyd Polisi ar Waith ym mis Ebrill 2019 i ddatblygu traciwr teuluoedd incwm isel ar gyfer Castell-nedd Port Talbot. Wedi'i seilio i raddau helaeth ar wybodaeth am hawlwyr budd-dal tai a chymorth treth y cyngor, caiff y traciwr ei ddiweddaru bob chwarter er mwyn canfod aelwydydd incwm isel. Caiff y data hwn ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau ein bod yn deall y nodweddion sy'n gwneud pobl yn fregus ac yn gallu llywio cynllunio strategol, ochr yn ochr â rhoi cymorth priodol i'r rhai sydd â'r angen mwyaf. Adnewyddwyd contract gyda Pholisi ar Waith i ddarparu'r traciwr yn ystod cyfnod 2021/2022. | | |
| 2.5 Bydd pobl sydd angen gofal a | 2.5.1 | Cam – Byddwn ni'n datblygu ymhellach y "drws blaen" i wasanaethau cymdeithasol, gan sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth sy'n gydlynus | **Gwyrdd** |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cynnydd Camau 2020/21</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td rowspan="3">chefnogaeth yn cael help i ddatblygu eu gwydnwch, a mynediad at gefnogaeth yn eu cymuned. Os dim ond y gwasanaethau cymdeithasol sy’n gallu diwallu eu hanghenion, byddan nhw’n derbyn gwasanaethau personol ganddynt</td><td colspan="3">Cynnydd y Cam:<ul><li>Lluniwyd fersiwn derfynol o ffurflen atgyfeirio sengl i’w defnyddio gan y Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc a Gwasanaethau Oedolion. Deilliodd y ffurflen atgyfeirio hon o drefniant cydweithio rhwng gwahanol adrannau o’r staff Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd. Mae’r ffurflen yn hwyluso’r cyfle i afael mewn pryderon diogelu oedolion (oedd yn cael eu cofnodi ar wahân yn flaenorol). Lansiwyd y ffurflen atgyfeirio sengl ar 4 Chwefror 2020, a dechreuwyd ei defnyddio ar draws asiantaethau partner.</li><li>Roedd bwriad i lansio’r ‘Pwynt Cyswllt Unigol’ ar gyfer Oedolion a Phlant ar 1 Ebrill 2020, ond bu oedi oherwydd COVID-19, fodd bynnag, yn ystod haf 2020 rhoddwyd cyhoeddusrwydd i’r Model Gwasanaeth newydd a chynyddu ymwybyddiaeth ohono, ac mae atgyfeiriadau bellach yn cael eu derbyn trwy’r ffurflen atgyfeirio integredig. Mae gwaith wedi parhau i ddigwydd er mwyn integreiddio’r gwasanaeth drws blaen gymaint ag sy’n ymarferol bosibl, a rhyddhawyd cyfathrebiadau i randdeiliaid fel eu bod yn ymwybodol o’n ffurflen atgyfeirio integredig a’r manylion cyswllt. Mae’r gwasanaeth hefyd wedi symud i rif ffôn a chyfeiriad e-bost sengl integredig ar gyfer ymateb i’r holl atgyfeiriadau i’r Gwasanaethau Cymdeithasol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>2.5.2</td><td>Cam – Byddwn ni’n datblygu’r ddarpariaeth gofal cartref a gofal preswyl i bobl hŷn i sicrhau bod digon o leoliadau o safon ar gael i ddiwallu’r angen lleol</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynnydd y Cam:<ul><li>Prynwyd bloc o 33 o welyau cartref gofal i gefnogi’r llif o’r ysbyty ar ddechrau’r pandemig.</li><li>Cynhaliwyd cyfarfodydd wythnosol â darparwyr yn 2020/21 i gefnogi’r farchnad ofal, a chynhaliwyd cyswllt dyddiol â darparwyr a brofodd achosion o COVID-19.</li></ul></td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Sefydlwyd prosesau i ddarparu Cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'r sector gofal i liniaru'r pwysau ychwanegol o ran costau yn sgîl COVID-19.<br>• Sefydlwyd proses ar gyfer dosbarthu Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) i'r sector gofal.<br>• Sefydlwyd cofrestr gwirfoddolwyr o bobl o fewn y gyfarwyddiaeth er mwyn cefnogi darparwyr gofal oedd yn wynebu prinder staff aciwt yn sgîl COVID-19.<br>• Sefydlwyd grŵp comisiynu rhanbarthol i gefnogi cynaliadwyedd y sector.<br>• Datblygwyd cynlluniau wrth gefn ar gyfer gwasanaethau i sicrhau dilyniant gwasanaethau gofal ar hyd y pandemig.<br>• Mae'r holl staff gofal cartref (mewnol ac allanol) bellach wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a chynhaliodd 200+ o staff gofal cartref oedd wedi derbyn hyfforddiant COVID-19 ymweliadau misol â defnyddwyr gwasanaeth | | |
| | 2.5.3 | Cam – Byddwn yn datblygu ein gwasanaethau gofal canolraddol ymhellach er mwyn galluogi mwy o bobl i gadw ac adennill eu hannibyniaeth trwy roi'r model adferiad o'r ysbyty i'r cartref ar waith | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Adolygwyd y model o'r Ysbyty i'r Cartref yn ystod y pandemig a'i ail-lansio ar ffurf Rhyddhau Cyflym, a seiliwyd ar y model Rhyddhau i Adferiad ac Asesu.<br>• Ym mis Gorffennaf 2020, sefydlwyd tîm amlddisgyblaeth i frysbennu a sgrinio pob atgyfeiriad ysbyty i'r awdurdod lleol, er mwyn sicrhau bod pobl yn cael eu gweld gan y gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir a bod rhyddhau o'r ysbyty yn cael ei gefnogi'n ddiogel. Rhwng Gorffennaf 2020 a Mawrth 2021, rydym ni wedi cefnogi 571 o achosion o ryddhau o'r ysbyty. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Oherwydd pandemig COVID-19, nid oes data ar gael ar gyfer cyfradd y bobl sy’n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol. | | |
| | 2.5.4 | Cam – Byddwn ni’n datblygu ymhellach ein model seiliedig ar ddilyniant o ofal ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, anableddau dysgu ac anableddau corfforol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae gweithgor llwybr dilyniant yn cwrdd i edrych ar sut mae cefnogi pobl i symud ymlaen i wasanaethau byw’n fwy annibynnol, a sicrhau ein bod ni’n comisiynu’r modelau gofal cywir.<br>• Rydym ni’n parhau i weithio gyda LCCiaid (Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig) a darparwyr i ddatblygu modelau gofal newydd sy’n cefnogi dilyniant yn well.<br>• Rydym wedi sefydlu 3 uned o lety â chymorth ar gyfer pobl â iechyd meddwl gwael, a symudwyd 2 berson i mewn i’r cynllun hwn yn 2020/21.<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu gwasanaeth arbenigol byw â chymorth i 3 pherson ag anghenion ASD cymhleth.<br>• Comisiynwyd darparwr i gyflwyno gofal yn y gwasanaeth gofal ychwanegol newydd, y rhagwelir y bydd yn mynd yn fyw yn 2021/22.<br>• Datblygwyd uned ar gyfer lleoliadau brys. Bu ein gwasanaeth cyflogaeth a hyfforddiant ar gyfer oedolion ag anableddau, Bspoked Enterprises, yn cefnogi defnyddwyr gwasanaeth yn ystod y cyfnod clo trwy gynnal cwisiau, | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | gêmau, sgyrsiau cefnogi a sesiynau dysgu rhithwir. Hefyd bu'r staff yn cynnal sgyrsiau fideo wythnosol a galwadau ffôn i wirio'u lles cyffredinol. | | |
| | 2.5.5 | Cam – Byddwn ni'n adolygu'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu ar gyfer pobl â'r anghenion mwyaf cymhleth, i sicrhau eu bod yn parhau'n addas at y diben | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae'r Rhaglen Comisiynu ar gyfer Anghenion Cymhleth (dull gweithredu Rhanbarthol) yn parhau â'i hagenda i gyflawni dull gweithredu a rennir ar gyfer comisiynu, caffael a threfniadau marchnad i ddiwallu anghenion unigolion ag anghenion cymhleth, gan gynnwys:<br>➢ System frocera ranbarthol ar waith ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu i sicrhau gofal o ansawdd da am gost gynaliadwy<br>➢ Datblygu cynlluniau byw â chymorth – twf mewn capasiti a modelau cyflwyno gwasanaeth i ymateb i anghenion poblogaeth gynyddol o bobl ifanc sy'n pontio<br>➢ Cysylltiadau â chomisiynu i ddatblygu modelau cyflwyno gwasanaeth a nodi bylchau i gefnogi anghenion/blaenoriaethau newidiol yr unigolion hynny rydym ni'n eu cefnogi, â ffocws ar fodel gwasanaeth seiliedig ar ddilyniant, yn ogystal â darpariaeth arbenigol o safon uchel ar gyfer anableddau dysgu a iechyd meddwl<br>• Rydym ni'n parhau i fesur canlyniadau i'r bobl â'r anghenion mwyaf cymhleth fesul achos, ac mae'r ffocws yn parhau ar asesiadau canlyniadau o safon, cynllunio gofal ac adolygiadau. | | |
| 2.6 Bydd pobl yn gallu lleisio barn | 2.6.1 | Cam – Byddwn ni'n rhoi'r Strategaeth Ranbarthol ar y Cyd ar gyfer Gofalwyr ar waith gyda'n partneriaid iechyd | **Gwyrdd** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 2 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| ar faterion sy'n effeithio arnyn nhw, a lle mae angen help ar bobl i leisio barn, bydd cefnogaeth ar gael ar ffurf eiriolaeth | **Cynnydd y Cam:**<br>• Gwahoddodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot y trigolion i ymuno yn ymgyrch Wythnos Gofalwyr (8-14 Mehefin 2020) i gydnabod y cyfraniad hanfodol a wneir gan yr 20,000 o ofalwyr di-dâl yn y fwrdeistref.<br>• Darparwyd PPE i ofalwyr di-dâl trwy'r Gwasanaeth Gofalwyr.<br>• Datblygwyd Strategaeth Ranbarthol i Ofalwyr Gorllewin Morgannwg a sefydlwyd gweithgorau rhanbarthol i symud blaenoriaethau'r strategaeth ymlaen.<br>• Ymrwymodd y Cyngor i egwyddorion y canllawiau cynllunio gweithredu brys, er mwyn sicrhau bod gofalwyr yn cael eu hystyried wrth ddatblygu a gweithredu mesurau brys ynghylch COVID -19.<br>• Mae cerdyn adnabod newydd wedi cael ei lansio yng Nghastell-nedd Port Talbot i sicrhau bod gofalwyr ifanc yn cael eu cydnabod am eu rôl yn gofalu am aelodau o'r teulu. | | |
| | 2.6.2 | Cam – Byddwn ni'n gwreiddio dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar gyfer pobl hŷn a phobl anabl ar draws y Cyngor, ac yn sicrhau bod pobl yn cael mynediad at gefnogaeth ar ffurf eiriolaeth lle bo angen hynny | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Lle nodir bod angen eiriolydd ar rywun, gwneir trefniadau i benodi un. Mae gan y Cyngor gontract gweithredol ar gyfer gwasanaeth eiriolaeth. Rydym wedi mabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar hawliau ar draws y gwasanaeth. | | |

Ceir gwybodaeth fanylach a sylwadau ar berfformiad yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2018/19 Gwirioneddol | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2020/21 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 20/21 | Perff. CAG yn erbyn 19/20 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **2 Amcan Llesiant 2 – Gwella Llesiant yr holl oedolion sy'n byw yn y fwrdeistref sirol** | | | | | | |
| CP/019 – Diogelwch Ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol – anafiadau i feicwyr pedal (Pob Oed)<br>***Mae'r data ar gyfer blwyddyn galendr, h.y. mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2020.*** | 3 | 0 | 1 | **Targedau wedi'u cyflawni** | | **Amh** |
| CP/021 – Nifer yr ymholiadau cychwyn busnes newydd a gynorthwywyd | 392 | 273 | 199 | 340 | Coch | Coch |
| CP/024 – Cymunedau dros waith – Nifer y bobl a gafodd eu cynorthwyo i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli | 260 | 434 | 87 | 290 | **Amh Anghymaradwy** | **Amh Anghymaradwy** |
| 290 yw targed y Cynllun Corfforaethol, a bennwyd yng ngwanwyn 2019. Ers hynny mae wedi cael ei ddiwygio gan Lywodraeth Cymru i 88 yn dilyn newid yn y dull o gofnodi data ar gyfer y mesur hwn | | | | | | |
| CP/025 – Nifer y swyddi a gafodd eu dileu yn orfodol gan y Cyngor | 9 | 9 | 2 | Ni phennwyd targed | **Amh** | Gwyrdd |
| CP/031 - PAM/012 – Canran yr aelwydydd y llwyddwyd i'w hatal rhag bod yn ddigartref | 53.14 | 51.50 | 66.67 | 60.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/032 – PAM/015 – Nifer y diwrnodau calendr a gymerwyd ar gyfartaledd i gyflawni Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 232.43 | 196.00 | 363.20 | 230.00 | Coch | Coch |
| CP/034 – Canran yr achosion o gam-drin domestig lle mae pobl yn ddioddefwyr eildro – Gwasanaeth yr Ymgynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) – y dioddefwyr sy'n wynebu'r risg uchaf | 38.56 | 40.05 | 37.3 | 33.00 | Coch | Gwyrdd |
| CP/040 – Diogelwch ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Gyrwyr Hŷn (75 oed a throsodd) | 2 | 0 | 0 | **Cyflawnwyd Targedau LlC** | | **Amh** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ***Mae'r data ar gyfer blwyddyn galendr, h.y. mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2020.*** | | | | | | |
| CP/041 – Diogelwch ffyrdd – Lladd neu anafu'n ddifrifol: Beicwyr Modur – pob oed<br>***Mae'r data ar gyfer blwyddyn galendr, h.y. mae data 2020/21 ar gyfer blwyddyn galendr 2020.*** | 8 | 6 | 1 | **Cyflawnwyd Targedau LlC** | | **Amh** |
| CP/042 - PAM/023 – Canran y sefydliadau bwyd sy'n bodloni safonau hylendid bwyd | 93.92 | 95.15 | 96.00 | 95.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/048 - PAM/025 - Mesur 19 – Cyfradd y bobl sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty wrth ddisgwyl am ofal cymdeithasol, fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed | 6.29 | 10.05 | Dim data oherwydd COVID-19 | 3.50 | **Amh** | **Amh** |
| CP/110 - Gweithffyrdd+ - Nifer y bobl a gynorthwywyd i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli | 139 | 127 | 58 | 72 | Coch | Coch |
| CP/111 – Cymunedau dros Waith a Mwy – Nifer y bobl a gynorthwywyd i ddychwelyd i waith, hyfforddiant neu wirfoddoli | Amh Newydd | 844 | 258 | 150 | Gwyrdd | **Amh Anghymaradwy** |
| CP/112- PAM/013 – Canran yr eiddo preifat gwag y dechreuwyd eu hailddefnyddio | 0.57 | Dim data oherwydd COVID-19 | Dim data oherwydd COVID-19 | 4.30 | **Amh** | **Amh** |

## 6. Amcan Llesiant 3 – Cynnydd yn 2020/21



**Amcan Llesiant 3:** Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl:

*"Bydd bwrdeistref sirol gyfan Castell-nedd Port Talbot yn lle bywiog, iach a diogel i fyw, gweithio a mwynhau amser hamdden ynddo"*

| **Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol:** | |
|---|---|
| **Cymru lewyrchus** | Mae'r amcan llesiant yn nodi ystod o gamau arfaethedig i greu cyflogaeth cynaliadwy o safon trwy weithio'n lleol ac yn rhanbarthol. Mae nifer o'r prosiectau Bargen Ddinesig arfaethedig yn canolbwyntio ar dechnolegau carbon isel a chreu gallu i wneud yn fawr o botensial technolegau digidol. |
| **Cymru iachach** | Mae'r blaenoriaethau'n arddangos dealltwriaeth gadarn o benderfynyddion llesiant a'r pwerau sydd ar gael i'r Cyngor i effeithio ar y penderfynyddion hynny. |
| **Cymru o gymunedau cydlynus** | Mae'r blaenoriaethau a nodir yn yr adran hon yn darparu sylfaen ar gyfer yr amcanion i blant a phobl ifanc ac oedolion mewn amrywiaeth o ffyrdd – trwy sicrhau cysylltedd, argaeledd cyflogaeth yn lleol, cyfleoedd ar gyfer hamdden, diogelu'r amgylchedd a sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn ddeniadol i fuddsoddwyr. |

| Sut mae'r amcan llesiant hwn yn cyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol: | |
|---|---|
| **Cymru gydnerth** | Mae'r blaenoriaethau yn cyfeirio at yr adrannau pwysig yn ein Cynllun Datblygu Lleol a fu'n destun arfarniadau cynaliadwyedd llawn ac yn dangos sut bydd y polisïau hynny'n darparu sylfaen ar gyfer amcanion y Cyngor yng nghyswllt gwella llesiant cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol ei breswylwyr. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal** | Datblygwyd y blaenoriaethau i greu mwy o gyfle i bawb wneud cynnydd mewn bywyd. Mae hyn yn cynnwys: cyfle i sicrhau cyflogaeth o safon, mannau diogel a glân lle gall pobl fyw a magu eu teuluoedd ac ystod eang o ddewisiadau ar gyfer cymryd rhan mewn digwyddiadau diwylliannol. |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | Mae pwysigrwydd safleoedd treftadaeth lleol a'r rhan sydd gan y rhain i'w chwarae wrth gynnal diwylliant yn rhan o'r blaenoriaethau, fel y mae adfywio cymunedau'r cymoedd. Mae gweithio gyda chymunedau yn cael lle amlwg fel thema yn yr adran hon, fel yn yr adrannau blaenorol. |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** | Ymhlith y blaenoriaethau mae lleihau'r gwastraff a gynhyrchir a chynyddu ailgylchu, yn ogystal â chyflawni ystod o gamau i ddiogelu a datblygu asedau naturiol y fwrdeistref sirol. Mae pwysigrwydd cynyddol technolegau digidol ac ynni newydd (e.e. cysyniad pŵer solar "Adeiladau Gweithredol") hefyd yn cael eu hymgorffori i'r gwaith arfaethedig. |

***Astudiaeth Achos:*** *Teithio Llesol – gwelliant o 3.1km i lwybr NCN47/46 Camlas Nedd (Castell-nedd i'r Tonna)*

***Cefndir:*** *Trwy uwchraddio a chreu llwybrau cerdded a beicio newydd, mae'r Cyngor yn bwriadu sicrhau mai Teithio Llesol yw'r dull "normal" o gyflawni teithiau lleol, gan wella ansawdd aer, hybu ffyrdd iachach o fyw, a gwneud cymunedau lleol yn fwy deniadol fel lleoedd i fyw a gweithio.*
*Ystyr **'Teithio Llesol'** yw cerdded a beicio er mwyn cyrraedd cyrchfan (gelwir hyn hefyd yn 'deithiau pwrpasol'), ac mae hynny'n cynnwys teithiau i'r ysgol, i'r gwaith neu i gael mynediad i siopau neu wasanaethau. Yn ystod 2020/21 fe wnaethon ni ychwanegu 3.75Km at y llwybrau beicio hygyrch, 6.63Km o gynnwys 2019/20. O'r rhain roedd 3.1km yn welliant i lwybr NCN47/46 Camlas Nedd (Castell-nedd i'r Tonna) a 3.5km yn welliant i'r llwybr NCN43 Pontardawe.*

***Sut mae'r gwaith hwn yn bodloni 5 ffordd o weithio egwyddor datblygu cynaliadwy:***

- ***Hirdymor –*** *Mae'r Map drafft o'r Rhwydwaith Teithio Llesol Diwygiedig (ATNM) yn nodi llwybrau sydd eisoes yn bodoli a dyheadau. Mae Teithio Llesol yn ffactor cadarnhaol pwysig wrth wella llesiant pobl yn y tymor hir, trwy helpu i leihau traffig cerbydau ar y ffyrdd a hybu ymarfer corff yn yr awyr agored.*
- ***Integreiddio –*** *Paratowyd yr ATNM Diwygiedig drafft yng nghyd-destun cynlluniau a chynigion sydd eisoes yn bodoli, gan sicrhau y bydd wedi'i integreiddio'n llawn â phob cynllun, menter a strategaeth arall perthnasol, gan weithio tuag at yr un amcanion llesiant. Mae gan Deithio Llesol gam penodol yng nghynllun corfforaethol y Cyngor i wella Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol, fel bod modd gwella llesiant pobl.*
- ***Cynnwys –*** *Datblygwyd yr ATNM Diwygiedig drafft mewn ymgynghoriad â swyddogion ar draws y Cyngor, aelodau etholedig, awdurdodau cymdogol a Llywodraeth Cymru. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus llawn yn cynnwys y cyhoedd yn gyffredinol, cyrff a sefydliadau eraill a rhanddeiliaid ymhellach er mwyn dylanwadu ar newidiadau ac addasiadau i'r Map o'r Rhwydwaith.*
- ***Cydweithio –*** *Bydd y prosesau ymgynghori a gynhelir wrth baratoi'r ATNM Diwygiedig drafft yn sicrhau bod cydweithio llawn wedi digwydd â rhanddeiliaid a phartneriaid wrth ddatblygu'r mapiau diwygiedig, gan gynnwys sefydliadau o'r sectorau cyhoeddus, preifat a chymunedol/gwirfoddol.*
- ***Ataliaeth –*** *Mae'r ATNM yn sicrhau bod y map o'r rhwydwaith yn parhau'n berthnasol, yn hygyrch a bod modd ei ddefnyddio, a'i fod yn cael ei ddatblygu yn y dyfodol i ymateb i anghenion a dyheadau newidiol. Dylai'r ymgynghoriad a gynigir helpu i sicrhau bod hyn yn parhau i dderbyn sylw, a bod problemau'n cael eu nodi ac yn gallu derbyn sylw lle bo modd a lle bo hynny'n berthnasol, gan helpu i atal problemau rhag codi neu gynyddu yn y dyfodol.*

***Canlyniad defnyddiwr gwasanaeth:***
***Adborth gan un o drigolion Castell-nedd Port Talbot:*** *"Rwyf wedi beicio ar hyd llwybr halio'r gamlas rhwng Tonna a Llansawel ers blynyddoedd lawer, i gymudo ac ar gyfer hamdden. Mae'r wyneb Tarmac a roddwyd ar y llwybr yn ddiweddar yn welliant mawr o gymharu â'r hen arwyneb, a oedd yn arw ac yn anwastad iawn. Dim ond beic mynydd neu hybrid allai fynd ar hyd yr hen arwyneb, ond mae'r arwyneb newydd yn agor y llwybr i bob math o feiciau, gan gynnwys beiciau ffordd â theiars cul. Mae'r arwyneb newydd yma'n golygu bod modd nawr i bobl gymudo i'r gwaith heb fod mewn perygl o dyllu eu teiars ar hyd y ffordd. Fy nghyngor i i'r Cyngor yw bod rhaid cynnal y gwelliant yma nawr, ac mae angen ei sgubo'n rheolaidd i atal unrhyw wydr rhag cronni, gan y byddai hynny'n dinistrio'r gwaith caled a wnaed ar y gwelliant hwn."*

**Cynnydd cyffredinol Amcan Llesiant 3:**

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cynnydd Camau 2020/21</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td rowspan="2">3.1 Byddwn ni'n darparu amgylchedd lle gall busnesau newydd ymsefydlu a lle gall busnesau presennol dyfu</td><td>3.1.1</td><td>Cam – Byddwn ni'n cyflawni rhaglenni adfywio strategol</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynnydd y Cam:<ul><li>Dechreuodd gwaith i adfywio Safle Cyflogaeth Strategol Glannau'r Harbwr yn ardal y dociau gynt ym Mhort Talbot ym mis Mawrth 2021.</li><li>Mae gwaith i drawsnewid hen ffatri eiconig Metal Box yng Nghastell-nedd (Adeilad Crown) yn barth busnes i greu swyddi yn mynd rhagddo'n dda, ac mae nifer o swyddfeydd wedi'u hadnewyddu ar gael i'w gosod ar y safle. Erbyn diwedd Mawrth 2021, mae hanner y gofod diwydiannol ym meddiant cwmni lleol.</li><li>Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, dechreuodd gwaith adeiladu i ddatblygu canol tref Castell-nedd a buddsoddi miliynau o bunnoedd mewn gwaith adnewyddu. Bydd y prosiect yn cyflwyno parth hamdden, llesiant, siopa a dysgu o bwys ar gyfer canol tref Castell-nedd, gyda phwll nofio, campfa, ystafelloedd iechyd, arwynebedd llawr manwerthu a llyfrgell fodern. Mae'r gwaith dur yn cael ei godi, ac mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n unol â'r cynllun.</li><li>Mae gwaith wedi bod yn parhau i drawsffurfio adeilad rhestredig Gradd II Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot yn ganolbwynt cymunedol gyda chaffi, campfa, swyddfeydd, neuadd, ystafelloedd amlbwrpas, ardal gynadledda, stiwdio recordio digidol a siopau. Erbyn diwedd Mawrth 2021, roedd y gwaith ar y safle yn dod ymlaen yn dda ac roedd y gwaith dur wedi cael ei godi.</li></ul></td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i ailddatblygu 8 Stryd y Gwynt, Castell-nedd i greu gofod busnes newydd. Bu oedi gyda'r gwaith adnewyddu oherwydd nifer o faterion strwythurol oedd heb eu rhagweld, ond erbyn diwedd Mawrth 2021 roedd y rhain i gyd wedi derbyn sylw, ac roedd gwaith ar y safle mynd ymlaen yn dda.<br>• Cafodd cyfanswm o 38,000 metr sgwâr o swyddfeydd a safleoedd diwydiant ysgafn eu cyflwyno ar gyfer ehangu mewnfuddsoddi.<br>• Mae 25,000 troedfedd sgwâr o swyddfeydd a labordai newydd yn cael eu creu ar Barc Ynni Baglan, ar ffurf Canolfan Dechnoleg y Bae, a fydd yn adeilad carbon positif fel rhan o'r Fargen Ddinesig. Erbyn diwedd Mawrth 2021, roedd y gwaith dur wedi cael ei godi, ac roedd y gwaith adeiladu'n mynd rhagddo'n dda.<br>• Mae cyflenwadau pŵer Canol Tref yn cael eu gosod ar hyn o bryd yng Nghastell-nedd, Pontardawe a Glyn-nedd er mwyn annog mwy o ddigwyddiadau ar y stryd a marchnadoedd. Ar ben hynny, mae rhwystrau arafu llif cerbydau yn cael eu gosod yng Nghastell-nedd a Phort Talbot am yr un rheswm.<br>• Mae marchnad fisol Port Talbot ar yr Hwb Trafnidiaeth yn dal yn llwyddiannus. | | |
| | 3.1.2 | Cam – Byddwn ni'n mwyafu'r cyfleoedd ariannu i gefnogi cyflwyno rhaglenni adfywio strategol y Cyngor | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Rydym ni'n parhau i gysylltu â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig i sicrhau ein bod ni'n cyflwyno cais ac yn sicrhau cyllid ar gyfer rhaglenni adfywio. Mae hynny'n cynnwys:<br>• £850k trwy elfen Grantiau Datblygu a Gwella Eiddo (PEDG) y Buddsoddiad Adfywio wedi'i Dargedu (TRI).<br>• £250k o'r Grantiau Byw Cynaliadwy (SLG). | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Dechreuwyd datblygu 2 gynnig i'w cyflwyno i Lywodraeth y Deyrnas Unedig o dan y Gronfa Codi'r Gwastad er mwyn gwella ein hamgylcheddau trefol a'r Gronfa Adfywio Cymunedol ar gyfer prosiectau i gefnogi twf busnes ac arloesedd a darparu cymorth cyflogaeth i'r rhai sy'n awyddus i fynd i'r farchnad lafur.<br>• Byddwn ni'n cyflwyno cynigion am gyllid mewn perthynas â Rhaglen Trawsffurfio Trefi Llywodraeth Cymru.<br>• Rydym yn parhau i fonitro cyllid strategol amgen i gymryd lle cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewrop (ESI) wedi Brexit er mwyn cefnogi cynigion adfywio blaenoriaeth y cyngor. Rydym yn parhau i ddatblygu'r achosion busnes a'r trefniadau llywodraethu i sicrhau cyllid o Fargen Ddinesig Bae Abertawe ar gyfer: Cartrefi sy'n Bwerdai a Chefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel. | | |
| | 3.1.3 | Cam – Byddwn ni'n cefnogi busnesau hen a newydd i dyfu'r economi leol a denu buddsoddiad newydd | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Ym mis Medi 2020 dechreuodd y gwaith adeiladu ar ganolfan dechnoleg hunanbwerus â'r cyfleusterau diweddaraf ar safle Cyngor Castell-nedd Port Talbot ym Mharc Ynni Baglan. Bydd y cyfleuster gwyrdd blaengar yn darparu swyddfeydd hyblyg ar gyfer cwmnïau newydd a busnesau lleol sy'n tyfu, gyda ffocws ar y sectorau Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd (er nad yn ddieithriad).<br>• Mae'r cyd-drafod i ailddatblygu safle Iard Burrows wedi cyrraedd lefel ddatblygedig. Rhagwelir y bydd y datblygwyr yn cyflwyno cais cynllunio yn 2022.<br>• Rydym wedi gweithio gyda 37 o gwmnïau mewnfuddsoddi a brodorol newydd i fuddsoddi mewn cynlluniau twf ac arallgyfeirio a fydd yn helpu i sicrhau eu dyfodol neu'n annog adleoli i CNPT, ac yn creu/diogelu mwy na 220 o swyddi. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Roedd 470 o swyddi wedi cael eu creu neu eu diogelu o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol, sy'n uwch na'r targed o 280. Er gwaethaf ansicrwydd economaidd COVID-19 a'r anawsterau mae llawer o'n busnesau lleol wedi'u hwynebu ar hyd y pandemig, mae llawer o gwmnïau gweithgynhyrchu lleol wedi bod yn buddsoddi mewn cynlluniau twf ac arallgyfeirio i helpu i ddiogelu eu dyfodol. | | |
| | 3.1.4 | Cam – Byddwn ni'n nodi cyfleoedd cadwyn gyflenwi ar gyfer cwmnïau lleol fel rhan o ddatblygiadau pwysig yn y fwrdeistref sirol | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Er gwaethaf sefyllfa COVID-19, roedd 2020/21 yn flwyddyn eithriadol o brysur gyda 12 prosiect ac is-gontractau niferus yn symud ymlaen ar wahanol gyfnodau, o gymharu â 4 prosiect y flwyddyn flaenorol. Er bod rhai prosiectau wedi arafu ar y cychwyn yn chwarter cyntaf 20/21, cynyddodd y gweithgaredd yn sylweddol wrth i'r flwyddyn fynd y ei blaen, fel bod 57% o'r holl gontractau yn cael eu dyfarnu i gwmnïau lleol | | |
| 3.2 Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i gynyddu ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio | 3.2.1 | Cam – Byddwn ni'n adolygu ac yn mireinio ein strategaeth rheoli gwastraff yng nghyd-destun cyflawni yn erbyn y targedau statudol | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae data gwastraff 2020/21 yn ddata dros dro<br>• Er gwaethaf pandemig COVID-19, mae camau gweithredu'r Cyngor o dan ei strategaeth wastraff, gyda chymorth trigolion a chwsmeriaid busnes sydd wedi bod yn gweithredu, wedi cyflwyno gwelliant o fwy na 5% yn y ffigur pennawd ailgylchu. Mae 67.56% o'r gwastraff wedi cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fel bod sefyllfa'r Cyngor yn gyfforddus uwch na'r targed statudol cyfredol, sef 64%. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Serch hynny, gwelwyd cynnydd yn y cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person yn 2020/21, i 210 o gilogramau (182 cilogram yn 2019/20). O ganlyniad i achosion COVID-19, roedd mwy o bobl wedi'u cyfyngu i weithio neu aros gartref, a arweiniodd at gyflwyno mwy o ailgylchu a gwastraff i'w casglu o ymyl y ffordd. Bydd i ba raddau mae'r duedd yma'n parhau yn dod yn fwy amlwg wrth i ni symud ymlaen.<br>• Ym mis Mawrth 2020 fe gaewyd ein Canolfannau Ailgylchu Gwastraff. Ailagorodd y Canolfannau Ailgylchu i'r cyhoedd ar 26 Mai 2020, gyda nifer o fesurau COVID-19 yn eu lle, a bellach mae system archebu ar-lein ar gyfer trigolion sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth hwn.<br>• Penderfyniad gan y Cabinet ar 25 Mehefin 2020 ynghylch defnyddio'r Ganolfan Adennill Deunyddiau ac Ynni yn y dyfodol fel Gorsaf Drosglwyddo gyda gallu uwch i ailgylchu. Mae prosiect i ailfodelu'r tu mewn i'r cyfleuster yn y cam dylunio manwl ar hyn o bryd, ac mae disgwyl iddo gael ei gwblhau yn 2022.<br>• Ar gyfartaledd fe wnaethon ni leihau'r amser a gymerir i glirio sbwriel a ollyngwyd o 2.97 diwrnod yn 2019/20 i 2.84 diwrnod yn 2020/21. Fodd bynnag, fe welson ni gynnydd yn y sbwriel a ollyngwyd o 901 o achosion yn 2019/20 i 1,566 yn 2020/21. Digwyddodd y cynnydd hwn ar ddechrau cyfnod clo'r pandemig byd-eang, er i'r Cyngor atal cyfyngiadau ar gyflwyno gormod o wastraff.<br>• Daliwyd ati i gymryd camau gorfodi lle cafodd gwastraff ei ollwng yn anghyfreithlon. Yn ystod 2020/21, cymerwyd camau gorfodi yn erbyn 13 o unigolion.<br>• Buom ni hefyd yn cymryd rhan mewn menter amlasiantaeth i daclo cludwyr gwastraff anghyfreithlon.<br>• Mae 91% o'n strydoedd yn lân, sydd ychydig yn is nag alldro 2019/20, sef 94%. | | |
| 3.3 Gall pobl leol ac ymwelwyr gael | 3.3.1 | Cam – Byddwn ni'n nodi cyfleoedd i fuddsoddi mewn twristiaeth ar gyfer y sector preifat a chyhoeddus | **Ambr** |
| | | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| mynediad at gyfleusterau hamdden a chymunedol da, parciau gwledig a chefn gwlad | **Cynnydd y Cam:**<br>• Bu'r Tîm Twristiaeth yn darparu cyngor ac arweiniad parhaus i fusnesau sector twristiaeth ynghylch cymorth ariannol COVID-19 a gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector Twristiaeth a Lletygarwch. Cafodd llawer o'r 53 busnes hyn eu cynorthwyo sawl gwaith yn ystod y flwyddyn.<br>• Bu'r tîm yn rheoli'r broses ar gyfer cyflwyno Tystysgrifau Esemptiad (mewn partneriaeth â Iechyd Amgylcheddol) fel bod modd i ddarparwyr llety roi lle i unigolion cymwys (megis gweithwyr allweddol) yn ystod cyfnodau clo COVID-19.<br>• Cynhaliodd y Tîm hefyd ddau ddigwyddiad hyfforddi ar-lein yn ymwneud ag ymgyrchoedd marchnata a chyfryngau cymdeithasol. Oherwydd effaith economaidd COVID-19, gwelwyd gostyngiad yn yr ymholiadau gan fusnesau twristiaeth newydd o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, ond cynorthwywyd 3 gweithredydd twristiaeth newydd yn 2020/21. | | |
| | 3.3.2 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i adnewyddu, atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a strwythurau sy'n bwysig yn lleol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Cwblhawyd prosiect gwaith amddiffyn yr arfordir gwerth miliynau lawer o bunnoedd ar Lan Môr Aberafan ym mis Mehefin 2020, gan sicrhau y bydd yr atyniad poblogaidd yn ei le am genedlaethau i ddod, er gwaethaf ergydion y llanw. Fel rhan o'r cynllun gwnaed gwaith atgyweirio concrid strwythurol ar waliau presennol y môr, yr amddiffyniadau ar y gwaelod (rhan isaf y wal forol, oedd yn galw am 30,000 o greigiau amddiffynnol) a gwella mynediad, gan gynnwys slipffordd newydd ym mhen gorllewinol y promenâd. Roedd y gwaith yn rhan o Raglen Rheoli Risg Arfordirol Llywodraeth Cymru i Gymru gyfan. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Mae gwaith yn parhau ar hen Sinema'r Plaza ym Mhort Talbot.  Mae'r prosiect i greu canolfan ddiwylliannol a busnes newydd amlddefnydd yn cynnwys adnewyddu'r blaen art-deco eiconig a'r cyntedd wrth fynd i mewn.<br>• Rydym ni'n gwneud gwaith adnewyddu ar amrywiol rannau o waith cerrig Castell Margam fel rhaglen gynnal a chadw barhaus.<br>• Mae prosiect y Tŷ Tyrbin hanesyddol ym Mharc Margam yn agos at gael ei gwblhau. Bydd yn darparu cipolwg unigryw ac addysgiadol ar un o'r ymdrechion cynharaf yn y Deyrnas Unedig i ddarparu trydan at ddefnydd domestig trwy bŵer dŵr.<br>• Ym mis Tachwedd 2020, codwyd pont amnewid Afon Blaengwrach i'w lle, gan adfer y ddolen gyswllt hanfodol rhwng Blaengwrach, Cwmgwrach a Glyn-nedd.<br>• Cynhaliwyd 41 o archwiliadau ar brif bontydd a 192 o archwiliadau pontydd cyffredinol yn ystod 2020/21. | | |
| | 3.3.3 | Cam – Byddwn ni'n datblygu ac yn hyrwyddo'r sector twristiaeth lleol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Dechreuodd gwaith ar y Pad Sblasio cyffrous i gymryd lle'r Aquasplash. Bydd yr atyniad newydd yn cynnwys amrywiaeth o fwy na 30 o nodweddion dŵr cyffrous, gan gynnwys ffynhonnau, jetiau a "rhaeadrau".<br>• Cymeradwyodd Bwrdd y Cabinet brif gynllun o welliannau ym Mharc Gwledig hanesyddol Ystâd y Gnoll yng Nghastell-nedd – bydd y gwelliannau a flaenoriaethwyd yn cael eu cyflwyno yn ystod 2021/2022.<br>• Mae prosiect i ailddylunio llwybrau beiciau mynydd ym Mharc Gwledig Margam wedi cael ei gwblhau.<br>• Agorodd Lle Chwarae Antur Parc Margam i blant 6-12 oed, sydd wedi'i ddylunio o'r newydd ac ar gael i'w ddefnyddio am ddim, yn haf 2020. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Bu'r Tîm Twristiaeth yn gweithio gyda phartneriaid cyrchfannau megis Cyfoeth Naturiol Cymru a Pharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i reoli llif ymwelwyr yn ystod amrywiol gyfnodau clo COVID-19 ac wrth i'r economi ymwelwyr ailagor. Roedd hyn yn galw am roi cyhoeddusrwydd i lwybrau oedd ar gau oherwydd cyfnod clo COVID-19 a chyflwyno mesurau i leihau effeithiau niferoedd sylweddol o ymwelwyr ar gymunedau lleol, wedi i gyfyngiadau'r cyfnod clo gael eu llacio.<br>• Cwblhawyd gwaith ar Hwb Bro Nedd ym Maes Parcio Camlas Resolfen. Creodd y gwaith gyfleusterau toiledau cyhoeddus wedi'u hadnewyddu a darpariaeth caffi newydd ar y safle. Sicrhawyd cyllid ar gyfer y cynllun hwn yn ystod 2019/20 o Gynllun Seilwaith Amwynder Twristiaeth Croeso Cymru, gydag ariannu cyfatebol gan y Cyngor.<br>• Sicrhawyd £268,000 o gyllid gan Barc Rhanbarthol y Cymoedd i ddynodi Parc Coedwig Afan yn Borth i Barc Rhanbarthol y Cymoedd, a bydd y buddsoddiad yn fodd i adnewyddu'r toiledau cyhoeddus a'r cawodydd ar y safle, i greu ardal chwarae hygyrch i blant, mwy o le i geir barcio, gosod pwynt gwefru i gerbydau trydan, a 2/3 phwynt cyswllt i gartrefi modur.<br>• Rydym wedi gweithio mewn partneriaeth â Cyfoeth Naturiol Cymru i ddechrau'r broses o ddyfeisio 'prif gynllun' ar gyfer datblygu Parc Coedwig Afan yn y dyfodol fel cyrchfan i ymwelwyr. Bydd yr ymgynghori ar y prif gynllun yn digwydd yn 2021/2022.<br>• Cwblhawyd arolwg stoc gwelyau hefyd i ganfod darlun cywir o'r ddarpariaeth lety yng Nghastell-nedd Port Talbot.<br>• Cafodd Gŵyl Bwyd a Diod Castell-nedd, sydd fel arfer yn digwydd dros dri diwrnod ym mis Hydref, ei chanslo eleni oherwydd y pandemig. Mae'r ŵyl wedi bod yn llwyddiant mawr ers ei sefydlu yn 2009. | | |
| | 3.3.4 | Cam – Byddwn ni'n datblygu'r modelau gwasanaeth sy'n cefnogi ein gwasanaethau hamdden, ein theatrau a'n parciau fel bod llifoedd incwm newydd yn cefnogi eu gweithrediad a'u bod yn llai dibynnol ar gymhorthdal gan y Cyngor | **Ambr** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Y bwriad oedd cynnig y ddarpariaeth gwasanaethau hamdden i'r farchnad ym mis Medi/Hydref 2020, gyda'r nod o gychwyn ar gontract newydd ym mis Ionawr 2021. Fodd bynnag, bu oedi gyda hynny, a'r bwriad yw bod contract newydd yn ei le erbyn diwedd 2021/ Ionawr 2022.<br>• Cyflwynwyd datganiad i'r wasg yn ystod cyfnod clo byr mis Hydref 2020, gan dynnu sylw at amrywiaeth ein llyfrgelloedd o lyfrau am ddim ar-lein, ac ar 1 Mawrth 2021, lansiodd ein gwasanaeth llyfrgelloedd PressReader, gwasanaeth tanysgrifio am ddim i aelodau'r llyfrgell leol.<br>• Oherwydd y pandemig nid adroddwyd unrhyw ddata ymwelwyr ar gyfer ein canolfannau hamdden yn 2020/21. Bydd data'n ymwneud â chanran y dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd ar gael ym mis Tachwedd 2021. | | |
| | 3.3.5 | Cam – Byddwn ni'n datblygu'r hyn y mae ein theatrau'n ei gynnig i ddenu ystod eang o berfformiadau a chyflwyniadau | **Coch** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Oherwydd y pandemig arhosodd ein theatrau ar gau ar hyd 2020/21 ac o ganlyniad nid oes gennym ddata ar gyfer 2020/21 sy'n mesur nifer yr ymwelwyr â'n theatrau. | | |
| | 3.3.6 | Cam – Gweithio ac ymgysylltu â chymunedau lleol a phartneriaid ehangach i gyflwyno rhaglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi cyfranogiad pobl leol yn ein hamgylchedd naturiol | **Gwyrdd** |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Cwblhawyd y 'Prosiect Gweithio gyda Natur' a dderbyniodd arian grant, ac yn ystod y tair blynedd, ymgysylltwyd â 776 o bobl trwy gyfranogiad mewn gweithgareddau cadwraeth a llesiant yn yr amgylchedd naturiol. Rhoddodd dros 30 o bobl eu henwau i lawr i wirfoddoli, a bu grŵp rheolaidd yn ymwneud yn weithredol â rheoli safleoedd ar draws Castell-nedd Port Talbot, gan gefnogi rheolaeth cadwraeth natur ar 21 o safleoedd.<br>• Cyflawnwyd mwy o gefnogaeth ar gyfer Partneriaeth Natur Lleol CNPT (LNP) trwy brosiect partneriaeth LNP Cymru, a ariannwyd gan gronfa Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru. Mae'r prosiect wedi sefydlu Cydlynydd LNP i gefnogi'r bartneriaeth i symud ymlaen gydag ymchwil bioamrywiaeth a gweithredu i hybu cadwraeth bioamrywiaeth yn CNPT.<br>• Sicrhawyd cyllid o Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i gyflawni prosiect y Mawndiroedd Coll ym mhen uchaf Cwm Afan a Chwm Rhondda. Bydd y prosiect yn adfer mawndir ar raddfa tirwedd, gan gefnogi atafaelu carbon naturiol a gwella bioamrywiaeth, ochr yn ochr ag ymgysylltu â'r gymuned, hyfforddiant a gweithgareddau llesiant. Cychwynnodd cyfnod datblygu'r prosiect ym mis Mehefin 2019, gan weithio tuag at gyflwyniad cyllido ar gyfer cyfnod cyflawni o 4 blynedd, yn cychwyn ym mis Gorffennaf 2021.<br>• Gan weithio ochr yn ochr â Chyfeillion Craig Gwladus, cyflwynwyd rhaglen o gefnogi gwirfoddolwyr, ymgysylltu â'r gymuned a gweithgareddau llesiant ym Mharc Gwledig Craig Gwladus. Sicrhawyd arian grant i gyflogi Rheolwr Prosiect a fydd â throsolwg ar ofynion yr arian grant, yn cefnogi'r grŵp, ac yn datblygu syniadau ar gyfer cyfleoedd ariannu mwy tymor hir i'r parc.<br>• Anogodd ein tîm Cefn Gwlad a Bywyd Gwyllt deuluoedd i gymryd rhan yn eu her bywyd gwyllt feunyddiol, gyda'r nod o godi ysbryd pobl yn ystod y cyfnod clo cenedlaethol cyntaf.<br>• Fe fuon ni'n dathlu Wythnos Natur Cymru (30 Mai – 7 Mehefin). | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Ym mis Rhagfyr, pleidleisiwyd dros Barc Gwledig Margam fel un o 10 parc a man gwyrdd mwyaf poblogaidd y Deyrnas Unedig, yn dilyn pleidlais gyhoeddus fis o hyd, a choronwyd Ffawydden Parc Margam yn Goeden y Flwyddyn yng Nghymru. Canfu arolwg fod Castell-nedd Port Talbot ymhlith y bwrdeistrefi sirol gorau ym Mhrydain (a'r gorau o bell yng Nghymru) am nifer a thrwch y coed.<br>• Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi datgelu enillwyr Gwobr Baner Werdd eleni – nod rhyngwladol parc neu fan gwyrdd o safon, a ddyfarnwyd i Barc Gwledig Margam, Parc Gwledig Ystâd y Gnoll, Parc Coffa Talbot, Gerddi Victoria a Champws y Bae, Prifysgol Abertawe, gyda Gwobrau Cymunedol yn mynd i Glwb Trotian Dyffryn Aman a Pharc Glan yr Afon, Pontardawe. Caiff y safleoedd eu beirniadu yn erbyn wyth maen prawf llym, sy'n cynnwys bioamrywiaeth, glendid, rheolaeth amgylcheddol, a chynnwys y gymuned. | | |
| 3.4 Nodi a datblygu cyfleoedd ar gyfer twf economaidd cynaliadwy yng nghymunedau ein cymoedd | 3.4.1 | Cam – Gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i gyflwyno safleoedd datblygu strategol allweddol ar hyd coridor yr arfordir (gan gynnwys Coed Darcy, Glannau'r Harbwr ym Mhort Talbot, Parc Ynni Baglan a Champws Arloesedd Prifysgol Abertawe); a chyflawni twf cynaliadwy yn ardaloedd y cymoedd | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• **Pentref Trefol Coed Darcy** – mae'r Cyngor a'r datblygwr/St Modwen Developments Ltd yn parhau i gydweithio ar drafodaethau ynghylch cyfnodau'r datblygiad, y prif gynllun trosfwaol a'r Cytundeb Cyfreithiol A106 ar gyfer darparu seilwaith angenrheidiol ac amwynderau. Bydd y gyfradd gyflwyno ar y safle o ran tai a seilwaith strategol allweddol yn parhau i gael ei monitro'n fanwl wrth symud ymlaen.<br>• Mae **Ailddatblygu Bae Baglan** yn ddyhead tymor hir sy'n debygol o gymryd sawl blwyddyn i'w gyflawni, ac fe allai rhannau o'r dyraniad fod yn addas i hwyluso'r twf yn yr economi wybodaeth. Gallai fod angen unedau mwy o faint yn sgîl y cynnydd mewn cyfleusterau ymchwil a datblygu ar ffurf unedau llai ar Gampws Gwyddoniaeth ac Arloesedd | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | | Prifysgol Abertawe, ac yng Nglannau'r Harbwr, wrth i'r safleoedd hynny barhau i ddatblygu, felly mae Bae Baglan yn darparu gofod a seilwaith digonol i ganiatáu iddyn nhw ehangu. Mae'r safle'n elwa o statws parth menter, sy'n helpu i annog buddsoddi yn yr ardal.<br>• Oddi mewn i **Ardal Ailddatblygu Strategol Glannau'r Harbwr** mae gwaith yn mynd rhagddo i ymdrin â materion llifogydd a pharatoi safleoedd i'w datblygu er mwyn hwyluso gwireddu'r cynigion ar gyfer ailddatblygu'r ardal ar gyfer defnydd cymysg. Bydd gwaith paralel ynghylch Parth Menter y Glannau ym Mhort Talbot yn bwydo i mewn i wireddu dyheadau ar gyfer yr ardal hon.<br>• Mae Prif Gynllun Seilwaith yn cael ei ddatblygu ar gyfer Parth Menter y Glannau ym Mhort Talbot.<br>• **Cais cynllunio amlinellol ar gyfer Canolfan Antur Cwm Afan** – mae'r ymgeisydd wedi parhau i ymgysylltu â'r Cyngor er mwyn ein gwneud yn ymwybodol o'u hymdrechion pellach sylweddol i yrru'r datblygiad hwn yn ei flaen. Mae'r trafodaethau hyn wedi bod yn gadarnhaol, ac yng ngoleuni effeithiau trawsffurfiannol posibl y datblygiad hwn, rhoddwyd mwy o ystwythder i'r ymgeisydd lunio'r pecyn terfynol a chyflwyno'r cyfryw fanylion terfynol. Deellir y bydd cyflwyniadau pellach i ddod yn y dyfodol agos er mwyn dangos ymhellach bod y cynnig yn ddichonadwy yn ariannol ac yn gallu cael ei gyflawni, a bydd wedyn yn destun asesiad pellach ac adroddiad, a gyflwynir i'r Pwyllgor Cynllunio yn ystod haf 2021 ar gyfer penderfyniad terfynol.<br>• Rydym ni'n datblygu ymhellach achos busnes y rhaglen Cefnogi Arloesedd a Thwf Carbon Isel.<br>• Penderfynwyd ar 723 o 742 (95.4%) o'r holl geisiadau cynllunio o fewn y terfyn amser yn ystod 2020/21. Targed 2020/21 oedd 95%. | |
| | 3.4.2 | Cam – Hyrwyddo a diogelu portffolio amrywiol o dir cyflogaeth a chyfleoedd cyflogaeth yn y mannau cywir | **Gwyrdd** |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cynnydd Camau 2020/21</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">

**Cynnydd y Cam:**

- Comisiynwyd ‘Astudiaeth Asesiad Economaidd a Darpariaeth Tir Cyflogaeth’ ar y cyd yn flaenorol gan CNPT ac Abertawe i lywio Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) y ddau awdurdod. Roedd hyn yn nodi’r angen am gyflogaeth a’r cysylltiad â’r galw am dai. Mae’r gwaith a gyflawnwyd yn cynnwys trafodaethau parhaus yn troi o gwmpas y tair astudiaeth gydweithredol allweddol sy’n dilyn (ar draws rhanbarth De-orllewin Cymru), a bydd pob un o’r tair astudiaeth yn llywio adolygiadau o CDLliau unigol a hefyd yn gwneud cyfraniad cadarnhaol fel gwaelodlin posibl ar gyfer gwaith yn y dyfodol ar Gynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau):

1. **Astudiaeth Gyflogaeth Ranbarthol** (RES) – Bydd yn nodi’r angen am dir cyflogaeth a’r cyflenwad ohono. Mae hyn wedi oedi ar hyn o bryd oherwydd anawsterau adnoddau/capasiti oddi mewn i’r Cynghorau hynny sy’n hoelio’u sylw a’u hymdrechion ar greu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer eu CDS eu hunain. Mae’n werth nodi bod swyddi ‘Swyddog Rhanbarthol’ wedi cael eu creu yn ddiweddar oddi mewn i Lywodraeth Cymru, ac o ganlyniad mae bwriad i ddychwelyd at yr RES yn y dyfodol.
2. **Astudiaeth Ddichonoldeb Ranbarthol** (RVS) – Mae’r RVS wedi cael ei chwblhau a chytunwyd ar y ‘Model Dichonoldeb Safle-Benodol’ Terfynol gan ranbarth De-orllewin Cymru. Mae nifer o sesiynau hyfforddi swyddogion yn cael eu cynnal gan yr ymgynghorwyr ‘Burrows-Hutchinson’ ar gyfer swyddogion yr ALl a fydd yn defnyddio’r model i asesu safleoedd/ceisiadau cynllunio.
3. **Asesiad ar y Cyd o’r Farchnad Dai Leol** (LHMA) – Mae’r astudiaeth LHMA ar y cyd wedi cael ei chwblhau (Hydref 2020). Mae ORS (yr ymgynghorwyr a gomisiynwyd i gynnal yr astudiaeth) wedi cynhyrchu Adroddiad Tai Rhanbarthol trosfwaol Terfynol (Prif Adroddiad) a sawl Adroddiad Is-ardal ar gyfer pob un o’r Awdurdodau Lleol

</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | (ALlau) sy'n ffurfio grŵp rhanbarthol Canolbarth a De-orllewin Cymru *(sydd bellach yn cynnwys Awdurdodau De-orllewin Cymru yn unig, yn unol â'r rhanbarthau a nodwyd yn Dyfodol Cymru*).<br><br>• Mae polisïau CDLl CNPT yn ceisio hybu a diogelu portffolio amrywiol o dir cyflogaeth a safleoedd yn Ardal Strategaeth y Cymoedd trwy ganiatáu defnyddiau cyflogaeth yn ymyl terfyn anheddiad, yn amodol ar ystyriaethau cynaliadwyedd ac amwynder. | | |
| | 3.4.3 | Cam – Datblygu rhaglen wedi'i blaenoriaethu o fentrau i gyflawni twf economaidd yng nghymunedau ein cymoedd | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Roedd gwaith yn parhau i baratoi cais cynllunio ar gyfer prosiect y Ganolfan Ragoriaeth Fyd-eang ar gyfer Rheilffyrdd (GCRE) gwerth £150 miliwn ym mhen uchaf Cwm Dulais ac yn Ne Powys (cymeradwywyd cynllunio amodol ym mis Gorffennaf 2021). Bydd y prosiect hwn yn creu swyddi o safon uchel gyda chyflogaeth ychwanegol ar ffurf contractau mawr yn y cyfnod adeiladu. Bydd llywodraeth y Deyrnas Unedig yn darparu cyfraniad o £30M i'r cynllun. Ar ben hynny:<br>➢ Mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio Cytundeb Cydfenter (JVA) gydag awdurdodau lleol Castell-nedd Port Talbot a Phowys i ddatblygu prif gynllun safle.<br>➢ Cafodd cais cynllunio Celtic Energy am waith sylfaenu, fel bod modd addasu'r tir ar gyfer defnydd yn y dyfodol, gan gynnwys profion rheilffordd a storio, ei gymeradwyo yn haf 2020.<br>➢ Cadarnhaodd llywodraeth y Deyrnas Unedig ei chefnogaeth ac ymrwymiad ariannol i helpu i gyflawni'r prosiect yng nghyllideb Mawrth 2021.<br>• Cyflwynwyd cymorth busnes i 67 o gwmnïau yn y cymoedd, gan helpu i greu a/neu ddiogelu 26 o swyddi. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Rydym ni'n parhau i gyflawni a gweithio gydag ymgeiswyr ar y Grant Datblygu i Wella Eiddo (PEDG) a Grantiau Byw'n Gynaliadwy (SLG) er mwyn adnewyddu ac ailddatblygu eiddo masnachol yn ardaloedd ein cymoedd. Mae llawer wedi manteisio ar y PEDG a'r SLG yn ardaloedd ein Cymoedd, ac mae prosiectau i gael eu cwblhau erbyn diwedd 2021 yn nhrefi a phentrefi Ystalyfera, Pontardawe, Cilffriw, Blaendulais, Cwm Afan a Glyn-nedd.<br><br>Cyfeirier at gam **3.3.3** uchod ar gyfer mentrau cysylltiedig â thwristiaeth yn y cymoedd. | | |
| | 3.4.4 | Cam – Nodi a sicrhau cyllid i gyflawni'r rhaglen wedi'i blaenoriaethu o fentrau yng nghymunedau ein cymoedd | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Dechreuodd y gwaith ar baratoi cynnig am arian o'r Gronfa Adfywio Gymunedol (CRF) i sefydlu Fforwm Busnes ar gyfer busnesau oedd yn gweithredu yn y sector manwerthu, lletygarwch, hamdden a thwristiaeth (bydd llawer o'r busnesau hyn wedi'u lleoli yng nghymunedau'r cymoedd). Y nod yma yw helpu'r Cyngor i gasglu gwybodaeth "ar lawr gwlad" ynghylch anghenion sgiliau a recriwtio, technolegau sy'n dod i'r amlwg a pha ymyriadau cefnogi busnes sy'n angenrheidiol i gynnal adferiad economaidd.<br>• Mae'r tîm wedi parhau i gyflwyno taliadau "Argyfwng COVID-19" a ariannir gan Lywodraeth Cymru i fusnesau cymwys yng nghymunedau ein cymoedd. | | |
| 3.5 Amddiffyn, cadw a gwella ein hamgylchedd naturiol (gan | 3.5.1 | Cam – Mae pob gwasanaeth yn cydweithio i gyflawni'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth a'r seilwaith gwyrdd ar draws y fwrdeistref sirol | **Ambr** |
| | **Cynnydd y Cam:** | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| gynnwys tirweddau, cefn gwlad, cynefinoedd a rhywogaethau pwysig) gan gynyddu ymwybyddiaeth o'i werth ac annog cyfranogiad ehangach | • Effeithiwyd ar y gwasanaeth yn ystod y pandemig, ac ymweliadau safle oedd yn cael eu hystyried yn hanfodol yn unig oedd yn cael eu cynnal ar ddechrau'r cyfnod.<br>• Roedd bwriad i asesu meysydd gwasanaeth ar draws Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd er mwyn penderfynu ar y potensial i waith gwasanaethau o'r fath gael effaith ar fioamrywiaeth yn 2020. Fodd bynnag, oherwydd eu llwyth gwaith cynyddol yn sgîl COVID-19 teimlwyd mai priodol fyddai gohirio hyn i flynyddoedd dilynol.<br>• Cafodd Adroddiad Gweithredu'r Cynllun Dyletswydd Bioamrywiaeth (2017), sy'n nodi cynnydd y Cynllun, ei gymeradwyo yn y Cyngor ar 2 Rhagfyr 2020 a chafodd dderbyniad da.<br>• Trwy Gyllid 'Lleoedd Lleol ar gyfer Natur' Llywodraeth Cymru mae nifer o brosiectau i wella gwerth bioamrywiaeth safleoedd wedi cael eu cyflwyno. Ymhlith y prosiectau mae plannu blodau gwyllt a choed mewn amrywiol leoliadau megis Parc Gwledig y Gnoll a gosod To Gwyrdd yng Nghraig Gwladus.<br>• Mae 43 o ardaloedd â chyfoeth o fioamrywiaeth yn cael eu gwarchod a/neu eu gwella. Mae'r rhestr o safleoedd cadwraeth natur yn cynnwys Gwarchodfeydd Natur Lleol, safleoedd 'Gweithio gyda Natur', ac ardaloedd a reolwyd yn flaenorol fel rhan o'r cynllun ymylon ffyrdd/ardaloedd cadwraeth. Yn dilyn adolygiad o'r rhestr o safleoedd, tynnwyd nifer o safleoedd oddi arni, felly mae'n is na'r targed o 50. | | |
| | 3.5.2 | Cam – Byddwn ni'n defnyddio ein pwerau statudol i herio lefelau annerbyniol o lygredd | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae monitro ansawdd aer yn parhau ar draws CNPT a chafodd yr Adroddiad Cynnydd diweddaraf ar Fonitro Ansawdd Aer yn Lleol ei ystyried yn y Cabinet ar 10 Rhagfyr 2020. Mae ardal Port Talbot/Taibach yn dal yn ARhAA (Ardal Rheoli Ansawdd Aer). Mae un o KPIs ein Cynllun Corfforaethol yn mesur nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach). Pennwyd ein targed blynyddol ar gyfer nifer y | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | diwrnodau pan awn dros y trothwy llygredd PM10 i 35 diwrnod. Cafwyd 16 achos o fynd dros y trothwy yn ystod 2020/21.<br>• Ni chynhaliwyd asesiadau risg ar gyflenwadau dŵr preifat yn ystod 2020/21 oherwydd cyfyngiadau COVID-19, fodd bynnag, cyflawnir dulliau ymyrraeth amgen, yn unol â chyfarwyddyd yr Arolygiaeth Dŵr Yfed.<br>• Cyhoeddwyd ein Strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy (DARE) newydd, yn amlinellu beth mae'r Cyngor wedi'i wneud hyd yma i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, ochr yn ochr â dadorchuddio cyfres o brosiectau tanwydd amgen uchelgeisiol. Cymeradwywyd y strategaeth gan y Cabinet ar 21 Mai 2020. Nod y strategaeth Datgarboneiddio ac Ynni Adnewyddadwy newydd (Prosiect brand DARE) yw gwneud Castell-nedd Port Talbot yn ganolfan ddeinamig ar gyfer tanwydd y dyfodol, gan wneud yn fawr o'i hasedau diwydiannol a naturiol, a'i lleoliad canolog yn Ne Cymru. | | |
| | 3.5.3 | Cam – Byddwn ni'n gweithio ac yn ymgysylltu â chymunedau lleol a phartneriaid ehangach i gyflwyno rhaglen o weithgareddau a fydd yn cefnogi cyfranogiad pobl leol yn ein hamgylchedd naturiol a'i hygyrchedd | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Rhoddwyd cyngor i'r cyhoedd ar ddefnyddio ein rhwydwaith Hawliau Tramwy yn ddiogel yn ystod y pandemig.<br>• Gwnaed 50 o leoedd chwarae yn ddiogel o ran COVID-19<br>• Cwblhawyd pedwar prosiect gwella ar ein rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn 2020/21, sef: llwybr troed 41 yng Nghilybebyll, llwybr troed 32 yn y Tonna, llwybr ceffyl 8 ym Mhort Talbot a llwybr ceffyl 10 yn Nyffryn Clydach | | |

<table>
<tr><th>Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3</th><th>Cyf. y Cam</th><th>Cynnydd Camau 2020/21</th><th>Statws CAG</th></tr>
<tr><td></td><td colspan="3">Gweler cam 3.3.6 uchod a cham 3.7.1 isod.</td></tr>
<tr><td rowspan="2">3.6 Cyflawni cyfraniad cadarnhaol i’r agenda gynllunio ranbarthol</td><td>3.6.1</td><td>Cam – Byddwn ni’n gweithio ar y cyd ag awdurdodau cymdogol i rychwantu a chyflwyno Cynllun Datblygu Strategol</td><td>Gwyrdd</td></tr>
<tr><td colspan="3">Cynnydd y Cam:<br><br>• Mae’r Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau’n darparu’r fframwaith cyfreithiol ar gyfer cydweithio rhanbarthol trwy greu Cydbwyllgorau Corfforaethol (CJCs) ac mae’n galw am baratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSiau). Mae trafodaethau rhwng yr awdurdodau cynllunio lleol ar draws y rhanbarth wedi parhau, er mwyn penderfynu sut dylid symud ymlaen i baratoi CDS, gan gynnwys ystyried y trefniadau llywodraethu, yr adnoddau sydd ar gael (staff/cyllid), ac amseriad paratoi’r cynllun.<br>• Mae gwaith wedi parhau yng nghyswllt cefnogi a chyfrannu at yr agenda ranbarthol. Mae trafodaethau rhwng Penaethiaid Gwasanaeth a Swyddogion Polisi wedi cael eu cynnal yn rheolaidd i ganfod rôl awdurdodau yn y dyfodol, cwmpas y gwaith fydd yn ofynnol mewn unrhyw CDS yn y dyfodol, a’r posibiliadau o ran mentrau ac astudiaethau cydweithio yn y dyfodol.</td></tr>
</table>

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| 3.7 Hybu a chyflwyno hygyrchedd cynaliadwy a gwella cysylltedd a chysylltiadau cyfathrebu | 3.7.1 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda datblygwyr a phartneriaid i wella hygyrchedd a theithio llesol ar draws y fwrdeistref sirol a'r Ddinas-Ranbarth ehangach trwy gyflwyno seilwaith trafnidiaeth allweddol | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>Yn 2020/21 dyfarnwyd £465k o arian craidd i Gastell-nedd Port Talbot ar gyfer gwaith dylunio, mân welliannau, trafodaethau tir a hyrwyddo cynlluniau. Ar ben hynny, dyfarnwyd £515k ar gyfer Cyfnod 1 o Lwybr Teithio Llesol Bro Nedd – Castell-nedd i'r Tonna. Roedd gwaith 2020/21 yn cynnwys:<br>• **Llwybr Teithio Llesol Bro Nedd (Cyfnod 1)** – gwelliannau i'r Llwybr Teithio Llesol ar y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol (NCN) rhwng Castell-nedd a'r Tonna (yn adeiladu ar waith a gwblhawyd eisoes ar yr NCN rhwng Castell-nedd a Llansawel).<br>• **Diweddaru'r Map o Rwydwaith Teithio Llesol CNPT (ATNM)** – er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf, mae'r Cyngor wrthi yn adolygu ei ATNM (sydd i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 31 Rhagfyr 2021). Cynhaliwyd yr ymgynghoriad teithio llesol cyntaf rhwng 27 Tachwedd a 15 Ionawr 2021, a derbyniwyd 2,642 o gyfraniadau. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | • Mae drafft ymgynghori o'r ATNM bellach wedi cael ei baratoi, gan gymryd i ystyriaeth ymatebion yr ymgynghoriad cyntaf a chanlyniadau archwilio ymweliadau safle, gan gysylltu cyrchfannau allweddol â llwybrau cyfredol ar yr ATNM presennol.<br>• **Llwybr Teithio Llesol Pontardawe (Cyfnod 3 o 3)** – roedd y gwaith yn cynnwys lledu'r llwybr teithio llesol, gosod wyneb newydd, clirio'r llystyfiant ymwthiol a sicrhau cytundebau gyda thirfeddianwyr. Mae hyn yn cwblhau'r gwaith ar y llwybr o'r ffin weinyddol yn Nhrebannws, trwy Bontardawe i Ystalyfera, gan ddarparu llwybr ag arwyneb oddi ar y ffordd.<br>• **Llwybr Teithio Llesol Godre'r Graig** – roedd y cynllun yn cynnwys adeiladu adran fach o'r llwybr rhwng y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol a Godre'r Graig.<br>• **Llwybr Amgen i Bont Newbridge Road** – mae astudiaeth ddichonoldeb yn parhau i ddarparu llwybr dargyfeirio amgen ar gyfer Teithio Llesol yn lle Pont Newbridge Road, Port Talbot, sydd ar gau.<br>• **Clirio Mesurau Rheoli Mynediad (Cyfnod 2)** – hyd yma mae 11 rhwystr/gât nad oeddent yn cydymffurfio wedi cael eu newid.<br>• I grynhoi, rydym wedi ychwanegu 3.75Km at y llwybrau beicio hygyrch, 6.63Km o gynnwys 2019/20. Gweler yr astudiaeth achos ar dudalen 80.<br>• Ar ben hyn, codwyd Pont amnewid Afon Blaengwrach i'w lle ym mis Tachwedd 2020, gan adfer y ddolen gyswllt hanfodol rhwng Blaengwrach, Cwmgwrach a Glyn-nedd. Dywedodd preswylydd lleol: "Mae'r bont newydd yn golygu bod cerdded i'r siopau yn fwy diogel i fi a'm plant. Roedd yn gyfnod pryderus pan oedden ni'n meddwl y gallen ni golli'r bont, oherwydd dwy ddim yn gyrru." | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | 3.7.2 | Cam – Byddwn ni'n ymdrechu i gynnal ac ehangu'r rhwydwaith trafnidiaeth cyfredol ac archwilio atebion trafnidiaeth amgen lle nad yw gwasanaethau trafnidiaeth confensiynol yn gynaliadwy mwyach | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae CNPT wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru (LlC), Trafnidiaeth i Gymru (TfW), a gweithredwyr i gynnal gwasanaethau bws ar hyd y pandemig, ac rydym wedi parhau i gefnogi gweithredwyr a gwneud taliadau i weithredwyr am gontractau, hyd yn oed pan nad yw'r gwasanaethau hynny'n cael eu rhedeg, neu os ydynt yn rhedeg yn llai aml.<br>• Mae £5,598,372 o gymorth ariannol Llywodraeth Cymru wedi cael ei gyflwyno yng Nghastell-nedd Port Talbot trwy Gynllun Argyfwng Bws (BES) sydd wedi dod â'r amrywiol gronfeydd at ei gilydd (gan gynnwys Grant Cefnogi Gwasanaethau Bws ac ar gyfer Teithio Consesiynol) i ddarparu incwm parhaus i weithredwyr. O dan gytundeb 'BES2' gofynnwyd i awdurdodau lleol a gweithredwyr ymrwymo i ffyrdd newydd o weithio, sy'n cynnwys datblygu rhwydweithiau trwy gytundeb sy'n cwmpasu elfennau cymdeithasol angenrheidiol, yn ogystal â llwybrau masnachol, ochr yn ochr â sicrhau integreiddio gwell â gwasanaethau rheilffordd a chyflwyno tocynnau integredig. Mae awdurdod Arweiniol De-orllewin Cymru wedi llofnodi'r cytundeb ac mae CBSCNPT a gweithredwyr lleol wedi llofnodi cytundebau cefn-wrth-gefn.<br>• Yn 2020/21 fe wnaethom ni wella cyflwr ffyrdd A, ffyrdd B a ffyrdd C, a chyflawni targedau'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer pob un o'r tri chategori o ffyrdd. | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| 3.8 Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella cysylltedd a seilwaith ar draws y fwrdeistref sirol | 3.8.1 | Cam – Byddwn ni'n gweithio gyda phartneriaid i wella seilwaith digidol a chysylltedd ar draws y fwrdeistref sirol | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Ar 21 Hydref 2020, cymeradwyodd y Cabinet Achos Busnes Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r buddsoddiad dilynol mewn Seilwaith Digidol ar draws Dinas-Ranbarth Bae Abertawe. Mae hyn yn cynnwys cysylltedd sefydlog ffeibr llawn a seilwaith cysylltiedig, rhwydweithiau di-wifr 4G, 5G a Rhyngrwyd Pethau (IoT), ond heb ei gyfyngu i hynny.<br>• Dechreuwyd datblygu Achos Busnes i wneud cais am arian gan Lywodraeth Cymru i wella'r ddarpariaeth band eang a'r cysylltedd i 26 o fusnesau sydd eisoes yn bodoli ar Ystâd Ddiwydiannol Parc Mardon ar Barc Ynni Baglan, safle cyflogaeth strategol allweddol ym Mharth Menter y Glannau, Port Talbot. | | |
| | 3.8.2 | Cam – Byddwn ni'n helpu i hyrwyddo Rhaglen Llywodraeth Cymru i sicrhau Band eang Cyflym iawn yng Nghymru | Gwyrdd |
| | **Cynnydd y Cam:**<br>• Mae gwaith yn parhau i ganfod mannau "digyswllt" (lle nad oes rhwydwaith ar gael) ac archwilio opsiynau i gynyddu argaeledd y rhwydwaith. Mae'r gwaith hwn yn cysylltu â rhaglen seilwaith Bargen Ddinesig Bae Abertawe, gweler cam 3.8.1 uchod. | | |
| | 3.8.3 | Cam – Byddwn ni'n cefnogi'r trydydd sector i alluogi mwy o bobl i gael mynediad at wasanaethau ar-lein | Gwyrdd |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Parhau i gadw mewn cysylltiad â sefydliadau cymunedol ar draws Castell-nedd Port Talbot, gan sicrhau eu bod yn derbyn yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw gyfleoedd hyfforddi ac yn cynnig cefnogaeth lle bo angen.<br>• Parhau i fod yn aelod gweithredol o'r panel diogelwch cymunedol, gydag aelodau o sefydliadau eraill, gan gynnwys Heddlu De Cymru, Safonau Masnach, Cymunedau Digidol Cymru (DCW), a'r Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol (CVS).<br>• Mynychu cyfarfodydd gyda'r Bartneriaeth Iach a Diogel, gan gynnig cefnogaeth.<br>• Parhau i rannu arfer da a chyfnewid gwybodaeth â chyrff 3ydd sector. Lluniwyd cyflwyniad ar ddiogelwch digidol yn ystod y pandemig, a sut mae cadw'n ddiogel, gan osgoi sgamiau a thwyll ar-lein. Cyflwynwyd 6 sesiwn trwy Microsoft Teams, i grwpiau mewnol ac allanol oedd yn cynnwys 40 o bobl, ar effaith ymwybyddiaeth o Sgamiau yn ystod y pandemig a sut i gadw'n ddiogel ar-lein.<br>• Fel rhan o'r is-grŵp clyfar a chysylltiedig, rydym wedi hyfforddi 30 o Bartneriaid Digidol gyda chefnogaeth Cymunedau Digidol Cymru i helpu a chefnogi'r rhai a allai gael eu heithrio'n ddigidol o ddefnyddio technoleg ddigidol, yn ogystal â chefnogi cydweithwyr gyda systemau a gweithdrefnau newydd. Fel rhan o'r Grŵp Cymuned Ymarfer gweithio gyda phartneriaid i gynllunio strategaeth ar gyfer cefnogi trigolion yn ein cymunedau er mwyn cyflwyno gwasanaeth o'r radd flaenaf sy'n diwallu anghenion ein cymuned. | | |
| | 3.8.4 | Cam – Byddwn ni'n hyrwyddo pwysigrwydd meddu ar strategaethau digidol effeithiol, gan gynnwys mesurau i ymdrin ag eithrio digidol, ymhlith partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus | **Gwyrdd** |
| | **Cynnydd y Cam:**<br><br>• Mae holl bartneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd yn gallu ymrwymo i'r Siarter Cynhwysiad Digidol wedi gwneud hynny. Gwelwyd bod strategaethau digidol effeithiol yn bwysicach nag erioed yn ystod 2020/21 ac mae rhai | | |

| Blaenoriaeth Gwelliant Amcan Llesiant 3 | Cyf. y Cam | Cynnydd Camau 2020/21 | Statws CAG |
|---|---|---|---|
| | | elfennau wedi symud ymlaen yn gyflym o ran cyfathrebu rhwng asiantaethau a chydag aelodau o'r cyhoedd. Bydd partneriaid BGC yn parhau i roi blaenoriaeth i gynhwysiad digidol yn eu hymateb i bandemig COVID-19 wrth iddyn nhw gefnogi unigolion, cymunedau a busnesau sy'n ymadfer. | |

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol Amcan Llesiant 3:**

Ceir gwybodaeth fanylach a sylwadau ar berfformiad yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2018/19 Gwirioneddol | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2020/21 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 20/21 | Perff. CAG yn erbyn 19/20 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **3 Amcan Llesiant 3 – Datblygu'r economi a'r amgylchedd lleol fel bod modd gwella llesiant pobl** | | | | | | |
| CP/063 – Nifer y swyddi a grewyd/ddiogelwyd o ganlyniad i gefnogaeth ariannol gan yr awdurdod lleol | 456 | 610 | 470 | 280 | Gwyrdd | Coch |
| CP/067- PAM/030 – Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio | 60.81 | 61.74 | 67.56 Data dros dro | 64.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/068 - PAM/043 – Cilogramau o wastraff gweddilliol a gynhyrchwyd fesul person | 216.46 | 182.02 | 209.7 | Ni phennwyd targed | | Coch |
| CP/069 - PAM/010 – Canran y strydoedd sy'n lân | 93.57 | 93.84 | 90.65 | 93.86 | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | Ambr | Ambr |
| CP/070 - PAM/035 – Nifer y diwrnodau i glirio sbwriel a ollyngwyd yn anghyfreithlon, ar gyfartaledd | 3.21 | 2.97 | 2.84 | Ni phennwyd targed | | Gwyrdd |
| CP/072 – Nifer yr ymweliadau â'n theatrau | 239,481 | 217,161 **Data 9 mis oherwydd COVID-19** | Dim data oherwydd COVID-19 | 240,000 | **Amh** | **Amh** |
| CP/073 - PAM/040 – Canran y dangosyddion ansawdd a gyflawnwyd gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd | 75 | 66.67 | Data ar gael ym mis Tachwedd 2021 | 65 | **Amh** | **Amh** |
| CP/074 - PAM/017 – Nifer yr ymweliadau â chanolfannau hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth | 8064 | 7758 **Data 9 mis oherwydd COVID-19** | Dim data oherwydd COVID-19 | 8700 | **Amh** | **Amh** |
| CP/077 – Nifer yr ardaloedd â chyfoeth o fioamrywiaeth sy'n cael eu diogelu a/neu eu gwella | 43 | 43 | 43 | 50 | Coch | Gwyrdd |
| CP/078 – Nifer yr achosion o fynd dros y trothwy PM10 yn yr Ardal Rheoli Ansawdd Aer (Port Talbot / Taibach) | 19 | 7 | 16 | 35 | Gwyrdd | Coch |
| CP/083 – PAM/020 – Canran y ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | 5.22 | 4.99 | 3.38 | 5.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/084 – PAM/021 – Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael | 3.28 | 2.84 | 2.40 | 5.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/085 – PAM/022 – Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael | 4.90 | 5.68 | 4.78 | 10.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/113- PAM/018 – Canran o'r holl geisiadau cynllunio y penderfynwyd arnynt yn brydlon | 96.71 | 97.44 | 95.4 | 95.00 | Gwyrdd | Ambr |

## 7. Sicrhau Llywodraethu Da a Gwelliant Parhaus:

Yn yr adran hon rydym wedi manylu ar y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2020/2021 o ran y gweithgareddau craidd sy'n darparu sylfaen ar gyfer llywodraethu'r Cyngor. Ar ddiwedd yr adran rydym wedi cynnwys rhai mesurau perfformiad sy'n darparu asesiad o rai o'n trefniadau llywodraethu.

- **Cynllunio Corfforaethol**

Oherwydd dyfodiad Pandemig COVID-19 nid oedd yn ymarferol cyhoeddi Cynllun Corfforaethol manwl wedi'i adnewyddu ar gyfer 2020/21. Yn 2020/21, felly, arhosodd yr amcanion llesiant a'r blaenoriaethau gwella a gyflwynwyd yng Nghynllun 2019/22 yr un fath.

- **Rheoli Perfformiad**

Yn ystod 2020/21, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o System Rheoli Perfformiad Corfforaethol y Cyngor (CPMS). Bu'r adolygiad yn edrych i weld a yw'r system yn cryfhau trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio busnes, perfformiad a rheoli risg. Canfu'r adolygiad fod y CPMS yn helpu i ddatblygu cysylltiadau gwell rhwng amcanion corfforaethol a chynlluniau busnes gwasanaethau, ac yn gwella effeithlonrwydd adroddiadau perfformiad. Fodd bynnag, canfu'r adolygiad hefyd fod modd defnyddio'r wybodaeth yn fwy effeithiol i gefnogi cyfeiriad strategol, a bod angen cryfhau'r trefniadau rheoli risg o hyd. Nododd yr adolygiad nifer o gyfleoedd i wella, a derbyniodd y Cyngor y rhain i gyd a'u cynnwys mewn cynllun gweithredu a adroddwyd i'r Cabinet ar 30 Mehefin 2021. Cafodd y camau gwelliant yng nghyswllt reoli risg eu cynnwys yn y cynllun gweithredu. Bydd y camau gweithredu sy'n ymwneud â chynllunio a pherfformiad yn cael eu datblygu fel rhan o adolygiad y Cyngor o fframwaith rheoli perfformiad corfforaethol y Cyngor yn ystod 2021/2022.

- **Llywodraethu – Datganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) 2020/2021**

Ar 12 Mai 2021, cymeradwyodd y Cabinet Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol (AGS) y Cyngor ar gyfer 2020/21, a baratowyd gan Grŵp Llywodraethu Corfforaethol y Cyngor, ac sy'n cydymffurfio â Fframwaith Cyflawni

Llywodraethu Da ym maes Llywodraeth Leol: (CIPFA/SOLACE, 2016). Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn dangos y system o fesurau mewnol a fu ar waith o fewn y Cyngor ar gyfer y flwyddyn yn diweddu ar 31 Mawrth 2021, ac yn darparu enghreifftiau o sut mae'r Cyngor yn dangos ei fod yn cydymffurfio ag arfer da ac yn cyflawni egwyddorion creiddiol ac is-egwyddorion llywodraethu effeithiol. Mae'r AGS hefyd yn darparu manylion ynghylch sicrwydd a gafwyd yn ystod y flwyddyn ynghylch effeithiolrwydd ein trefniadau llywodraethu. Cynhwyswyd diweddariad ar y cynnydd a wnaed yn ystod 2020/21 yn erbyn y meysydd gwelliant a nodwyd yn ystod datblygiad AGS 2019/20 hefyd, ynghyd â nifer o feysydd gwelliant a ddylai fod yn destun gweithredu yn ystod 2021/22. Bydd diweddariad cynnydd ar weithredu'r meysydd gwelliant hynny yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet tua diwedd y flwyddyn galendr. Fodd bynnag, bydd y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol yn adolygu'r gwaith gwella hwn yn barhaus wrth i'r Cyngor symud ymlaen i gynllunio adferiad yn ystod 2021/22, ac os bydd angen, rhoddir blaenoriaeth i'r gwaith a allai olygu bod rhai meysydd gwelliant yn treiglo i mewn i ran gynharaf 2022/2023. Ar ben hynny, wrth i'r Cyngor symud ei gynlluniau adferiad ymlaen, bydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn cael eu hadolygu'n barhaus gan y Grŵp Llywodraethu Corfforaethol, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n effeithiol.

➢ **Cynllunio Ariannol a Gwariant**

Paratowyd y gyllideb ar gyfer 2020/21 yng nghyd-destun Cynllun Corfforaethol 2019/2022, a luniwyd cyn y pandemig, wedi'i seilio ar y tri amcan llesiant, ac roedd yn cynnwys:

- diogelu rhai gwasanaethau sy'n caniatáu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth sy'n lleihau'r galw am wasanaethau cyhoeddus, ochr yn ochr â hybu llesiant;
- diogelu gwasanaethau integredig a sefydlwyd i ddarparu gwasanaethau mwy cydlynus i ddinasyddion;
- diogelu gwasanaethau sy'n cael effaith hirdymor ar gynaliadwyedd; a
- diogelu trefniadau cydweithio allweddol.

Ar gyfer 2020/21, ein targed gwreiddiol ar gyfer arbedion cyllideb yn ystod y flwyddyn oedd £1.973 miliwn, ar ben yr arbedion gwariant cronnol o ryw £95 miliwn ers 2010. Fodd bynnag, mae 2020/21 wedi bod yn flwyddyn na welwyd ei thebyg o ran rheoli effeithiau COVID-19, cefnogi'r gwasanaeth iechyd a'r trigolion trwy ddarparu gwasanaeth

Profi, Olrhain a Diogelu a chymorth gyda brechiadau, diogelu pobl fregus, cynnal gwasanaethau hanfodol, darparu taliadau ychwanegol i fusnesau, teuluoedd, ac unigolion, ac i lawer o staff trwy fod yn gweithio'n ddigidol gartref. Mae'r Cyngor hefyd wedi derbyn cefnogaeth ariannol eithriadol gan Lywodraeth Cymru, y cafodd llawer ohoni ei chadarnhau yn chwarter olaf blwyddyn ariannol 2021/22. Mae hyn wedi cael effaith ffafriol ar ysgolion a sefyllfa ariannol y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn. Cyllideb Net y Cyngor ar gyfer 2020/21 oedd £304.082m. Mae'r Gwariant Net Gwirioneddol, neu sefyllfa Alldro'r Cyngor, yn dangos tanwariant net o £720k. Derbyniodd y Cyngor arian Grant COVID-19 o £80m yn ystod y flwyddyn, yr oedd £50m ohono wedi cael ei dalu allan i gefnogi busnesau ac unigolion yn y fwrdeistref sirol.

Cyflwynodd ein Rhaglen Gyfalaf hefyd £59m o fuddsoddiad cyfalaf yn ystod y pandemig i wella cyfleusterau ar draws y fwrdeistref sirol. Mae hyn yn cynnwys symud gwaith ymlaen nes ei fod bron wedi'i gwblhau yn Ysgol Cefn Saeson, cychwyn gwaith yn Ysgol Gynradd newydd Abbey, a gwaith Cyfnod 3 yn Ysgol Gymraeg Ystalyfera, amrywiol welliannau ysgol eraill a darparu offer TG ar gyfer athrawon a dysgwyr, adfywio, draenio, gwelliannau llifogydd a grantiau cyfleusterau i'r anabl i alluogi pobl i barhau i fyw gartref. Mae hwn wedi bod yn gyflawniad rhyfeddol yn ystod y cyfnodau clo niferus. Diweddarodd y Cyngor ei Flaengynllun Ariannol ym mis Mawrth 2020 i gyflwyno arbedion ariannol, ac mae wedi cynhyrchu cyllideb atodol ar gyfer 2020/21 o ganlyniad i bandemig COVID-19.

Oherwydd yr heriau gweithrediadol ac ariannol oedd yn deillio o COVID-19 cynyddwyd amlder adroddiadau monitro'r gyllideb i'r Weithrediaeth o bob chwarter i bob deufis.

Ar 9 Mawrth 2021, cymeradwyodd y Cyngor gyllideb 2021/2022 yn dilyn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Roedd y gyllideb yn cynnwys arbedion o £0.135m mewn perthynas â chynigion lluosflwydd y cytunwyd arnynt yn 2020/21. Ymgorfforwyd £3.1m ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn i sicrhau cyllideb gytbwys.

- **Gweithlu**

Ym mis Mehefin 2018, cymeradwyodd y Cyngor Gynllun Gweithlu Corfforaethol. Pwrpas Cynllun y Gweithlu yw ein galluogi i ddiweddaru goblygiadau gweithlu ein Cynllun Corfforaethol, ac mae'n nodi'r camau mae angen i ni eu cymryd i gyflawni ein blaenoriaethau a'n hamcanion. Nod y cynllun yw ein galluogi i ganfod unrhyw fylchau rhwng ein gweithlu heddiw a'r gweithlu bydd arnom ei angen wrth edrych ymlaen dros y pum mlynedd nesaf a'r tu hwnt – sicrhau bod gan y Cyngor y nifer cywir o bobl sydd â'r sgiliau a'r agweddau cywir yn eu lle ar yr adeg gywir i gyflawni ei wasanaethau a'i swyddogaethau. Cafodd y Cynllun a'r camau i'w gyflawni eu hadolygu gan y Pwyllgor Personél ar 7 Mehefin 2021, er mwyn sicrhau ei fod yn dal yn addas at y diben ac yn cyfateb i flaenoriaethau'r Cyngor.

Ers 2019, mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio gyda Chwarae Teg, yn aelod o'u Cynllun Cyflogwyr Chwarae Teg. Cynhaliodd Chwarae Teg archwiliad amrywiaeth rhywedd o bolisïau ac arferion y Cyngor, ac arolwg amrywiaeth rhywedd o'r cyflogeion. Wedi'r archwiliad, dyfarnodd Chwarae Teg Ddyfarniad Arian am Amrywiaeth Rhywedd i'r Cyngor, sy'n cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i amrywiaeth rhywedd yn y gweithle. Arweiniodd yr archwiliad at ddatblygu Cynllun Gweithredu Amrywiaeth Rhywedd, sy'n cynnwys camau i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor. Mae'r camau allweddol yn canolbwyntio ar fenywod sy'n cael cyflog isel yn y Cyngor, gan fod cyflawni cydbwysedd rhwng y rhywiau ymhlith y cyflogeion sy'n derbyn y tâl isaf yn allweddol i ddileu'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. I gydnabod y gwaith hwn, roedd y Cyngor wrth ei fodd yn cael ei enwebu ar gyfer Gwobr Cyflogwr Fairplay yng Ngwobrau Womenspire Chwarae Teg 2020, ac fe gyrhaeddwyd y rhestr fer derfynol o 6, o blith cannoedd o geisiadau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r tîm Hyfforddiant Corfforaethol wedi gweithio gyda Chwarae Teg i gynnal sesiynau Datblygu Gyrfa ar-lein ar gyfer benywod sy'n derbyn tâl is, gyda'r nod o gynyddu sgiliau a hyder. Cwblhaodd 83 o gyflogeion y cwrs hwn, ac roedd y sesiynau'n cynnwys:

- Gweithio'n Glyfrach, nid yn Galetach
- Sut mae dweud Na yn wych

- Codi Llais, Sefyll Allan
- Newid eich ffordd o feddwl i gael canlyniadau
- Rheoli ymddygiad heriol
- Hefyd cynhaliwyd sesiwn ar-lein i ddynion, ‘Dynion ac Amrywiaeth Rhywedd’.

Pwynt pwysig yw bod y blwch cyflog rhwng y rhywiau yn y Cyngor yn cau. Yn 2017 / 18, adroddwyd am fwlch cyflog o 4.17% rhwng y rhywiau. Yn 2018 / 19 a 2019 / 20, adroddwyd am fwlch cyflog o 3.93% rhwng y rhywiau. Yn 2020/21, adroddwyd bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi lleihau ymhellach i 3.44%.

**Absenoldeb Salwch** – Mae absenoldeb salwch cyflogeion yn ystod 2020/21 yn sylweddol is nag yn ystod 2019/20, o 12.13 o ddiwrnodau CALl a gollwyd i salwch fesul cyflogai i 8.13 o ddiwrnodau. Mae absenoldebau tymor byr a thymor hir wedi lleihau’n sylweddol yn ystod y flwyddyn, a gostyngodd lefelau absenoldeb ar draws pob maes gwasanaeth. Mae’r gostyngiad hwn o ganlyniad i nifer o ffactorau, gan gynnwys lefelau salwch anarferol o uchel yn 2019/20. Cafodd gweithio gartref effaith yn ogystal, a byddai cadw pellter cymdeithasol ac arferion hylendid rheolaidd cysylltiedig e.e. gwisgo mygydau wyneb, golchi dwylo etc. hefyd wedi cael effaith o ran creu gostyngiad

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn ein Hadroddiad Gwybodaeth am y Gweithlu, a gyflwynwyd i’r pwyllgor personél ar 7 Mehefin 2021.

- **Rheoli Asedau**

Mae’r trefniadau rheoli asedau wedi ennill eu plwyf ers meitin, gyda chysylltiadau clir â chynllunio gwasanaeth a strategaeth a threfniadau cyllideb refeniw a chyfalaf y Cyngor. Mae ein cynlluniau rheoli asedau yn darparu gwybodaeth am nifer a chyflwr y dosbarthiadau canlynol o asedau: priffyrdd, cerbydlu, pontydd a strwythurau, eiddo a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae’r lleihad yn yr adnoddau ariannol sydd ar gael i’r Cyngor yn rhoi cryn bwysau ar y maes gwaith hwn. Cyflwynir y risgiau cysylltiedig yng nghofrestrau risg Strategol a Gweithrediadol y Cyngor, ac mae hynny yn ei dro yn llywio dyraniad adnoddau refeniw a chyfalaf. Fodd bynnag, bydd angen i ni

sicrhau defnydd a rheolaeth effeithiol o'n hasedau wrth i ni adlunio ein gwasanaethau a'n swyddogaethau yn y tymor hwy.

- **Rheoli Risg**

Pan ddaeth y pandemig yn 2020 achosodd risg sylweddol i'r Cyngor. Yn ystod 2020/21, cafodd Cofrestr Risg Strategol y Cyngor ei diweddaru â risg benodol COVID-19 a oedd yn amlygu bod yr holl reoli risg mewn perthynas â'r pandemig wedi digwydd trwy'r Fforwm Gwydnwch Lleol (LRF) a strwythurau gorchymyn priodol (gan gynnwys Cynllunio Brys (trefniadau'r Tîm Rheoli Digwyddiadau).

Bydd rhai risgiau hirdymor yn effeithio ar gyflwyno ein gwasanaethau a hefyd ar ein cymunedau a'n busnesau, y byddwn ni'n eu galluogi i ymadfer wedi'r pandemig. Wrth i ni fwrw iddi gyda'r gwaith cynllunio adferiad, bydd cofrestrau risg y Cyngor yn cael eu hadolygu i sicrhau bod y risgiau a nodwn yn y tymor byr, canolig a hir yn derbyn sylw a bod trefniadau monitro clir wedi'u sefydlu.

- **Caffael**

Mae caffael yn cyflawni rôl bwysig yn sut mae'r Cyngor yn dyrannu adnoddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ystod 2019-2020, datblygwyd Rheolau Gweithdrefnau Contract newydd a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2019, ac a ddaeth i rym o 1 Medi 2020. Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contract yn ymgorffori rhwymedigaethau Datganiad Polisi Caffael Cymru. Mae'r Polisi yn mabwysiadu'r diffiniad canlynol o gaffael cynaliadwy "y broses lle mae sefydliadau'n diwallu eu hanghenion o ran nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn modd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan o ran manteision cynhyrchu i'r sefydliad, ond hefyd i'r gymdeithas a'r economi, ochr yn ochr â lleiafu difrod i'r amgylchedd". Mae'r Rheolau Gweithdrefnau Contract diwygiedig hefyd yn rhoi mwy o bwyslais ar ystyried y pum ffordd o weithio ac yn cynnwys cyfeiriadau at y swyddogion technegol perthnasol am gyngor. Cynhwyswyd yr elfennau canlynol: manteision cymunedol; manteision amgylcheddol a chynaliadwyedd; profi darpariaethau yn y farchnad i bwysleisio ymgysylltiad ymlaen llaw â

chyflenwyr lleol, fel eu bod yn ymwybodol o gyfleoedd sydd ar droed; a'r gallu i rannu contractau yn elfennau llai wrth dendro er mwyn annog cyflenwyr bach a lleol i ymwneud â nhw. Ar ben hynny, datblygwyd Dogfennau Strategaeth Dendro'r Cyngor ymhellach i gynnwys darpariaeth sy'n sicrhau bod 'Defnyddwyr Gwasanaeth' yn rhoi sylw dyledus i'r pum ffordd o weithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn y cyfnod cynllunio caffael (e.e. ymchwil marchnad/diwrnodau cyflenwyr; manteision cymunedol; manteision amgylcheddol a chynaliadwyedd; contractau neilltuedig; strwythur 'gosod'; ac Asesiad Effaith Integredig y Cyngor sy'n gofyn yn uniongyrchol bod swyddogion yn ystyried y pum ffordd o weithio). Mae'r Cyngor hefyd wedi drafftio Dogfen Canllawiau Caffael sy'n cyflwyno'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio ac yn eu gosod yng nghyd-destun caffael. Nod y canllawiau yw amlygu ymwybyddiaeth o'r nodau a'r ffyrdd o weithio a'u cyflwyno yng nghyd-destun caffael, gyda'r bwriad o sicrhau bod ystyriaethau o'r fath yn cael eu mabwysiadu adeg cynllunio caffael, er mwyn medru cynnwys darpariaethau priodol yn yr ymarferiad caffael.

- **Beth ddywedodd ein rheoleiddwyr**

Ar 26 Mai 2021, cyflwynodd Colin Davies (Rheolwr Rhanbarthol – Archwilio Cymru) Grynodeb Archwiliad Blynyddol 2020 i'r Cyngor, a gynhyrchwyd i gyfuno'r Llythyr Archwilio Blynyddol a'r Adroddiad Gwella Blynyddol a gynhyrchwyd yn flaenorol fel dogfennau ar wahân gan Archwilio Cymru er mwyn darparu crynodeb sengl o'r canfyddiadau perfformiad a'r gwaith archwilio ariannol a wnaed gan Archwilio Cymru, yn ogystal â gwaith archwilio a gynlluniwyd i'r dyfodol. Roedd Crynodeb yr Archwiliad Blynyddol yn cyflwyno'r gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers i'r Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf gael ei gyflwyno ym mis Medi 2019. Mae Archwilio Cymru yn cynhyrchu nifer o wahanol fathau o adroddiadau. Gelwir rhai o'r adroddiadau yn "Adroddiadau Lleol" oherwydd eu bod yn ymwneud â rhaglen o astudiaethau cenedlaethol ac astudiaethau llywodraeth leol sy'n cael eu hariannu o Gronfa Gyfunol Cymru. Yn ystod y flwyddyn (2020/2021), ni wnaed argymhellion ffurfiol gan yr Archwilydd Cyffredinol yn deillio o'r gwaith lleol canlynol a gynhaliwyd gan Archwilio Cymru yng Nghyngor Castell-nedd Port Talbot.

Yn ystod 2020/21 cyflwynodd Estyn adroddiad cenedlaethol thematig oedd yn rhoi trosolwg o sut mae awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol wedi gweithio gydag ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) i hybu dysgu a chefnogi disgyblion agored i niwed yn ystod y pandemig. Mae tudalen 4 o'r adroddiad yn manylu ar y prif ganfyddiadau ac mae tudalen 8 yn rhestru 5 argymhelliad i Lywodraeth Cymru weithio gyda chonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol a phartneriaid. Mewn ymateb, mae ein Cyfarwyddwr Addysg, Hamdden a Dysgu Gydol Oes wedi rhoi diweddariad ar ein cynnydd ninnau yn erbyn y pum argymhelliad a bennwyd gan Estyn. Mae ein hadroddiad cynnydd i'w weld yna Bwrdd Addysg, Sgiliau a Diwylliant y Cabinet, 14 Hydref.

AGC (Arolygiaeth Gofal Cymru) – Rydym yn disgwyl am lythyr adolygiad blynyddol AGC, sy'n crynhoi eu gwerthusiad o'n perfformiad o ran gwasanaethau cymdeithasol (gwasanaethau oedolion a phlant) ar gyfer 2020/21. Mae llythyr 2019/20 ar gael i'w weld ar wefan AGC.

- **Monitro ac Adolygu**

Yn ystod 2020/21, oherwydd y pandemig, ni chafodd perfformiad gwasanaethau ei adrodd yn rheolaidd i'r Cabinet, Byrddau'r Cabinet a'r is-bwyllgorau craffu perthnasol. Er tryloywder, bydd y gyfres lawn o ddangosyddion perfformiad a fyddai fel arfer yn cael eu hadrodd i'r Cabinet, y Byrddau Cabinet perthnasol a'r is-bwyllgorau craffu perthnasol yn cael ei chynnwys gyda'r Adroddiad Blynyddol hwn a'i chyhoeddi ar ein gwefan.

- **Ymgynghori, Ymgysylltu ac Adrodd**

Er mwyn cefnogi ymateb y Cyngor i'r pandemig, cyflwynodd y Tîm Cyfathrebu a Gwasanaethau Digidol wasanaeth cyfathrebu o 8am tan 9pm, 7 diwrnod yr wythnos yn wythnosau cynnar y pandemig, a chyflwyno datganiadau rheolaidd i'r wasg ynghylch COVID-19 er mwyn rhoi'r newyddion diweddaraf i'n trigolion ar hyd 2020/21. Ar ben hynny, cyflwynwyd datganiadau rheolaidd i'r wasg i roi'r newyddion diweddaraf i'r trigolion wedi'r llifogydd yn Sgiwen ym mis Ionawr 2021.

Cafodd y Tîm Cyfathrebu a Gwasanaethau Digidol wobr arian uchel ei bri yng Ngwobrau Cyfathrebu Gwasanaethau Cyhoeddus 2020 am ei ymgyrch cyfathrebu cysylltiedig â chynllun Iach a Diogel CNPT, a sefydlwyd ar ddechrau'r pandemig. Cynhelir y seremoni wobrwyo yn flynyddol i gydnabod cyflawniadau cyfathrebwyr ar draws y sector cyhoeddus sydd wedi darparu cyfathrebu arloesol, a gafodd effaith, i gefnogi cyflawni polisi ar lefel genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

- **Cydweithio**

Mae gan y Cyngor hwn draddodiad cryf o weithio mewn partneriaeth a gallwn gyfeirio at lawer o bartneriaethau a threfniadau cydweithio ar lefel leol, rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Rydym ni'n credu mewn cydweithio, ond mae'n bwysig bod dinasyddion yng Nghastell-nedd Port Talbot a'r economi leol yn elwa o'r canlyniadau sy'n cael eu cyflawni trwy'r trefniadau gwaith hyn, sy'n cyfrannu at gyflawni ein hamcanion llesiant.

Yn gynnar yn 2020, roedd pwyllgorau craffu'r Cyngor yn bwriadu adolygu'r trefniadau cydweithio presennol i sicrhau eu bod ar sylfaen gadarn ac yn gynhyrchiol, fel bod modd i Gabinet y Cyngor fod yn hyderus bod y trefniadau hynny yn gweithio er lles pennaf dinasyddion a hefyd, bod trosolwg democrataidd clir ac effeithiol ar y trefniadau hynny. Bu oedi yn achos y gwaith hwn oherwydd pandemig COVID-19 a bydd yn cael ei symud ymlaen fel rhan o waith ailosod ac adnewyddu'r Cyngor.

- **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus**

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Castell-nedd Port Talbot ei ail Adroddiad Blynyddol, oedd yn rhoi trosolwg o gynnydd a sut mae sefydliadau sy'n aelodau ohono ar draws y sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a chymunedol yn cydweithio i wella llesiant yn y fwrdeistref sirol. Mae'r Adroddiad yn cyflwyno cynnydd gwych mewn rhai meysydd, llai mewn eraill, ac yn dangos sut mae'r berthynas rhwng asiantaethau partner wedi datblygu'n gadarnhaol. Mae'r adroddiad llawn ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg, neu ewch i http://www.nptpsb.org.uk/cy/index.html, lle cewch ragor o wybodaeth hefyd am y BGC a'i waith.

Er mwyn sicrhau dealltwriaeth lawnach o hyd a lled effaith y pandemig ar ein cymunedau, comisiynodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus grŵp amlasiantaeth i goladu, dadansoddi a chysoni ystod o ddata meintiol, ansoddol ac anecdotaidd i greu Asesiad Effaith Cymunedol. Ar ben hynny, cynhaliwyd arolwg cyhoeddus eang i ganfod sut gallai gwasanaethau weithio gyda thrigolion a busnesau i ddylanwadu ar eu hymdrechion adferiad. Bydd adborth yr arolwg yn helpu i lunio gwaith Ailosod ac Adnewyddu'r Cyngor, ac yn llywio'r blaenoriaethau a gaiff eu cynnwys yng Nghynllun Adferiad Corfforaethol y Cyngor, sydd i'w gyhoeddi yn 2022.

- **Cydraddoldeb**

Mae'r heriau diarbed a wynebwyd gan bawb ohonom yn ystod y 12 mis diwethaf wedi bod yn ddigynsail ac wedi profi pawb ohonom. Wrth i ni ddechrau mynd ati i ddiwygio'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystod 2019, ni allem fod wedi gwybod na deall yn llawn y newidiadau a fyddai'n digwydd cyn iddo gael ei gwblhau yn 2020.

Oherwydd yr oedi wrth lunio ffurf derfynol ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, a achoswyd gan ddyfodiad COVID-19, cawsom gyfle i edrych o'r newydd ar ein hamcanion cydraddoldeb a'r camau gweithredu cysylltiedig, er mwyn rhoi sylw llawn i'r effeithiau oedd yn dod i'r amlwg yn sgîl hynny a mudiad Mae Bywydau Du o Bwys (BLM) ar ein cymunedau. Cyhoeddwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024, ynghyd â'r amcanion cydraddoldeb, erbyn 1 Hydref 2020 (y dyddiad cyhoeddi diwygiedig a awgrymwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol), a chafodd y camau gweithredu cysylltiedig, yr oedd angen eu hadolygu'n fanylach, eu cyhoeddi ar ôl eu cymeradwyo gan y Cyngor ar 27 Ionawr 2021.

Nid dyma ddiwedd ein gwaith. Nid yn unig mae angen i ni weithredu a gwneud cynnydd, ond rydym yn ymwybodol nad yw'r camau gweithredu, fwy na'n cymdeithas a'n hamgylchiadau bythol newidiol, yn ddigyfnewid. Byddant yn cael eu hadolygu'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn parhau'n berthnasol ac yn briodol ar gyfer anghenion ein cymunedau. Mae'r gwaith hwn eisoes wedi cychwyn trwy ystyried canfyddiadau arolwg gwaith diweddar Cymdeithas y Gymuned BME i helpu i lywio Cynllun Cydraddoldeb Hil Llywodraeth Cymru, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â dull cynhwysfawr o ymdrin ag adferiad ac yn cael eu gwreiddio ynddo. O ganlyniad, bydd amserlenni

gweithredu, ac unrhyw fesurau newydd neu ddiwygiedig, yn cael eu hychwanegu pan ddaw manylion y gwaith hwn yn gliriach. Mae Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2021 yn darparu gwybodaeth ynghylch datblygiad yr amcan cydraddoldeb a chamau gweithredu cysylltiedig, yn ogystal â throsolwg o gynnydd hyd at 31 Mawrth 2021.

- **Y Gymraeg**

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn ymroddedig i egwyddor safonau'r Gymraeg, ac mae'n ymdrechu i gydymffurfio â'r safonau fel y'u cymhwyswyd i ni mewn amgylchedd sy'n dal yn anodd yn ariannol ac yn cyfyngu ar adnoddau. Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ein gwasanaethau yn ystod 2020/21, wrth i lawer o'r gweithlu gael eu hailgyfeirio i feysydd gwasanaeth eraill fel rhan o ymateb y Cyngor i'r haint, ac wrth i gefnogi ein trigolion yn y cyfnod digynsail hwn a'r ffyrdd newydd o weithio ddod yn norm.

Mae Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2020-2021 yn tynnu sylw at ein gwaith yn rhoi safonau'r Gymraeg ar waith fel y'u cymhwyswyd i'r Cyngor, yn ogystal â nodi meysydd lle mae angen rhagor o waith.
Yn sgîl popeth sydd wedi digwydd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym ni'n ymwybodol na ellir ystyried y Gymraeg wedi'i hynysu oddi wrth agenda ehangach cydraddoldeb, ac mae effeithiau'r digwyddiadau a welwyd yn ystod 2020/21 yn taro tant gyda phawb ohonom. Mae iaith ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol yn elfennau allweddol o'r sgwrs ehangach sy'n cael ei chynnal ar draws cymdeithas, ac mae'n rhaid cynnwys yr iaith Gymraeg a'i diwylliant yn hyn. Gyda hynny mewn golwg, byddwn ni'n gweithio i sicrhau bod mentrau'n cael eu datblygu, bod deunydd ar gael, a bod digwyddiadau'n cael eu cynnal (pan ddaw'r cyfyngiadau i ben) er mwyn helpu i feithrin gwell dealltwriaeth o'n cymunedau amrywiol a'u dathlu.

- Bydd y gwaith hwn yn llywio'r adolygiad o Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg sydd i gael ei gynnal yn ystod 2022-2023. Gwelir gwybodaeth am gynnydd y Strategaeth yma.

**Llywodraethu ac Adnoddau – Dangosyddion Perfformiad Allweddol:**

- Cyfraddau salwch wedi gwella'n sylweddol
- Trafodion ar-lein wedi cynyddu'n sylweddol, un o effeithiau'r pandemig
- Canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg wedi cynyddu
- Nid oes data ar gyfer rhai mesurau gwasanaethau i gwsmeriaid oherwydd i ymweliadau wyneb yn wyneb gael eu hatal dros dro pan oedd adeiladau dinesig ar gau
- Cynyddodd yr amser a gymerir ar gyfartaledd i ateb galwadau ffôn yn achos galwadau Cymraeg, ond gostyngodd yn achos galwadau Saesneg
- Cyfraddau adennill NNDR a threth y cyngor fymryn yn is na'r flwyddyn flaenorol
- Nid oes argymhellion statudol o ran ein trefniadau cynllunio a pherfformiad

Ceir gwybodaeth fanylach gyda sylwadau ar berfformiad yn ein cyfres lawn o ddangosyddion perfformiad:

| Dangosydd Perfformiad | 2018/19 Gwirioneddol | 2019/20 Gwirioneddol | 2020/21 Gwirioneddol | 2020/21 Targed | Perff. CAG yn erbyn Targed 20/21 | Perff. CAG yn erbyn 19/20 Gwirioneddol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraethu ac Adnoddau (trosfwaol) – Sicrhau bod busnes y Cyngor yn cael ei reoli er mwyn mwyafu'r manteision hirdymor ar gyfer dinasyddion Castell-nedd Port Talbot** | | | | | | |
| CP/086 - PAM/001 – Nifer y diwrnodau gwaith a gollwyd i absenoldeb salwch fesul cyflogai – diwrnodau Salwch CALl a gollwyd | 9.79 | 12.13 | 8.13 | 9.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/087 – Canran y bobl gymwys a gafodd eu cofrestru i bleidleisio | 94.29 | 96.13 | Gweler isod | 94.30 | **Amh** | **Amh** |
| Newidiodd y dull o gasglu'r mesur hwn yn ystod 2020/21. Y mesur newydd wrth symud ymlaen, a gynhwyswyd yng Nghynllun Corfforaethol 2021-23, yw: % yr Etholwyr Llywodraeth Leol (trwy bob llwybr) a ddilyswyd a chael eu cofrestru i bleidleisio: **Data gwaelodlin 2020/21 ar gyfer y mesur newydd hwn yw 96.2%** | | | | | | |
| CP/088 – Nifer yr argymhellion statudol a wnaed gan archwilwyr allanol y Cyngor ar drefniadau cynllunio strategol a gweithrediadol | 0 | 0 | 0 | 0 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/097 - CS/001 – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Amserau aros cyfartalog cwsmeriaid (wyneb yn wyneb) | 6.50 | 8.00 | Dim data oherwydd COVID-19 | 8.00 | **Amh** | **Amh** |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| CP/098 - CS/004 – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Canran y cwsmeriaid sy'n ymadael cyn cael eu gweld | 0.13 | 0.34 | Dim data oherwydd COVID-19 | 0.25 | **Amh** | **Amh** |
| CP/101 - CS/002a – Gwasanaethau i Gwsmeriaid – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Gymraeg | 20 | 45 | 51 | 25 | Coch | Coch |
| CP/102 - CS/002b – Amser ar gyfartaledd (eiliadau) i ateb galwadau ffôn yn Saesneg | 22 | 52 | 43 | 25 | Coch | Gwyrdd |
| CP/103 - DBC/001 – Canran y trafodion a gwblhawyd ar-lein (gwasanaethau newydd ar-lein) | 76.42 | 78.17 | 89.33 | 85.00 | Gwyrdd | Gwyrdd |
| CP/105 - CFH/008 – Canran y trethi annomestig oedd yn ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod lleol | 98.08 | 98.71 | 98.06 | 98.00 | Gwyrdd | Ambr |
| CP/106 - PAY/001 – Canran yr anfonebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod | 93.22 | 94.25 | 93.35 | 95.00 | Ambr | Ambr |
| CP/107 - CFH/007 – Canran treth y cyngor oedd yn ddyledus ar gyfer y flwyddyn ariannol a dderbyniwyd gan yr awdurdod | 98.05 | 98.07 | 97.54 | 98.00 | Ambr | Ambr |
| CP/114 – Canran y bobl 3 oed a throsodd sy'n gallu siarad Cymraeg | 25.26 | 20.62 | 22.47 | Dim targed wedi'i bennu ar gyfer 2020/21 | **Amh** | Gwyrdd |

**8. Rhowch eich barn ar y pethau sy'n bwysig i chi**

Rydym ni'n croesawu adborth ar yr wybodaeth yn yr Adroddiad hwn trwy:

E-bost: policy@npt.gov.uk neu drwy'r post: Y Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot, Y Ganolfan Ddinesig, Port Talbot, SA13 1PJ

Mae'r Panel Dinasyddion yn galluogi trigolion i gymryd rhan mewn ymchwil sy'n ymwneud â'r cyngor. Mae hynny'n golygu y byddwch chi'n gallu rhoi eich barn i ni ar bolisïau'r cyngor, ei flaenoriaethau a/neu ei wasanaethau. Bydd yr adborth yn ein helpu i ddeall persbectif y trigolion, a byddwn ni'n ei ddefnyddio i'n helpu i wneud penderfyniadau. Ni fydd angen unrhyw wybodaeth am wasanaethau'r cyngor arnoch chi i ddod yn aelod o'r panel. Rydym ni'n chwilio am amrywiaeth barn gan ystod o wahanol bobl. Gellir gofyn i aelodau'r panel gymryd rhan mewn holiaduron ar-lein, trafodaethau anffurfiol, gweithdai, cyfweliadau ffôn a mathau eraill o ymgyngoriadau. Os hoffech chi ymuno, llenwch yr holiadur recriwtio sydd ar gael yma.

Mae gennym ni hefyd nifer o ddigwyddiadau ymgynghori/ymgysylltu ynghylch amrywiol wasanaethau yr ydym ni'n eu hyrwyddo yn y wasg ac ar y wefan; gallwch chi gael mynediad iddyn nhw trwy'r ddolen hon: https://www.npt.gov.uk/haveyoursay?lang=cy-gb

Ewch i wefan y Cyngor: https://www.npt.gov.uk/?lang=cy-gb

Dilynwch ni ac ychwanegu eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor: https://www.facebook.com/Castell-neddPortTalbotCBC

Dilynwch yr adroddiad hwn ac ychwanegu eich negeseuon Trydar ar ein Tudalen Twitter: @CyngorCnPT

Dilynwch ni ar Instagram: https://www.instagram.com/nptcouncil/